

Llinyn byw pellen ein bod Yw edefyn cerdd dafod

# Barddas

Pris i Aelodau: £25 y flwyddyn, Pris i'r Cyhoedd: £7.00  
Rhif 307 Ebrill/Mai/Mehefin 2010

**Cofio Hywel Teifi**  
*'Athro hael ei athrylith'*



# Clwb Ilyfrau barddas *i aelodau Barddas yn unig*

2

Twm Morys £4.00 (£6.00)

## Aelwyd Gwlad

Elwyn Edwards £2.00 (£5.00)

## Alan

gol. Huw Meirion Edwards £5.00 (£9.95)

## Anterliwtiau Huw Jones o Langwm

gol. A. Cynfael Lake £6.00 (£14.95)

## Y Bardd a Gollwyd Cofiant David Ellis

Alan Llwyd ac Elwyn Edwards £5.00 (£13.00)

## Beirniadaeth Gyfansawdd

Bobi Jones £10.50 (£14.00)

## Blodeugerdd Barddas o'r Ail Ganrif ar Bymtheg

gol. Nesta Lloyd £5.00 (£14.95)

## Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol

gol. Medwin Hughes £5.00 (£12.95)

## Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar

gol. Marged Haycock £5.00 (£14.95)

## Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif

gol. E. G. Millward £5.00 (£14.95)

## Blodeugerdd y Preselau

gol. Eirwyn George £4.00 (£9.95)

## Bro a Bywyd Beirdd y Mynydd Bach

gol. Emyr Edwards £3.00 (£8.95)

## Bro a Bywyd W. J. Gruffudd

gol. Geraint Bowen £2.00 (£6.95)

## Bro a Bywyd Gwŷr Llên Cwm Tawe

gol. Ifor Rees £3.00 (£6.95)

## Bro a Bywyd D. Tecwyn Lloyd

gol. Elwyn Edwards £3.00 (£7.95)

## Bro a Bywyd Iorwerth C. Peate

gol. R. Alun Evans £7.50 (£10.00)

## Bro a Bywyd Rhydwen Williams

gol. Emyr Edwards £7.50 (£10.95)

## Byd yr Ysbrydion

Elwyn Edwards £3.00 (£7.00)

## Cadwn y Mur

gol. Elwyn Edwards £5.00 (£15.95)

## Canu Arnaf (1)

Bobi Jones £4.00 (£9.95)

## Canu Arnaf (2)

Bobi Jones £4.00 (£9.95)

## Cerddi Bryan Martin Davies

Bryan Martin Davies £10.00 (£13.00)

## Cerddi

Derwyn Jones £2.00 (£6.00)

## Cerddi Cwrs y Byd

Wynne Elis £4.00 (£7.95)

## Chwarae Mig

Emyr Lewis £2.00 (£5.95)

## Crio Chwerthin

Bobi Jones £2.00 (£13.95)

## Dal Diferion

Dafydd Islwyn £2.00 (£5.50)

## Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch

gol. Bleddyn O. Huws £5.00 (£11.95)

## Eiliadau o Berthyn

T. James Jones £2.00 (£4.95)

## Estyn yr Haul

gol. Eirwyn George £5.00 (£11.95)

## Ffwrtman Hoff

gol. Nesta Lloyd £3.00 (£7.95)

## Gronwy Ddiabael Goronwy Ddu

Alan Llwyd £5.00 (£19.95)

## Gwaedd y Lleiddiaid

goln Alan Llwyd ac Elwyn Edwards £5.00 (£16.95)

## Harddwch yn Dechrau Cerdded

Emrys Roberts £2.00 (£6.95)

## Hunllef Arthur

Bobi Jones £5.00 (£12.95)

## Mawl a'i Gyfeillion

Bobi Jones £5.00 (£14.95)

## Morwyr y Cilie

Jon Meirion Jones £10.00 (£15.00)

## Ôl Troed

Bobi Jones £3.00 (£6.00)

## Siwrnai

Ithel Rowlands £2.00 (£5.95)

## Sonedau i Janice a Cherddi Eraill

Alan Llwyd £3.00 (£8.95)

## Wrth Reddf

Donald Evans £2.00 (£6.00)

## Y Dewin a Cherddi Eraill

Moses Glyn Jones £2.00 (£4.00)

## Y Cyntefig Cyfoes

Donald Evans £2.00 (£6.95)

## Y Patrwm Amryliw cyf. 1

gol. Robert Rhys £5.00 (£13.95)

## Y Wefr o Weld

Norman Closs Parry £2.00 (£5.95)

## Yn Nheyrnas Diniweidrwydd

gol. Alan Llwyd £5.00 (£12.95)

## Ynghylch Tawelwch

Bobi Jones £2.00 (£6.95)

Archebwch eich llyfrau drwy gysylltu

ag Elwyn Edwards, Bod Aeron, Heol

Pen-sarn, Y Bala, Gwynedd LL23 7SR.

Ffôn: 01678 520378/ Ffacs: 01678 521051

(nodir y pris bargaen i aelodau Barddas,  
ar ôl nodi'r llyfr a'r awdur, a'r pris  
gwerthu llawn, rhwng cromfachau)

# Cynnwys

## Cerddi

- 5 **Marwnad Hywel Teifi**  
Colin Gwyn Jenkins
- 9 **Yr Arwr**  
Richard Llwyd Jones
- 22 **Canmoler yn awr ...**  
(cerddi gan nifer o feirdd)
- 27 **Gwarthnod**  
Cynan Jones
- 28 **Twymo'r Tŷ**  
Iwan Rhys
- 28 **Gwaith Dilys**  
Wil Lloyd Griffith
- 28 **Y Dywysoges**  
Wil Lloyd Griffith
- 30 **Nid yw Andreas yn Athen bellach**  
Robert Lacey
- 30 **Defnydd callach i gwpan**  
Robert Lacey
- 30 **Talwch yma**  
Robert Lacey
- 31 **Puprod i aros pryd**  
Robert Lacey
- 31 **Ffarwelio**  
Iwan Llwyd
- 36 **Hywel Teifi**  
John Phillips
- 36 **Kenavo**  
Iwan Llwyd
- 41 **Cofio Rhys**  
Gwynfor ab Ifor
- 50 **Ffarwelio â John Meredith**  
Ellis Roberts
- 51 **Bwganod/Addewid**  
Norman Closs Parry
- 54 **Cwmwl**  
Juliet Revell
- 57 **Orca**  
Iwan Llwyd
- 64 **Kenny MacAskill**  
Mary Scammell

## Colofnau arferol

- 10 **Beth Sydd i'w Ddweud?**  
Gwynfor ab Ifor
- 12 **Ar y Ffin**  
Grahame Davies
- 16 **Colofn y beirdd sy'n celu**  
Andrea Parry
- 19 **Rhuddin Amser**  
Donald Evans
- 32 **Congol yr Ysgolion**  
Huw Meirion Edwards
- 33 **Colofn cwj**  
Ceri Wyn Jones
- 40 **Wrth Fynd Heibio**  
Dewi Jones
- 48 **Adolygiadau Hwyr**  
Bobi Jones
- 56 **Cystadleuaeth yr Englyn**

## adolygiadau

- 58 **Donald Evans yn adolygu Yr Amhortreadwy a Phortreadau Eraill**  
(Bobi Jones)
- 60 **Gwyn Thomas yn adolygu Cartre'n y Cread**  
(Donald Evans)
- 62 **Norman Closs Parry yn adolygu Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjoclet**  
(Gwyn Thomas)

## Ysgrifau

- 6 **Hywel Teifi Edwards 1934–2010: Atgof Llyfrgellydd**  
Huw Walters
- 34 **Diwrnod Cenedlaethol i Gofio T. Llew Jones**
- 37 **Y Bardd Addawol Ben Bowen**  
D. Ben Rees
- 42 **Tlysau Barddas 2010**
- 52 **Canu Gwlad**  
Twm Morys

# Golygyddol Barddas 307

## Golygydd:

ALAN LLWYD

Pen-rhiw, 71 Ffordd Pentrepoeth,

Treforys, Abertawe SA6 6AE.

Ffôn a Ffacs: 01792 792829

E-bost: [alan.llwyd@googlemail.com](mailto:alan.llwyd@googlemail.com)

## Swyddog Cynorthwyol:

Y PRIFARDD ELWYN EDWARDS

Bod Aeron, Heol Pen-sarn,

Y Bala, Gwynedd LL23 7SR.

Ffôn: 01678 520378

Ffacs: 01678 521051

E-bost: [bodaeron@btinternet.com](mailto:bodaeron@btinternet.com)

## Ysgrifennydd:

DAFYDD ISLWYN

Teifi, 106 Heol Llancayo,

Bargoed, Caerffili, CF8 8TP.

Ffôn: 01443 830994

Cyhoeddir *Barddas* gyda chefnogaeth

ariannol Cyngor Llyfrau Cymru.

Argraffwyd gan Wasg

Dinefwr, Llandybie

Mae'r rhifyn hwn o *Barddas* eto yn orlawn, ac mae'n rhaid i mi ymddiheuro i rai o gyfranwyr brwd y cylchgrawn i mi fethu dod o hyd i ofod i'w hysgrifau ac i rai cerddi yn y rhifyn hwn eto. Roeddwn innau hefyd wedi paratoi ysgrif ar gyfer y rhifyn hwn, sef trafodaeth ar gerdd Waldo Williams, 'Die Bibelforscher', ond bu'n rhaid imi dynnu honno allan hefyd. Caiff ymddangos bellach mewn llyfr sydd ar y gweill gen i ar Waldo.

Daliwch i anfon – caiff popeth teilwng ei gynnwys yn y cylchgrawn yn y pen draw.

Y rhifyn nesaf o *Barddas* fydd rhifyn yr Haf, a gyhoeddir ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol, ac fe gyhoeddir rhifyn yr Hydref cyn y Nadolig wedyn. Ac fe ddaw rhifyn y Gaeaf ym mis Chwefror. Bydd y drefn newydd hon yn fwy cytbwys, a bydd yn sicrhau na fydd gormod o fwllch rhwng rhifynnau.

Pan oedd y rhifyn hwn o *Barddas* ar fin mynd i'r wasg, clywsom y newyddion syfrdanol a thrist am farwolaeth Iwan Llwyd. Bu'n golofnydd sefydlog ac yn gyfrannwr cyson i'r cylchgrawn hwn ers blynyddoedd lawer, ac mae ganddo nifer o gerddi eto yn y rhifyn hwn o *Barddas*. Bydd teyrngedau i Iwan yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o *Barddas*. **B**

# Marwnad Hywel Teifi

gan Colin Gwyn Jenkins

Oer calon, mae hon heno – dan drawiad;  
aeth ei churiad a heth ei churio.  
Aeth gŵr a fu'n wyrth ddiguro  
o'n plith wedi'r maith ddarlithio,  
ond yn ŵr â'i nwyd yn herio – geiriau  
y gau dafodau a gyfodo.  
Ein hail Lywelyn, ein cof rhag gefyn  
yr un hen elyn sy'n anwylo  
diwedd ein doeau a gwaeledd golau  
nawniau ein dyddiau a'u dyhuddo.  
Y gŵr a agorai lenni a lonnai  
lu a oleuai i'w ail-lywio.  
Y gŵr a garai ei bobl er eu bai  
ac a'u taer regai rhag eu trigo.  
Y gŵr a roddai aidd y gwreiddio  
bob gaeaf yn alaf yn nwylo  
ei daeogion gan ein diwygio  
â haul gwanwyn ein hailegion  
i lasu loesau duon ein doeau  
â hafau ein cofio.  
O Dduw Dad mewn dyddiau dihidio  
heb Hywel pwy a ddêl i ddiawlio  
bod gwyll gwynfa ein byd gwallgo – arnom  
a rhegi trosom, rhag y treisio,  
â'i wŷs torchi llewys i'n llywio  
â swyn lluch hanes ein llychwino?  
Heb Hywel pwy a heuo – had hanes  
yn hedd y fynwes ddoe ei huno?  
Heb Hywel ofer yw herio  
y bleiddiaid â'u globaleiddio.  
Heb ei lais i uchel leisio – y gwir  
rhoddir i'r anwir wledd i'w freinio.  
Cibddall wyf a gwag hebddo – heb olau  
haf y lliwiau fu yn fy llywio.  
Wyf oer unig, ofer heno – yw gwres  
aelwyd gynnes henwlad a gano.  
Ofer nerth a hwyl, mae wyllo  
y galon hon yn diuno  
holl ofnau'r difodiant fu'n llafrnio  
mynwes drwy hanes ein hymgreinio  
i gynnydd y Sais a'n harneisio  
i'w gerbyd rhaib hyd ein troi heibio.  
Pen cyfaill, poen yw cofio – dy elwch  
a thywyllwch dy dristwch ar dro.  
Collais y cellwair a ffrwyth dy ffraethair  
a âi'n anniwair ymeginio.  
Collais dy hyfrydlais a'm cleisio  
dan y croen â'm hysbryd yn crino.  
Collais y wefr fu'n pefrio – drwy nosau  
gwan adegau gan eu diwygio  
o'u pryder â hyder i radio  
o saib eu hencil gan ysboncio.

Collais gwmni er y gweddio  
drosot, hebot fe â'r byd heibio.  
Hebot pa obaith a rown i'r heniath  
â'n hanwybodaeth yn ein bwydo?  
Hebot pa wybod a'n cwyd o'n ceudod  
pan ddêl diwrnod cêl ein darnio?  
Buost gadarn a thost d'ergydio,  
ond tyner fuost pan yn tanio  
dy lucedd yn drwydded i dreiddio  
i ddeall y dall er diwyllio.  
Buost driw i'r Un wrth ddihuno  
ein deall swrth a'n gwall o syrthio  
o dan hud ein dieneidio – mor hawdd  
â nawdd yr Americaneiddio.  
Buost hael, ond bu'r gost o hulio – gwledd  
dy wirionedd yn dy erwino  
i dyrfu d'arfod ar y neb â'r nod  
a fai'n ddyrnod bod maeth ei bwydo.  
Ceraist dy iaith gan weithio – i'w hadfer  
er y difrawder a'i difrodo.  
Ceraist ag angerdd gerdd a gerddo  
i fêr y galon freg i wyllo.  
Ceraist rin meistraidd draw y gair a draidd  
â'i dduw rym yn aidd er mwneiddio.  
Ceraist friwsion llon a'n llanwo  
yn amheuthun gan ein mwytho.  
Ceraist, gwaedaist wrth ergydio  
at y gwâr i'w atgyweirio.  
Ceraist, collaist, er mwyn ein callio,  
dy iechyd o weld byd yn bwydo  
trachwant dyn yn ei beiriant dwyno  
dawn y cread a'i weld yn crio.  
Llangennech nid yw'n llawn o gwyno,  
dialar ddieithriaid sy'n heidio  
o bob man, ond heb ymuno  
â bodolaeth byd a welo  
ryw obaith ar ôl y rheibio,  
yn yr heniath, nad yw'n crino.  
Aeth Aber Arth heb air wrtho, – rheibiwyd  
hen aelwyd fu'n hwylio  
bore oes gan Sais a'i brisio,  
aeth yn neb ei wyneb yno.  
Oni welwn a'n cynhalio – yn fud  
a'n golud ar gilio?  
Oni welwn olau hwn heno  
a'r gwynt a'r glaw yn fraw dros y fro?  
Oni welwn a fu'n anwylo  
cân ein haelwyd? Hon a'n cynhalio.  
Dywysog diysgog fu'n do – inni,  
ein hunig ddiweddglo  
i'w enaid mwyn yw dymuno  
nef â'i hedd yn gartref iddo. **B**

# Hywel Teifi Edwards 1934–2010

## Atgof Llyfrgellydd

Huw Walters

Yn betrusgar iawn y derbynais wahoddiad Elwyn ac Alan i lunio ysgrif goffa i Hywel Teifi Edwards ar gyfer y rhifyn hwn o *Barddas*, a hynny'n bennaf am fod popeth y gellid ei ddweud amdano eisoes wedi ei draethu yng ngholofnau'r newyddiaduron, yn lleol ac yn genedlaethol, ac ar dudalennau'r wasg gylchgronol. Ni ddywedaf air am ei gyhoeddiadau, yn llyfrau nac erthyglau, gan fod y rheini wedi eu rhestru yn y llyfryddiaeth o'i weithiau cyhoeddedig a luniais ar gyfer ei gyfrol gyfarch, *Cawr i'w Genedl*, yn 2008. Ceir yno rai cannoedd o eitemau a gyhoeddwyd rhwng 1955 a 2007. Cyfyngaf y sylwadau hyn, felly, i ambell atgof personol am Hywel dros gyfnod o flynyddoedd.

Cofiaf mai'r tro cyntaf y deuthum i wybod amdano oedd yn niwedd y Chwedegau, a minnau, ar y pryd, yn y chweched dosbarth yn Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman. Yr oedd yn arfer gan yr Adran Efrydiau Allanol ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, fel yr oedd bryd hynny, gynnal ysgolion undydd ar gyfer disgyblion y chweched, ac aeth hanner dwsin ohonom a oedd yn astudio Cymraeg yno un prynhawn dydd Gwener, yng nghwmni ein hathro, y geiriadurwr H. Meurig Evans, i wrando ar Hywel yn traethu ar ysgrifau T. H. Parry-Williams – yr oedd ei gyfrol *Myfyrdodau* ymhlith ein llyfrau gosod ar y pryd. Rhaid imi gyfaddef, fodd bynnag, na allaf gofio, bron ddeugain o flynyddoedd yn ddiweddarach, fawr ddim o gynnwys y ddarlith honno.

Wedyn, yn ystod y saithdegau, a minnau bryd hynny wedi dechrau ymchwilio am radd uwch, deuwn ar ei draws yn aml yn y Llyfrgell Genedlaethol. Daeth i wybod mai agweddau ar draddodiad diwylliannol Dyffryn Aman oedd maes fy ymchwil, a byddai'n fy holi yn achlysurol ynglŷn â'r gwaith. Yn ddiweddarach, fe'm penodwyd i swydd yn Adran y Llyfrau Printiedig yn y Llyfrgell, a rhoes hynny gyfle imi gymdeithasu â rhai o'n darllenwyr ffyddlonaf, a Hywel yn eu plith. Bu'n ddarllenydd cyson yn y Llyfrgell er pan oedd yn fyfyrwr yn Aberystwyth yn ystod pumdegau'r ganrif ddiwethaf, ac ymhlith ei gyd-ddarllenwyr bryd hynny yr oedd Ifan Wyn Williams, Roy Saer, Cynwil Williams a John Gwilym Jones.

Arferai fy rhybuddio bob amser, rai dyddiau o flaen llaw, cyn iddo ddod i Aberystwyth, gyda gorchymyn pendant imi archebu llyfrau a chylchgronau ar ei gyfer – rhag iddo wastraffu amser a gorfod straffaglu gyda'r *machines* chwedl yntau. Byddai'n gadael Llangennech

cyn wyth o'r gloch y bore gan gyrraedd y Llyfrgell erbyn hanner awr wedi naw. Pe cyrhaeddai'r Llyfrgell cyn i'r drysau agor, fe'i gwelid a'i ddwylo ymhleth tu ôl i'w gefn, a'i ben i lawr, yn tramwyo'r maes parcio helaeth y tu allan i'r adeilad. Unwaith yr agorid drysau'r Llyfrgell, fe'i clywid yn taranu ac yn cyfarch pawb wrth iddo anelu am un o'r ystafelloedd darllen a chymryd ei ddesg arferol wrth un o'r darlennyddion microfilm – *machine* arall, ysywaeth. Treuliai ryw chwarter awr tros baned o de yn y bore a'r prynhawn, hanner awr, neu efallai dri chwarter awr tros ginio – byddai hynny'n dibynnu ar y cwmni – gan ymadael wedyn am chwech o'r gloch pan fyddai'r Llyfrgell yn cau.

Roedd Hywel yn ŵr prysur ac yn weithiwr dyfal, ac ni wastraffai'r un funud pan ddeuai i'r Llyfrgell ar ei dro. Ond, o bryd i'w gilydd, gan ddilyn y deddfau iechyd a diogelwch diweddar, y mae'n rhaid i'r Llyfrgell gynnal ymarferiadau tân, ac fe gynhelir y rhain yn gwbl ddirybudd mewn glaw a hindda fel ei gilydd. Bydd yn ofynnol i bawb, yn staff ac yn ddarllenwyr, adael yr adeilad ar unwaith ar yr adegau hyn, gan sefyllian y tu allan nes y daw'r alwad inni ddychwelyd at ein dyletswyddau. Yn anffodus, a thrwy gyd-ddigwyddiad rhyfedd, fe gynhelid yr ymarferiadau tân hyn ar yr union adegau hynny pan fyddai Hywel yn y Llyfrgell, a mawr fyddai'r helynt, y rhefru a'r bygwth ar achlysuron felly.

Cofiaf ei fod acw yn ystod haf 2007, ar yr union ddiwrnod pan drefnwyd tynnu llun o holl aelodau'r staff ar y terras y tu allan i'r adeilad. Gofynnwyd imi rybuddio Hywel bod y Llyfrgell i'w chau yn gynnar am bump o'r gloch y diwrnod hwnnw, yn hytrach na'r amser arferol. Afraid dweud ei fod yn eithriadol o flin ac anfodlon. A minnau, tros ddau gant ohonom, wrthi'n tynnu'r llun o flaen y Llyfrgell, gwelwyd Hywel yn araf ymlwybro i lawr y dreif yn ei gar. Pan ddaeth gyferbyn â ni, stopiodd, agorodd y ffenestr, a rhoddodd fynegiant croyw i'w ddieter gan godi ei ddwrn a gweiddi 'Cerwch 'nôl i w'itho'r diawled', a hynny i fanllefa o gymeradwyaeth a mawr ddifyrrwch i bob un ohonom.

Yr oedd yn dynnwr coes mawr, ond y drafferth bob amser oedd ceisio dyfalu pa bryd yr oedd yn gwamalu a pha bryd yr oedd o ddifrif. Cofiaf lunio adolygiad ar *Cwm Tawe*, un o gyfrolau Cyfres y Cymoedd, yr oedd yn olygydd iddi, a hynny ar gyfer un o rifynnau *Taliesin* ym 1996, ac fe nodais rai pethau nad oeddynt wedi plesio'r golygydd o gwbl. Ychydig wythnosau yn ddiweddarach, roedd Hywel yn traddodi Darlith Goffa T. H. Parry-Williams yn Neuadd yr Arholiadau yn yr Hen Goleg ar y Prom, ac euthum yno. Wrth imi gerdded drwy'r cwad, clywais lais cyfarwydd o'r tu ôl i mi; edrychais, a gwelais Hywel a Walford Gealy yn fy nilyn. Gwelodd yntau finnau, ac wrth imi gerdded i mewn i'r neuadd, a chynulleidfawr yn fy wynebu, dyma'r llais cyfarwydd yn gweiddi 'Oi Walters! Elli di fentro gwneud tra'd ar ôl y ddarlith 'ma, 'machan i, wa'th ma' gen i asgwrn go fowr i'w bigo 'da thi'.



Hywel  
Teifi

Mae sôn am Gyfres y Cymoedd yn f'atgoffa am noson ddathlu cyhoeddi *Merthyr a Thaf* yng Nghlwb y Bont ym Mhontypridd yn ystod haf 2001. Lluniais bennod ar brydyddion cylch Pontypridd a thraddodiad 'derwyddol' y dref ar gyfer y gyfrol honno, ond drwy ryw amryfusedd, camleolwyd y troednodiadau, a mynnais gan Hywel fod y wasg yn darparu slip *erratum* i'w osod ymhob copi o'r gyfrol. Cytunodd, er yn ddigon anfoddog, wedi imi ddadlau f'achos. Daeth cynulleidfa dda ynghyd y noson honno gan gynnwys nifer o ieuencid Ysgol Rhydfelen a fu'n darllen rhannau o'r gwaith i'r gynulleidfa. Yno hefyd yr oedd nifer o'r cyfranwyr, a rhoes Hywel gyfle i bob un ohonom ddweud gair. Daeth fy nhro innau yn y man, ond nid cyn i Hywel fy nghyflwyno. 'Hon yw'r nawfed gyfrol yng Nghyfres y Cymoedd,' meddai, 'a chyfres dda a chynhwysfawr yw hi hefyd, er 'mod i'n dweud hynny fy hun. Naw o gyfrolau i gyd, a thua deg neu ddwsin o gyfranwyr i bob cyfrol – dyna ichi'n agos i gant o gyfranwyr i gyd. Ond Huw Walters yw'r unig gyfranwr i'r gyfres gyfan a gafodd yr wyneb i ofyn am slip *erratum*!' Chwerthin mawr gan bawb wrth gwrs, ond ni allwn lai na themlo bod elfen gref o gerydd personol i mi yn ei gyflwyniad, a hwnnw'n gystwyad cyhoeddus at hynny. Fel y gŵyr pawb, yr oedd gan Hywel ddawn gyhoeddus

ddiamheuol, ac roedd ei hiwmor a'i sylwadau bachog, difyfywr wrth fynd heibio yn ddjarhebol. Gallai ddal sylw cynulleidfa am awr neu ddwy, neu ragor, a hynny heb yr un nodyn o'i flaen. Yr oedd yn berfformiwr heb ei ail, er y câi drafferth ar rai adegau i'w ddisgyblu ei hun a dwyn ei sylwadau i ben yn drefnus. Daeth i'r Llyfrgell Genedlaethol yn ystod haf 2007 i draethu yng nghyfres cyflwyniadau awr ginio'r DRWM, yr awditiwrwm newydd a agorwyd yn 2004. Tri chwarter awr yn unig a ganiatêir i bawb o'r siaradwyr yn y cyflwyniadau hyn, a bu'n rhaid i minnau – wrth ei gyflwyno i'r gynulleidfa fawr a ddaeth ynghyd – ei rybuddio i gadw at yr amser a ganiatêid iddo. 'Os na fyddwch wedi gorffen erbyn pum munud i ddau, fe fydd y goleuadau yma yn araf bylu ac yn diffodd,' meddwn. 'Ac os na fyddwch wedi gorffen erbyn dau o'r gloch, fe fydd holl glychau tân y Llyfrgell yn diasbedain drwy'r adeilad, a bydd raid i bawb ymadael ar unwaith'. Edrychais arno a gweld ei lygaid yn melltennu, a threuliodd bum munud cynta'r ddarlith honno yn fy nghystwyo a'm diarhebu am fod mor rhyfygus â gosod terfynau ar ei athrylith. 'Pleserau Darlennydd' oedd ei destun y prynhawn hwnnw, a thraethodd yn ddifyr a huawdl am y cymeriadau od ac echreiddig hynny o blith staff a darllenwyr y Llyfrgell y daeth i gyswllt â hwy dros gyfnod o hanner canrif. Yr oedd yn dechrau twymo at ei destun pan sylwodd ar y golau yn araf bylu, a bu'n rhaid iddo ddirwyn ei sylwadau i ben pan sylwedolodd ymhellach eu bod ar fin diffodd yn gyfan gwbl bum munud yn ddiweddarach.

Bu'n annerch aelodau o Gylch Cinio Aberystwyth ychydig wythnosau yn ddiweddarach, a hynny ar 'Dame Wales', un o brif gymeriadau cartwnau Staniforth yn y *Western Mail* yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Daeth â chopiau llun o nifer o'r cartwnau i'w dangos i bawb, a'r rheini ar bapur maint A4. Fe'u daliodd i fyny o'n blaenau, gan draethu wedyn ar eu harwyddocâd wrth iddo fynd ati gydag afaith i ddadansoddi *psyche* y genedl. Traethodd am awr a hanner, ac wrth imi ddiolch iddo ar ddiwedd y noson, crybwyllais y byddai'r ddarlith honno'n arbennig o addas fel cyflwyniad *powerpoint*, ac wedi caniatáu i *bawb* weld y lluniau ar sgrin fawr o'u blaenau. Wrth gwrs, ni wyddai Hywel beth oedd *powerpoint*, a phan eglurais, gan ganu clodydd y dechnoleg newydd ar yr un pryd, cefais y bregeth arferol ynghylch y *machines* diawl! Ond ar 21 Tachwedd y llynedd, fe'i gwahoddwyd i draddodi'r un ddarlith ar 'Dame Wales' i aelodau o Gymdeithas Cyfeillion y Llyfrgell Genedlaethol. Rhaid mai hon oedd un o'i ddarlithiau cyhoeddus olaf, a daeth â chyfaill o Langennech yn gydymaith iddo – yn bennaf i sicrhau bod y *machines* yn gweithio'n iawn – a chafwyd cyflwyniad *powerpoint* cwbl arbennig ganddo yn dangos 'Dame Wales' yn ei gogoniant – a'r *cyfan* yn weladwy i bawb o'r gynulleidfa.

Sefydlodd gymdeithas lenyddol lwyddiannus – Cymdeithas y Llan a'r Bryn – yn Llangennech, ac ef a

drefnai'r rhaglen a sicrhau siaradwyr cymwys. Ef hefyd a drefnai'r trip blynyddol, a ddaeth yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i garwyr llên a barddas Llangennech a'r cylch. Cofiaf iddynt ddod i'r Llyfrgell Genedlaethol un haf, a gofynnwyd imi baratoi arddangosfa arbennig o lenyddiaeth leol ar eu cyfer, gan adael i Hywel ei hun draethu'n ddifyr am feirdd a llenorion Llanelli a'r cylch.

Yr oedd, fel y gŵyr pawb, yn ei elfen o flaen cynulleidfau, a bu galw mawr arno gan gymdeithasau o bob math – yn gymdeithasau hanes lleol a chymdeithasau llenyddol – ledled Cymru gyfan dros gyfnod maith o flynyddoedd. Roedd yn ffefryn mawr gan gymdeithasau hanes cymoedd Morgannwg, yn enwedig ym Merthyr Tudful ac yn Aberdâr, lle daeth i adnabod Dr Fred Holley a Les Davies. Teithiai i'r gogledd hefyd, i Glynog Fawr ac i Wrecsam, i Ddinbych a Chaernarfon a Llangefni, a hynny'n aml yng nghwmni ei gyfaill mawr Meirion Evans. Tegwyn Jones a soniodd wrthyf rywdro iddo ffonio Hywel yn ei gartref yn Llangennech un noson a Rona, ei wraig, yn ateb: "Dyw Hywel ddim 'ma, Tegwyn. Mae e' ma's yn achub y genedl yn rhywle heno eto'. Ni allai wrthod gwahoddiad i ddarlithio o gwbl, er i hynny gostio'n ddrud iddo o ran ei iechyd. Ond yr oedd yn ŵr a chanddo genhadaeth, ac roedd addysgu'r genedl am ei gorfennol yn rhan annatod o'r genhadaeth honno.

Rhyw berthynas cas a chariad oedd rhwng Hywel a'r 'Bwthyn ar y Bryn', fel yr arferai gyfeirio at y Llyfrgell Genedlaethol bob amser. Yr oedd ei gasineb tuag at gyfrifiaduron, catalogau electronig, a'r we fyd-eang yn ddihareb ymhlith pawb o staff y Llyfrgell, ac ni allai neb ohonom ei argyhoeddi o'i styfnigrwydd na'i ffolineb – er bod Rona wedi hen arfer â chyfrifiaduron, y we ac e-bost ers blynyddoedd lawer. Ond, credaf mai ei anallu i deipio oedd wrth wraidd ei wrthwynebiad i'r cyfan, ac yntau wedi gallu manteisio ar Rona, Myfi ei chwaer, a Gaynor Miles, ei ysgrifenyddes yn Adran y Gymraeg yn Abertawe, i deipio'i erthyglau a'i lyfrau dros y blynyddoedd. Perthynai Hywel i oes yr arth a'r blaidd pan ddeuai at faterion technolegol, ac efallai i rai o ddarllenwyr *Barddas* ei weld yn malu cyfrifiadur yn deilchion ar raglen deledu boblogaidd ychydig fisoedd cyn ei farw ym mis Ionawr eleni. Yr oedd wedi magu delwedd arbennig fel cymeriad cwbl anoddefgar ei agwedd tuag at y dechnoleg newydd, a'r unig ffordd y gallai gynnal y ddelwedd honno oedd drwy fynd i eithafion. Ond yn dawel bach, gwn ei fod wedi ei gyfareddu gan y dulliau diweddaraf o chwilio am wybodaeth drwy *Google Books*, y we a chronfeydd gwybodaeth fel y *Times Digital Archive*, a *Nineteenth Century British Newspapers On-line*. Ond ni allai fyth gydnabod hynny, wrth gwrs.

Yr oeddwn wedi sylwi bod ei agwedd tuag at gyfrifiaduron wedi lliniaru ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr wyf eisoes wedi crybwyll y *Times Digital Archive*. Esboniais wrtho un bore fod holl rifynnau *Times* Llundain a gyhoeddwyd rhwng 1785 a 1985 wedi eu digido, a bod modd chwilio cynnwys pob un rhifyn ar lein. Eisteddodd yn f'ymyl wrth inni ein dau fynd ati i chwilio'r *Times* am ddwy ganrif. Gofynnais iddo ddewis un enw neu air fel 'allweddair' i'r *machine* ei chwilio. Y gair a ddewisodd, wrth gwrs, heb iddo orfod meddwl o gwbl, oedd 'Eisteddfod', ac fe'i syfrdanwyd gan y canlyniadau. Yr oedd yno gyfanswm o 2,697 o gyfeiriadau at yr 'Eisteddfod' a gyhoeddwyd yn y papur rhwng mis Medi 1822 a mis Tachwedd 1985: 66 o hysbysebion; 132 o erthyglau golygyddol; 1839 o erthyglau cyffredinol; 15 o erthyglau busnes; 698 o erthyglau

nodwedd; 185 o erthyglau am bobl a 32 o luniau. Fe'i syfrdanwyd, a chofiaf mai ei ymateb oedd 'Yffarn, tr'eni nad oedd y *machine* 'ma ar gael pan oe'n i'n paratoi *Gŵyl Gwalia* 'slawer dydd'. Trefnais i argraffu nifer sylweddol o'r erthyglau hyn ar ei gyfer pan ddathlodd pen ei flwydd tua thair blynedd yn ôl. Awgrymais fod digon o ddeunydd yno iddo lunio cyfrol gorffol yn dwyn y teitl *An Anthology of English Hatred*, ac iddi ragymadrodd a nodiadau helaeth. Byddai honno wedi gwneud cyfrol ddiddorol iawn.

Tua'r un cyfnod y penderfynodd Tegwyn a minnau olygu cyfrol o ysgrifau i'w chyflwyno i Hywel, a hynny fel arwydd o werthfawrogiad nifer o'i gyfeillion i'w gyfraniad aruthrol i ddiwylliant Cymru'r ugeinfed ganrif. Gwahoddwyd pymtheg o'i gyfeillion i gyfrannu ysgrifau i'r gwaith, ac fe lwyddwyd i gadw'r cyfan yn gyfrinach hyd o fewn ychydig wythnosau i'w gyhoeddi. Gwyddai Tegwyn a minnau nad oedd Hywel yn hoff o gyfrolau 'teyrnged' o gwbl. Byddai'n gofyn imi o bryd i'w gilydd 'Beth sy' gen ti ar waith ar hyn o bryd, Huw bach?' A minnau'n gorfod ateb, efallai, 'mod i'n paratoi llyfryddiaeth o weithiau cyhoeddedig rhyw lenor, neu hanesydd neu ysgolhaig, a hynny ar gais rhywun neu'i gilydd a fyddai wrthi'n golygu cyfrol deyrnged. Ar un fyddai ei ymateb bob tro. 'Hy, cyfrol deyrnged arall nad y'n nhw'n werth dim y dyddie hyn am fod pob rhyw ddiawl yn eu cael nhw. Rhyw salme molawdus, cyfogyd, a phawb yn seboni'i gilydd'.

Gyda pheth petruster, felly, y torrais y newyddion iddo drwy'r ffôn un noson fod y gyfrol ar fin ymddangos. Ymatebodd yn raslon iawn. Yn wir, yr oedd tinc dieithr yn ei lais, a synhwyrais ei fod wedi ei gyffwrdd i'r byw. Ond pan welais ef yn y Llyfrgell ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, rhoes fynegiant cwbl ddiflwyn-ar-dafod, ei bod yn gas ganddo deitl y gyfrol, sef *Cawr i'w Genedl* – ymadrodd a godwyd o gerdd gyfarch y Prifardd T. James Jones a gyhoeddwyd yn y gwaith. Beth bynnag, cynhaliwyd noson i ddathlu cyhoeddi'r gyfrol yng Ngwesty'r Plu yn Aberaeron ym mis Mawrth 2008, pan ddaeth rhai cannoedd o gyfeillion Hywel ynghyd i'w anrhydeddu. Yr oedd yn noson i'w chofio, a gwrthrych y dathlu wrth ei fodd. A'r un fyddai'r cyfarchiad bob tro pan ddeuai ar y ffôn dros y misoedd dilynol – 'Shwd wyt ti, Huw bach? Cawr sy' 'ma!'

Soniais eisoes mai perthynas cas a chariad oedd rhyngddo a'r Llyfrgell. Gallai daranu ynghylch y *machines* a'r catalogau electronig o bryd i'w gilydd, mae'n wir, ond roedd yn werthfawrogol iawn o'r gwasanaeth a gafodd gan bawb o aelodau'r staff dros gyfnod maith o flynyddoedd. Bu'n gyfaill mawr i'r Llyfrgell, ac yn wir, ef oedd y cyntaf i ganu'i chlodydd ar raglenni newyddion y radio a'r teledu pan ddathlodd ei chanmlwyddiant dro'n ôl. Y mae'n chwith iawn hebdo yn y 'Bwthyn ar y Bryn' y dyddiau hyn. **B**



# Awdl gan Richard Llwyd Jones ...

Cerdd gadeiriol Eisteddfod y Ffôr  
dan feirniadaeth Twm Morys

## Yr Arwr

O'r Wyl fe ddaeth yr alwad,  
yn rhy glaf roedd arwr gwlad.  
Yr oedd rhew ym mhriidd y rhod,  
aflwydd yng ngrawn y daflod.  
I'r gwâr ni chaed i arwain  
y gŵr coeth â'r geiriau cain.  
Nid oedd pencerdd y gerdd gaeth  
ym Meirion – trwm o hiraeth.

\* \* \*

Fel storm law deuai'r awen,  
yno'n llif adfywia'n llên,  
a chreu i'n hiaith drwy saith sill  
ein poen a'n llwydd mewn pennill.

Amynedd fu'r hwsmonaeth, yn chwynnu  
a chynnal syniadaeth;  
aredig gweledigaeth  
i greu'r cnwd lifai'n ffrwd ffraeth.

Llafur sy'n troi sillafau yn gampwaith  
o gwmpas syniadau;  
ond mae mwy i grefft, y mae  
yno'n nawn y genynnau.

I'n haf yn Aberafan daeth â graen,  
daeth â'i grefft yn gyfan;  
daeth â maeth o'r hadau mân  
yn awdl a lanwai ydlan.

Iasoer oedd colli Esyllt  
i rewi'r byw, llacio'r byllt,  
a gŵr i'w golled yn gaeth  
dan alar trefn dynoliaeth.  
Mab y tranc yw siom bob tro,  
a daw'r gwewyr drwy'r gwywo  
i dewi'r llais. Amdo yw'r lle,  
maes oer yw'r Miserere.  
Er y boen yn nagrau'r bedd  
ynganai ei gynghanedd  
am haul uwchlaw'r ymholi  
i weld tes ei golud hi.  
Hir yw'r nych drwy oriau'r nos,  
y wawr sy'n mynnu aros.



Richard  
Llwyd Jones  
gyda chadair  
Eisteddfod y Ffôr.

Ei lôn yw ffrwyth ymlyniad  
oesol hil wrth gwysi'i wlad;  
cwys iaith a gwerth y perthyn  
i ruthr bro o'r traeth i'r bryn.  
Yn ei bill yr un ei barch  
wrth gofio neu wrth gyfarch –  
y tynnwr coes, taniwr co'  
hyd leiniau'r ardal honno.  
Yn oriau'r gwyll creai'r gŵr  
olau perlau'n y parlwr.

Maes llafur 'tir dolurus',  
a chae yd ar ôl y chwys.  
Rhodd ei gân sy'n rhwydd o gaeth  
yn anwylo'r ddynoliaeth.

Â'i lais yn ennill ei le  
ei alw gadd i'r Cilie.  
I'r criwiau'n eu hwyliu'n hel,  
Alun oedd eu Gamaliel.  
O droi'r sgwrs o'r filltir sgwâr  
ar asgell, aent ar wasgar  
o'u bro hen rhwng môr a bryn,  
wastad ddi'r byd yn destun.

Draw acw drwy bob drycin  
erwau'r fferm ddiffiniau'r ffin.  
Yn ei gwm roedd nef ar gael,  
ei ofid, gollwng gafael.

Un yw'r bardd â gwewyr byd,  
ei eiriau'n hafau hefyd.  
O'i iet gweld golud natur,  
rhith yw'r cae o'r wyrth a'r cur;  
daw gobaiith iaith y nythod,  
drwy'r clwyf y clywn nodau'r clod.  
Er y brath sy'n oeri bro  
geni oen yw'r gwanwyno.

Ynddo bu'r ddawn i arddu barddoniaeth  
a throi trwy brofiad ddaear treftadaeth;  
Gweld arwyddion ac addasu'r hwsmonaeth  
a hau yn y tir awen anturiaeth.  
Rhannodd â ni haelioni'r olyniaeth  
mewn neges eglur goruwch doethuriaeth.  
O gynhaef hynafiaeth – caf innau  
yn nhir ei eiriau destun arwriaeth.

# Beth Sydd i'w Ddweud?

Gwynfor ab Ifor

## *Cawodydd Ebrill*

Pan fydd mis Ebrill a'i gawodydd pèr  
Yn trochi Mawrth sychedig hyd y mèr,  
A'r haul afradus yn ymffrostio i nerth  
Trwy wasgar ei sofrenni dan bob perth;  
Mae meddwl pobl, wel, fy meddwl i,  
Yn troi at godi pac, mynd efo'r lli,  
A chyrchu cwmni rhychwyr o'r un bryd;  
Hoff bererinion ffawd, fforddion byd.

Roedd criw ohonom, ddyddiau maith yn ôl,  
Yn cwrdd mewn cwm pellennig lle'r oedd dól  
O laswellt tonnog yn dolennu at ryw lyn;  
A chwrw Gwlad yr Haf dan ewyn gwyn.  
Pwy oeddem ni? Beth ddaeth â ni ynghyd  
Yn y fath gornel bell o stŵr y byd?  
Mî ddweda'i wrthyh os ca'i wagio 'mhen  
O'r pentametrau hyn, a'u hodlau pren ...

Am wythnos gron, dair gwaith y flwyddyn,  
deuem ynghyd, yn benaethiaid a rheolwyr  
colegau a phrifysgolion aml wlad, a'n bryd  
ar ennill gradd uwch mewn Rheolaeth, i  
agor dorau newydd inni a hyrwyddo dysg.

Wrth hamddena dros ein gwylau gyda'r  
nos, er mwyn difyrru'r oriau a dod i 'nabod  
pawb yn well, adroddodd pob un ohonom  
ei stori, gan olrhain hynt ei yrfa yn y byd.

Roedd yno grwtyn o brifathro, fawr mwy  
na bachgen braf, yn bennaeth ar goleg bychan  
yn y wlad. Siaradau'n ddwys ac yn eglwysig  
ond bradychai ei lygaid ddiereidi nad oedd ond  
weithiau'n brigo yn ei sgwrs. Yn bymtheg oed  
ymadawodd â'r ysgol i godi arfau mewn siop  
weldio fawr yn nociau Tyne. Ac ar ei ddiwrnod  
cyntaf yn ei waith beth wnaeth ei gydweithwyr  
rhadlon ond ei sodro, neu ei weldio yn hytrach,  
mewn cwpwrdd haearn deuddrws, tywyll, du. A  
llwytho'r cwpwrdd wedyn ar hen lori fawr a'i  
gludo i stryd siopa fwya'r dref, a'i adael yno ...  
Hawdd y gallem ei weld, yn llipryn swil o fachgen  
ac arno ofn tynnu sylw ato'i hun, ac eto'n ceisio  
galw siopwyr Newcastle upon Tyne yn ei lais  
dwfn, arafus: "Erh! Hulloh! Can anybody hear?"

Gwahanol iawn oedd cefndir Ian, pennaeth  
cynorthwyol mewn coleg yn yr un rhan o  
Lundain ag y cafodd Llywelyn ap Gruffudd  
ei drin mor siabi ar ei ymweliad ef â'r ddinas.  
'Wnes i ddim edliw hynny iddo wrth gwrs, ond  
roedd yn ddiddorol deall nad oedd moesau'r  
ardal wedi gwella dim mewn 700 mlynedd.  
Mae barrau haearn yn amgylchynu'r coleg, a  
swyddogion diogelwch yn chwilio paciau'r

holl fyfyrwyr wrth y porth. Nid chwilio am  
gyffuriau maen nhw chwaith (rhwydd hynt  
i'r rhieni) ond am gyllyll a gynnu. Felly  
maen nhw'n byw yn y rhan yna o'r wlad.

Mor wahanol oedd magwraeth freintiedig Ian ei  
hun. Mewn ysgol fonedd y torrodd ei ddannedd a  
defod foreol yno, meddai, oedd gosod y disgyblion  
yn rhesi noethlymun a phob un yn ei dro yn  
gorfod gorwedd dros ei ben mewn llond baddon  
o ddŵr rhewlyd, cyn mynd i lawr i frecwast. Yr  
unig ffordd o amharu ar y ddefod feunyddiol  
hon oedd eich suddo eich hun o'r golwg dan y  
dŵr a dal eich gwynt, gan ddiode'r oerni tra  
oedd mwy a mwy o blant yn dod i mewn nes y  
byddai'r lle yn anhrefn lwyr. Rhaid wedyn oedd  
galw athro i weld beth oedd yn achosi'r fath dagfa  
a hel y plant a oedd yn weddill i lawr i gael eu  
brechwast â'u gwallt yn sych. Dywedodd hefyd fel  
y byddai'r bechgyn yn paru gyda'i gilydd gyda'r  
nos i swatio a chael cwmni yn eu gwla'u, mor bell  
o gyrraedd eu cartref a chynhesrwydd teulu.

Ar sail ei addysg 'freintiedig' a'r patrwm ar ei  
dei, aeth Ian yn syth o Gaergrawnt yn bennaeth  
rhyw gyfadran lychlyd, lonydd yn Whitehall, fel  
yr oedd yn weddus i feibion braint. Cyfaddefai  
nad oedd ganddo'r syniad lleiaf beth yr oedd  
i fod i'w wneud yno, felly treuliodd ei ddydd  
a'i nos yn meddwi'n afreolus. Daeth y bennod  
honno i ben pan ddaeth y glanhawyr i mewn am  
6.00 o'r gloch ryw fore a'i ganfod yn chwyrnu  
cysgu y tu allan i'w swyddfa yn magu potel  
wisgi wag. Chwarddai yn hunan-labyddiol  
wrth ddweud mai ei gosb am hynny oedd cael  
ei wneud yn gyfrifol am liffts. Un lifft oedd yn  
yr holl adeilad a hwnnw'n cael ei archwilio'n  
drylwyr gan y gwneuthurwr unwaith bob tair  
blynedd. Wedi dioddef segurddod erydus y swydd  
honno am rai wythnosau, ar gyflog pennaeth  
cyfadran, cyflwynodd ei ymddiswyddiad gan  
feddwl y gallai lewyrchu'n well ym myd addysg.

Ambell ddiwrnod, ddi Ian i'n darlithoedd yn  
gwisgo cilt, er mwyn dangos ei fonedd mae'n  
debyg, ond nid dyna'r unig beth oedd yn golwg  
ac roedd yn rhaid i bawb ohonom gymryd arnom  
nad oeddem yn gweld ei fôls wrth iddo groesi  
ei goesau ar y llwyfan. Roedd yn gwybod yn  
iawn beth roedd o'n ei wneud ac yn credu ei bod  
yn ddyletswydd arno i ymddwyn yn wahanol  
i bawb arall. A ninnau eisiau bwyta'n cinio.

Adroddodd wrthym fel yr oedd yn mynnu  
bod ei wraig yn dod â'i chyflenwad o bils atal-  
cenhedlu ato bob nos iddo gael eu cyfrif, i brofi



nad oedd yn ei dwyllo er mwyn cael babi. Fel y gellwch ddychmygu, roedd y merched ar y cwrs, ffeministiaid pybyr bob un i'w mêr, yn sgrechian eu hanghredinedd erbyn hyn. 'Doedd gan Ian ddim amgyffred pam, gan ei bod yn hysbys i bawb erioed mai twyllwyr oedd merched a bod eu bryd ar rwydo dynion trwy gael babis. Roedd rhai o ferched y cwrs yn ei gasáu â chas dudew.

Roeddwn i efo fo unwaith pan ganodd ei ffôn. Ei brifathrawes oedd yno yn holi am adroddiad ariannol oedd i fod i fynd gerbron y llywodraethwyr ymhen llai nag awr. Sicrhawyd hi gan Ian fod yr adroddiad ar ei ddesg ... O! Os felly, tybed a oedd ar ben y cwpwrdd ffeilio? Hm, dyna ryfedd, beth am yn y drôr o dan y botel wisgi? Wrth i lais y brifathrawes feinhau o wich i wich awgrymodd yntau'n hael y dylai edrych efallai yn y fasedg sbwriel, rhag ofn fod y gwynt wedi chwythu'r papur yno. Roedd yn gwbl amlwg nad oedd wedi ysgrifennu'r adroddiad o gwbl a gofynnais iddo sut y gallai yrru ei bennaeth i ffureta ar ei phedwar yn y bin a hithau efo digon ar ei phlât. "It keeps her occupied," ebe yntau.

Gallai Ian raffu straeon fel hyn amdano'i hun drwy'r nos pe câi'r cyfle, ond gan amlaf roedd yn gorfod ildio pan oedd sgrechiadau'r merched a'u hedrychiadau o gasineb yn mynd yn annioddefol a diodydd yn dechrau cael eu taflu i'w wyneb.

Ond stori Beattie oedd yr orau; Barbara Windsor o ddynas wedi ei geni o fewn clyw i glychau Bow. Roedd ei stori hi yn amhosib o wir, ac ni allem ond gwrando'n geg-agored wrth iddi ei datod o'n blaen.

Roedd hi adre'n smwddio un noson gyda Vera'i chwaer, a'r ddwy yn trafod hwn-a-hwn a oedd wedi cael ei ddal efo dynas arall. Wedi

hen wyntyllu'r stori honno a'i throi tu chwithig allan a thu ôl ymlaen, dyma ddweud rhywbeth na ddylai meidrol yn byth mo'i ddweud yng ngŵydd y duwiau. Ac wrth iddi ei ddweud teimlai ar unwaith yr awyr yn mynd yn oer, a'r tŷ a'r dodrefn yn diflannu o'i chwmpas, gan adael dim ar ôl ond hi a'i chwaer a'r bwrdd smwddio, a'r haearn poeth yn llithro'n ôl a 'mlaen, 'nôl a 'mlaen, a'i geiriau ffôl yn crogi yn y gwynt. "O leiaf does 'na'm straeon fel'na am fy ngŵr i."

Cymaint y newidiwyd y byd yr eiliad honno fel mai ffurfioldeb yn unig oedd ychwanegu'r frawddeg nesaf: "Os nad wyt ti'n gwbod rhywbeth 'dwi ddim yn ei wbod?"

Synnodd at y fenom yn llais ei chwaer pan ddwedodd honno fod y peth yn mynd ymlaen ers Nadolig tair blynedd yn ôl ... a Beattie'n gwneud ei syms ... tair blynedd, 'doedd dim modd y gallai hynny fod yn wir; roedd y teulu i gyd yn tŷ ni y Nadolig hwnnw, Tom a phawb.

Daliodd i smwddio-smwddio yn ddi-baid, gan wybod pe bai'n stopio y byddai'r stori'n dod i ben. Wrth i un dilledyn gael ei blygu ar ôl y llall, yn raddol iawn y gwawriodd ar Beattie mai'r hyn yr oedd ei chwaer yn ei ddweud oedd mai HI, Vera, oedd wedi bod yn cysgu efo Tom y tair blynedd diwethaf. Roedd un ochr o ymennydd Beattie yn ymrafael efo'r llall – un eisiau plannu'r haearn smwddio ym mhen ei chwaer a'r llall eisiau clywed sut, pa bryd, yn lle... a'r twmpath dillad yn dal i dyfu'n daclus ar y fainc. A ninnau'n glustiau i gyd!

"Cyn i gwestiwn yr haearn smwddio gael ei ddatrys yn derfynol," meddai, "dyma'r ffôn yn canu."

Yr ysbyty oedd yno yn dweud bod ei gŵr wedi bod mewn damwain ddifrifol a'i fod mewn cyflwr peryglus, a allai hi ddod ar unwaith. Ac i ffwrdd â hi a'i chwaer.

Ni chofiai Beattie'r daith i'r ysbyty na mynd i mewn i'r lle; dim ond y ddwy ohonynt yn eistedd yno efo'u mam. Ni allai Beattie feddwl am ddim ond ewylllysio i'w chwaer fynd allan iddi gael dweud y cyfan wrth ei mam. O'r diwedd digwyddodd hynny, a chafodd ei mam iddi hi ei hun am funud bach. "Mam," meddai, "chredwch chi byth beth mae Vera newydd ei ddweud wrtha'i".

Cyn iddi ddweud gair arall, "Be' ti'n ei ddisgwyl?" poerodd ei mam. Hynny a dim mwy. Roedd hithau hefyd yn gwybod y cyfan. Nid y byd oedd y byd bellach a 'doedd dim oedd yn wir yn wir ...

Fi dorrodd ar y distawrwydd: "Wnaeth Tom fyw?"

"Do, y basdad!"

'Dwi'n credu eu bod nhw'n dal i fod efo'i gilydd. **B**

# Ar y Ffin

Grahame Davies

## Pererindodau Llenyddol

Ysfa oesol yw pererindota. Hyd yn oed pan fu Geoffrey Chaucer yn ysgrifennu Chwedlau Caergaint yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, cydnabu mai hen reddf oedd honno a yrrai bobl i chwilio am leoedd pellennig, fel y gwelir yng nghyfeithiad Cymraeg Bryan Martin Davies o'r Prolog i'r Chwedlau:

Bryd hyn hen hiraeth ddaw i fynd ar deithiau,  
A phererinion i ddieithr draethau heidiant,  
I gysegrleoedd pell yn ddiwyd teithiant.

Yn wir, am ganrifoedd cyn amser Chaucer, bu'n arfer drwy wledydd Cred i bobl gyrchu cysegrleoedd y Ffydd Gristnogol, gan chwilio am gysylltiad agosach gyda'r dwyfol, am faddeuant i'w pechodau, neu am unrhyw fantais ysbrydol neu faterol a oedd ar gael i'r sawl a adawodd ddiogelwch eu plwyfi i chwilio am ddwyfoldeb pell.

Mewn llyfr a gyhoeddwyd ym 1912, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, y bûm yn ei ddarllen yn y Llyfrgell Brydeinig yn ddiweddar fel rhan o fy ymchwil i Gymru ac Islam, dengys Griffith Hartwell Jones (1859-1944) fel y bu'r Brythoniaid, ym mlynedd oedd cynnar y Ffydd Gristnogol, yn frwd o blaid ymgymryd â'r daith beryglus i Balesteina i ymweld â'i manau sanctaidd. Mae Jones yn dyfynnu Sant Sierôm ar y pwnc hwn, mewn llythyr o'r flwyddyn 386, lle dywed, ac yntau'n dyfynnu Eclog cyntaf Fyrsil: 'Nid cynt ag y mae'r Brython, 'a wahanwyd rhag ein byd', yn gwneud cynnydd mewn crefydd ag y gadawa'r machlud gan gyrchu man na w'yr amdano heblaw drwy'r Ysgrythur a thrwy lafar gwlad'.

Wrth gwrs, bu trai ar frwdaniaeth y Cymry dros bererindota crefyddol ers y dyddiau cynnar hynny. Ond nid oes rhaid bod yn berson crefyddol er mwyn ymdeimlo â'r reddf i fod yn nes at wrthrych edmygedd, angerdd neu serch drwy ymweld â lleoedd sy'n gysylltiedig â'r gwrthrych hwnnw. Ym myd chwaraeon, sonnir am gefnogwyr yn mynd ar 'bererindod' i ryw stadiwm enwog neu'i gilydd; ym myd gwleidyddiaeth, wedyn, bu Llyn Celyn, Cilmeri, Mynydd Epynt a manau eraill yn gyrchfannau i genedlaetholwyr; ym myd cerddoriaeth, eir i Matthew Street, Gracelands, Salzburg neu Bayreuth yn ôl y chwaeth.

Cofiaf, yn gynnar yn y 90au, roi lifft i gwplw canol oed a oedd yn bodio wrth ymyl ffordd

yr A470 ym Mannau Brycheiniog. Pobl o'r Weriniaeth Siec oeddent, yn ymweld â'r Gorllewin am y tro cyntaf ers i'r Llen Haearn rwygo. Prin fod ganddynt geiniog i'w henwau, a buont yn byw ar fisgedi ac yn gweryslla mewn parciau gan na fedrent fforddio llety. A'u cyrchfan, wedi degawdau o ormes a chaethiwed? Lerpwl, a hynny oherwydd y Beatles, yr oedd eu cerddoriaeth wedi eu hysbrydoli drwy'r blynyddoedd tywyll. Â therfysgoedd Toxteth yn fyw yn fy nghof, pryderwn am y ddau ddiniwed yma wrth feddwl amdany'n nhw yn gorfod codi eu pabell fregus mewn parc cyhoeddus mewn dinas a oedd, ar y pryd, yn ddrwgenwog am ei thlodi a'i thorcyfraith. Mentrâis awgrymu iddyn nhw mai dinas ddigon tlawd oedd Lerpwl. Brwydrodd y dyn i ddod o hyd i'r geiriau Saesneg priodol am eiliad cyn ateb gyda gwên fach dawel: 'Then we will be at home there.' Ni allaf ond gobeithio i'w hymweliad â Glannau Merswy dalu ar ei ganfed iddynt a chyfiawnhau'r fath ymroddiad.

Dyna bererinion llenyddol wedyn. Fel y dengys llyfr O. M. Edwards, *Cartrefi Cymru* (1896), ceir traddodiad anrhydeddus o werthfawrogi a pharchu lleoliadau llenyddol yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill.

Credaf imi fynd ar fy mhererindod lenyddol gyntaf pan oeddwn yn 17 oed. A minnau wedi ffoli ar nofel Emily Brontë, *Wuthering Heights*, gyrrais draw i Swydd Efrog ar fy meic modur i ymweld â'r persondy yn Haworth lle y maged y nythaid ryfeddol honno o lenorion, ac i chwilio hefyd am leoliad gwreiddiol y tŷ a roddodd ei enw i'r llyfr. Prawf o rym hynod y nofel dywyll honno yw'r ffaith, wrth imi ddynesu at adfail unig Top Withens ar Haworth Moor, imi fy nghael fy hun yn meddwl tybed a fyddwn yn cwrdd yno ag ysbrydion Heathcliff a Catherine Earnshaw, y sonnir amdanynt yn niweddglor gwaith fel eneidiau aflonydd yn crwydro drwy'r gweundiroedd gwyntog. Rhaid oedd imi fy atgoffa fy hun mai ffrwyth y dychymyg oedden nhw!

Cofiaf, serch hynny, fod ychydig yn siomedig â'r amgueddfa yn y persondy ei hun. Credwn ar y pryd nad oedd digon o naws y gorffennol yn y casau gwydr a oedd yn llawn o drugareddu'r teulu talentog, trallodus hwn. Yn rhyfedd iawn, ddwy flynedd yn ôl, pan euthum yno drachefn, fe gefais y lle y tro hwnnw'n llawn ystyr ac awrygylch, er nad oedd y tŷ ei hun i'w weld wedi newid rhyw lawer yn yr wyth mlynedd ar hugain a aeth heibio oddi ar fy ymweliad



cyntaf. Yr ymwelydd ei hun a oedd wedi newid, wrth gwrs. Nid oedd gan y llencyn ardegaidd mo'r adnoddau meddyliol na'r profiad chwaith i werthfawrogi'n iawn unigrywedd a naws y lleoliad. Enillir rhai pethau gydag amser; collir eraill. Nid yw'r dyn canol oed yn ofni cwrdd ag ysbrydion cymeriadau dychmygol mwyach.

Cefais y cyfle sawl tro yn ddiweddar i ymweld, neu, fel yn achos Haworth, i ail-ymweld, â lleoliadau sy'n gysylltiedig ag awduron yr ymserchais yn eu gwaith pan oeddwn yn ifanc. Soniais mewn colofnau blaenorol am ymweld â thŷ ac â bedd Robert Frost yn Vermont, am ail-ymweld â thŷ Edgar Allan Poe yn Efrog Newydd wedi ymgais aflwyddiannus yn y gorffennol. Fe fŷm yn ddigon ffodus, fis Hydref diwethaf, i ymweld â chartref yr athrylithgar, feudwyaidd Emily Dickinson (1830-1886) yn Amherst, Massachussets – yn ffodus i weld y tŷ a'r gerddi, hynny yw, ond yn anffodus o ran yr amseru, wedi imi yrru am oriau ar draws tair talaith dim ond i ganfod fod y tŷ ei hun ar gau, gan i biben ddŵr dorri ynddo y noson cyn imi gyrraedd, a chreu llanastr. Bodlonais, felly, ar gerdded drwy'r gerddi aeddfed a syllu i fyny ar ffenestri'r tŷ pren hardd na fu Emily allan dros garreg ei ddrws, bron iawn, am ddegawdau. Mewn byd o symudolrwydd aflonydd, buddiol oedd gweld fel y tyfodd gweledigaeth ddofn a chyfriniol Emily o fewn cwmpas un cartref. Neuadd fawr rhwng cyfyng furiau yn wir. Buasai Waldo, sef, efallai, yr unig fardd Cymraeg y gellir sôn amdano ar yr un anadl â Dickinson o ran ei safon a'i weledigaeth (er na fu'n agos mor gynhyrchiol â hi, wrth gwrs), wedi

deall ei dewis, ac wedi deall hefyd, mae'n debyg, rywfaint ar ei phrofiad mewnol hynod. Gallasai'r Americanes hon fod wedi dysgu rhywbeth i'r Cymry am ymberthyn. Efallai mai meudwyaeth yw'r ffurf fwyaf didwyll ar frogarwch.

Mae rhywbeth ynglŷn â bod mewn gwlad bell sydd yn canolbwyntio'r meddwl, gan eich gwneud yn benderfynol o wasgu pob defnyn o ystyr allan o'r profiad, dan bwysau'r ymwybyddiaeth mai hwn, efallai, fydd eich unig gyfle i weld y lle dan sylw. O ran pethau sy'n nes atom, ar riniog ein drws, tueddir i gymryd y rhain yn ganiataol. Bydd amser i ymgymryd â'r daith rywdro yn y dyfodol; bydd diwrnod arall i'w gael bob amser.

Wedyn fe ddaw'r diwrnod sobreiddiol pan sylweddoloch na ddaw'r amser hwnnw byth, oni bai ichi wneud ymdrech ymwybodol. Felly, dyna a wneuthum yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, gan fanteisio ar rai teithiau diweddar yn Lloegr i gyflawni nifer o ymweliadau hir-ohiriedig â rhai o gysegrleodd llenyddiaeth y wlad honno.

Soniais mewn ysgrif flaenorol am fy ymgais aflwyddiannus i ganfod, yn Nwyrain Anglia rai blynyddoedd yn ôl, fan gorffwys Edward Fitzgerald (1809-1883), y dyn a gyfieithodd *Rubaiyat* Omar Khayyâm o'r Berseg i'r Saesneg. O'r diwedd, yn ystod yr haf diwethaf, fe lwyddais i gyrraedd bedd y bardd-gyfieithydd mawr ym mynwent eglwys Boulge Park, ym mherffeddwlad swydd Suffolk, sef yr ardal lle y treuliodd yr awdur hanner canrif olaf ei oes.

Diwrnod euraid o Awst ydoedd, wrth imi barcio gerbron yr eglwys, a saif mewn caeau diarffordd; nid oedd sŵn yn unman heblaw brain yn yr ynn a mwmial y gwenyn. Yn y glaswellt dwfn wrth ochr yr eglwys ceir daearegell y teulu Fitzgerald, yn glamp o feddrod Gothig, gyda'r geiriau 'Lord Receive My Spirit' uwchben y drws. Mae'r giât haearn rydlyd yn lled-agored, ac mae mwsogl yn drwch ar y grisiau cerrig sy'n arwain i lawr at y drws.

Gorwedd bedd Fitzgerald ei hun, dan groes gerfiedig, wrth ochr y ddaearegell, fel pe bai i symboleiddio pellter rhyngddo ef a gweddill ei deulu. Roedd Fitzgerald yn gyfarwydd â bod yn ddyn yr ymylon. Bu ei rywioldeb yn gymhlethdod parhaol yn ei fywyd, ac yntau'n ddyn hoyw ar adeg o ragfarn a chyfrinachedd parthed cariad rhwng dynion. Amhosibl yw credu nad protest yn erbyn y rhagfarn honno yw ei feddargraff yma yn Boulge Park: 'It is he that made us and not we ourselves'. 'Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain', dyfyniad

o'r Ganfed Salm, sydd fel pe bai wedi ei llunio i atgoffa'r darlennydd mai rhywbeth a grewyd ac a fendithiwyd gan Dduw yw cariad o bob math.

Beth bynnag oedd y gwrthdaro mewnlol a deimlai'r bardd, y mae ei fan gorffwys yn sicr yn un hynod o dangnefeddus. Crwydra gloynnod byw rhwng y glaswellt ac uwch y carped dwfn o feillion a fioledau. Uwchben y bedd fe blyg coeden rosod, a'i changhennau yn gwyrto drosodd fel pe bai'n ceisio cyffwrdd yn dyner â'r garreg fedd. Dyma'r goeden y darllenaswn amdani yn un ar bymtheg oed yn llyfr John Griffith Williams, *Omar* (1981), a roddodd hanes Fitzgerald, yn ogystal â hanes Syr John Morris-Jones, a gyfieithodd y *Rubaiyat* o'r Berseg i'r Gymraeg. Dywed John Griffith Williams i hadau'r goeden hon ddod o'r goeden rosod a dyf uwch bedd Khayyâm ei hun yn Nishapûr ym Mhersia, a bod plac ar y goeden sy'n cadarnhau hynny. Wrth ddarllen y geiriau hynny ers talwm, yr oeddwn wedi dychmygu rhyw bren praff yn glawio petalau rhosod fel conffeti ar y bedd. Ond un dila ddigon yw'r goeden mewn gwirionedd, ac nid oedd yn ei blodau ychwaith.

Serch hynny, roedd y rhosyn yn un o brif symbolau barddoniaeth Khayyâm, yn ddelwedd o brydferthwch bregus, felly mae'r ffaith fod y goeden yma o gwbl yn gyffyrddiad barddonol ynddo'i hun. Yn y pridd wrth wraidd y goeden hon, chwiliaf am rywbeth i'w godi er mwyn cofio am y fan; gan nad oes yma unrhyw flodau syrthiedig, na phetalau gwywedig, na hadau sychion hyd yn oed, llwyddaf i ganfod un ddraenen. Nid symbol syml o harddwch bregus, na, ond atgof, efallai, fel y mae persawr a pherygl yn tyfu o'r un gwraidd.

Wrth godi, sylwaf ar arysgrif bedd cyfagos: man gorffwys gŵr a fu farw ym 1995. Mae ei geraint wedi dewis dyfyniad o gyfieithiad Fitzgerald o waith Khayyâm: 'The loveliest and the best'. Wedi treigl y blynyddoedd, deil geiriau'r bardd i ysbrydoli.

Gwireddwyd uchelgais degawdau gan yr ymweliad â Boulge Park. Profiad tebyg oedd ymweld â chartref y bardd John Keats (1795-1821) yn Hampstead yn Llundain yn ystod yr un daith drwy Loegr yr haf hwnnw.

Ni allaf ond awgrymu i unrhyw un sydd yn ymhyfrydu yng ngwaith Keats i ymweld â'r tŷ hwn. Wedi'r cyfan, yma y cyfansoddwyd y rhan fwyaf o'r cerddi y seilir enw'r bardd arnynt, gan gynnwys y cerddi hwyr a'r gerdd naratif hir, 'The Eve of St Agnes', fy ffefryn personol ymhlith ei holl weithiau. Saif y tŷ ym mhentref Hampstead, nid nepell o waun Hampstead, ac mewn gerddi digon helaeth ichi fedru anghofio bod y ddinas gerllaw. Fe'i hadferwyd yn drylwyr, ac mae'n edrych fel yr oedd ym 1818, pan oedd newydd ei adeiladu, a phan symudodd Keats i fyw yn un hanner yr adeilad gyda'i gyfaill Charles Armitage Brown. Yn fuan y flwyddyn ganlynol, symudodd Fanny Brawne, hithau'n 18 oed, i fyw yn yr hanner arall gyda'i mam

weddw, ei brawd a'i chwaer iau. Yn fuan iawn fe ddaeth Fanny a John yn gariadon, er i'w perthynas gael ei sbarduno'n fwy gan agosrwydd eu preswylfeydd yn hytrach na chydnewsedd eu personoliaethau a'u diddordebau, fe ymddengys. Bid a fo am hynny, arweiniodd yr agosrwydd hyn at garwriaeth angerddol, drwsogl a diniwed a ddaeth i ben yn ddisymwth ym 1820 pan fu'n rhaid i Keats deithio i'r Eidal er mwyn ceisio atal y ddarfeddigaeth a oedd yn ei lethu, taith na ddaeth yn ôl ohoni. Darlunnir hanes y garwriaeth yn effeithiol yn y ffilm ddiweddar, *Bright Star*, gyda Ben Whishaw yn chwarae rhan y bardd.

Fel y gwyddys, bu farw Keats ym 1821 yn 25 oed yn Rhufain mewn tŷ wrth ymyl y Grisiau Sbaenaidd, sydd bellach yn un o brif gyrchfannau twristaidd y ddinas. Bùm yno ddwywaith, tra oeddwn yn ymweld â'r ddinas, er mwyn talu teyrnged i fardd a fu'n arwr fy ardegau, a bardd y mae fy edmygedd ohono wedi tyfu'n fwy hyd yn oed drwy gydol y blynyddoedd. Y Cyngor Prydeinig, ar y cyd ag ymddiriedolaeth o lôn-garwyr, sy'n cadw'r adeilad, sy'n gartref i lyfrgell werthfawr o weithiau'r Rhamantwyr, llyfrgell – meddai'r staff wrthyf – y mae'n rhaid i'r ceidwaid fod yn fythol wylidwyr ohoni oherwydd dwylo blewog rhai o'r ymwelwyr. Cedwir yr ystafell lle bu farw Keats fel cysegr, er nad oes hyd yn oed y darn lleiaf o'r dodrefn gwreiddiol yma – llosgwyd y cwbl ar orchymyn awdurdodau'r ddinas yn syth wedi marwolaeth y bardd, er mwyn rhwystro'r haint rhag lledaenu. Ail-gynrychiadau yn arddull y cyfnod yw'r celfi sydd yno nawr. Ond drwy'r ffenestr fechan yr un yw'r olygfa o'r awyr uwchben y Ddinas Dragwyddol, lle cyfarfu'r bardd â thragwyddoldeb.

Mae *Bright Star* yn darlunio'r ffordd y bu amgylchiadau ariannol bregus y bardd yn ei rwystro rhag gadael am Yr Eidal yn ddigon cynnar i fod o fudd i'w iechyd. Dangosir ei ffrindiau yn casglu arian ar gyfer y daith, er i'r cymorth ddod yn rhy hwyr i achub ei fywyd. Pe bai ganddo, yn y cyfnod allweddol hwnnw, ryw gyfran fechan yn unig o'r enwogrwydd a ddaeth i'w ran ychydig flynyddoedd ar ôl hynny, byddai ganddo ddigonedd o gefnogwyr ariannog a fyddai'n barod i fynd i'w pocedi i'w helpu. Tynged bardd, yn aml iawn, yw byw mewn oes wahanol i'w gyfeillion. Nid rhyfedd bod anobaith yn y beddagraff a ddewisodd Keats iddo ef ei hun, ac a welir ar ei garreg fedd yn y fynwent Brotestannaidd yn Rhufain: 'Here lies one whose name was writ in water'.

Ni welais y bedd hwnnw erioed. Bydd yn rhaid i'r bererindod honno aros ar gyfer rhyw ymweliad arall os byth y caf y cyfle. Ond fe lwyddais yr haf diwethaf i ganfod bedd un arall o'r Rhamantwyr mawr, sef William Blake (1757-1827), y bardd radical o gyfrinydd, a lwyddodd, yng nghanol niwlogrwydd ei gynnyrch toreithiog, unigolyddol a phur dywyll, i roi i'r diwylliant Saesneg ddyrnaid o'i gerddi disgleiriaf a chroywaf.

Cofiaf, ganol yr Wythdegau ym Merthyr

Tudful, i gerdd Blake, 'Jerusalem', gael ei chanu fel emyn, i osodiad godidog Hubert Parry, yn angladd yr hen Gomiwnydd ffyddlon o Gymro Cymraeg, Arthur Jones. Esboniodd llywydd y cynhebrwng y dylid, yn yr achos hwn, ac yn unol â gwladgarwch yr hen Arthur, briodoli'r cyfeiriadau at 'England' at Gymru. 'For England, see Wales' fu hi yr achos hwnnw, am unwaith.

Yn hen fynwent Bunhill Fields yn nwyrain Llundain y ceir bedd Blake. Mae'r enw Bunhill Fields yn llygriad o'r enw gwreiddiol 'Bonehill', sef y gair di-lol Eingl-Sacsonaidd am fynwent. Yno, fe orwedd esgyrn Blake a'i wraig Catherine. Maent mewn cwmni llenyddol da: o fewn hanner canllath ceir beddrodau Daniel Defoe a John Bunyan hefyd, a beddrod Bunyan dan gerflun llawn-maint ohono ef ei hun, yn gorwedd ar wastad ei gefn, a'i wallt caregog wedi'i daenu ar glustog galed, a'i lygaid wedi'u troi am byth at y nefoedd uwchben y cymylau llwyd dros ddinas Llundain. Cafodd Defoe a Bunyan fwy na'u siâr o amlygrwydd yn ystod eu bywydau. Yn wahanol i'r ddau hyn, ni chafodd Blake fawr o lwyddiant gyda'i waith llenyddol nac artistig yn ystod ei oes. Bu'n crafu byw – yn llythrennol – fel ysgythrwr ac argraffydd. Ond bellach, ef sy'n cael yr ymwelwyr. Cefais ddeunaw ohonynt yn cynnal picnic yno ar yr adeg pan ymwelais i â'r fynwent, gan imi, drwy gyd-ddigwyddiad llwyr, fynd yno ar ddyddiad marwolaeth Blake, sef Awst 12, ac ar yr union adeg pan oedd edmygwyr y bardd yn cynnal digwyddiad coffa iddo. Felly wrth imi eistedd ar fainc gyfagos i ysgrifennu fy nodiadau am yr ymweliad, cefais gyfle i wyllo'u defod goffadwriaethol.

Eisteddent mewn cylch o dan y goeden agosaf, mewn corlan a neilltuwyd ar eu cyfer gyda rhaff yn nodi union leoliad y gorlan. Menywod oedd y rhan fwyaf ohonynt, a chwe dyn yn eu plith. Daliai'r rhan fwyaf ohonynt lyfrau o ryw fath neu'i gilydd, a daliai llawer gwpanau plastig o win. Roedd dyn gyda gwallt gwyn, crys digoler, a chlymau yn ei farf, yn tywallt siampaen i'r criw; yn ei law arall daliai bentwr o bapurau mewn llawysgrifen. Yng nghanol y cylch fe daenwyd carped gyda phetalau blodau wedi eu gwasgaru drosto, bwydydd picnic mewn bagiau Sainsbury, kannwyll yn llosgi mewn costrel ar siâp blodyn lotws, ac un arall yn llosgi mewn ceg potel a oedd wedi'i haddurno gyda phluen a blodau'r penigan barfog, sef, wrth gwrs, yn Saesneg, 'Sweet William'.

Roedd yn griw hwyliog. Ymlwybrodd un o ofalwyr y fynwent heibio, gan chwysu chwartaiau wrth wthio berfa a oedd yn llawn o offer garddio. 'Don't chop the buddleia down!' gwaeddodd un o'r merched canol oed arno yn harti, o'i heisteddfan ar y carped. Addawodd beidio. Wrth ochr y ddynes honno, eisteddai dynes ifanc ddel, mewn ffrog arian, ac wrth ei hymyl, bentwr taclus, uchel o lyfrau nodiadau Moleskine du. Bob hyn a hyn, fe gurai ddrwm llaw, gan dincial cloch fach am yn ail.

Yng nghanol y cylch, safai dynes mewn sgert laes flodeuog a chyda rhubanau amryliw yn ei

gwallt, gan gynnwyl defod symbolaidd yn deyrnged i 'the energy of womankind'. Diweddodd drwy daeru: 'I know that William knows what I am talking about'. Ameniodd merch arall yn frwd: 'William does! William does!', cyn i'r dyn gyda gwallt gwyn gamu i'r cylch, gan adrodd cerdd o'i waith ef ei hun i gymeradwyaeth y cwmni.

Ie, criw digon brith, wrth gwrs; ond, wedi'r cyfan, nid hanner mor frith â'r hen William ei hun. Ac ni fedr dyn ddim llai nag edmygu asbri'r cyfeillion hyn, yn troi beddrod yn bicnic, ac yn gwledda ymysg y beddi. Ni ellir llai nag edmygu eu hewyllys da ychwaith, yn dod yma i anrhydeddu, mewn ffordd mor seremonïol, ddyd a fu farw bron i ddwy ganrif ynghynt. Efallai bod cyfeillgarwch y criw hwn yn cael ei fynegi bron ddau gan mlynedd yn rhy hwyr, ond, yn nhermau'r tragwyddoldeb a oedd mor fyw i'r cyfrinydd hynod hwn, nid yw hynny'n ddim. Rhaid cofio mai go brin y byddai prudd-der yn briodol wrth fedd un a fu farw, yn llythrennol, dan ganu, ac a atebodd ei briod pan holodd ef am y caneuon newydd hyn, drwy ddweud: 'My beloved, they are not mine; no, they are not mine'.

Mae cariad, yn wir, yn gallu dileu pob math o arwahanrwydd, a goresgyn pob math o bellter, a dyna'r rheswm pam, mae'n rhaid, fod hiraeth yn dod 'i fynd ar deithiau', a phererinion yn heidio 'i ddieithr draethau' ymhob oes. **B**

## Llythyr

Annwyl Olygydd,

Gofynnwyd i mi gan ffrind a fuasai'n bosibl i mi holi *Barddas* am ei daid, T. Oswald Phillips, sef bardd a gyhoeddodd nifer o gerddi yn y 1920au mewn cyfnodolion a phapurau fel *Y Brython*, *Y Tyst*, *Y Genedl*, *Western Mail* a'r *South Wales Echo*. Mae llyfr lloffion o'r cerddi hyn bellach yn nwylo fy ffrind. Roedd T. Oswald Phillips yn gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd ar y pryd, ond yn anffodus, ni lwyddodd y teulu i arddel y Gymraeg.

Buaswn yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth gan ddarllenwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

*Owain Rhys*

[owain.rhys@amgueddfacymru.ac.uk](mailto:owain.rhys@amgueddfacymru.ac.uk)

# Colofn y beirdd sy'n celu

## yng ngofal Andrea Parry

Yn y rhifyn diwethaf o *Barddas*, bu i mi gynnwys pigion o Dalwrn chweched dosbarth ysgolion a fynyhodd y cwrs iaith yng Nglan-llyn ym mis Tachwedd y llynedd. Trefnwyd y cwrs gan yr Urdd a Phrifysgol Bangor ac addewais y byddai mwy o'r cynnyrch yn ymddangos eto. Felly heb fwy o ragymadroddi gwag, eisteddwch yn ôl a mwynhewch arlwy ein disgyblion uwch ac uwch gyfrannol Cymraeg.

## Tasg: Telyneg

### Cloch

Mae'r cnul yn canu'i alar  
Hyd strydoedd gwlyb y dref;  
Mae clwyf i'w sgrech aflafar,  
Mae angau yn ei lef,  
A phawb yn rhewi, fesul un,  
Yn oerfel iasol bore Llun.

Mae'r gŵr sy'n gweithio'n ddyfal  
Ar ben y boncyn draw  
Yn clywed gwŷr yn sisial  
Am sŵn y gloch islaw.  
Mae'n edrych drosodd, wysg ei gefn,  
Cyn dychwel at ei waith drachefn.

Mae'r gwaed yn cronni'n dawel  
Yn goch ar lesni'r graig,  
A golchir baw y chwarel  
Yn lân gan ddagrau'i wraig.  
Bydd sŵn y seiren yn y co'  
Yn atsain rhwng llechweddau'r fro.

### *Ysgol y Berwyn*

Bu unwaith gloch yn canu  
A'i chên yn fawr ei stŵr  
Yn rhybudd rhag y tonnau  
A brathiad oer y dŵr;  
A gwylwr a fu yno  
Ac yntau'n chwim ei drem,  
A'i lygaid hyd y glannau  
Yn gweld pob awel lem.

Ond tawel nawr yw'r nodau  
A'r gloch fu'n seinio'n glir  
A gipiwyd gan wylanod  
I'w chyrchu'n bell o'r tir.

A mwy ni chlywn ei rhybudd  
O waelod llaith y lli  
Na 'nabod gwae yr alaw  
Sydd i'w mudandod hi.

### *Ysgol Bro Myrddin*

Mae'r gloch yn canu heddiw,  
Bydd bedydd yn y Llan:  
Plentyn bach yn dechrau'r daith,  
Yn y man.

Mae'r gloch yn canu heddiw,  
Bydd priodas yn y Llan:  
Conffeti ar yr awel  
Ymhob man.

Mae'r gloch yn canu heddiw,  
Bydd angladd yn y man,  
A'r daith – bydd hithau'n darfod  
Yn y llan.

### *Ysgol Caereinion*

## El-Bandito

Dieiriau yw'r dorf a segur yw'r sgwâr,  
Bonllefau sydd bellach yn ddagrau;  
Gwan yw'r golau – ynghudd mae'r ddraig,  
Ein calon sy'n curo'n ddyrnodau.

Canu ein cur mae cnul y llan  
A stido mae'r glaw yn greulon,  
Blin yw natur – fel dyddiau gynt,  
Tregodd eto ein tywysog tirion.

Canu a wnaeth cloch dy 'rownd' olaf di  
A'th fawredd a lanwodd ein c'lonnau,  
A chyfrwyd yn araf y tri, dau ac un,  
Ond erys dy dalent a'th ddoniau.

### *Ysgol Glan Clwyd*

**Tasg: Parodi ar unrhyw gerdd adnabyddus**





Tîm Ysgol y  
Berwyn, y tîm  
buddugol

## 'Darllen y Map yn lawn'

Cerwch i brynu Tom Tom newydd sbon  
A newidiwch y llais i fenyw fach lon.

Gwasgwch y botwm i weld pob dafad  
A gwrandewch yn astud ar y fenyw yn siarad.

Bydd y fenyw yn eich tywys o Bowys i Benllyn  
Tra bydd mam yn y cefn yn darllen *Dirgel Ddyn*.

"Mam, pam mae hi'n glawio cymaint yng Nghymru?"  
"Am fod y Saeson yn p... ar ein pennau ni, 'ngwas i."

Wrth yrru heibio i 'Heather View'  
Lle'r oedd Cymry Cymraeg yn arfer byw

Cofir y newyddion neithiwr am Feibion Glyndŵr  
Yn ailgynnau tân am wlad sy'n parchu'r hen ŵr.

Strydoedd a strydoedd o dai'r Saeson,  
Sgyrsiau a sgyrsiau llawn acenion estron.

Cyrhaeddwn i ben pellaf y fraich  
Diwedd ein taith. Diwedd ein hanes. Diwedd ein hiaith.

Oes angen technoleg i wneud siwrne lawn?  
Neu 'mond gwneud y dewis cywir a darllen y map yn iawn?

*Di-enw!*

## 'Etifeddiaeth' (Ein Bwji)

Cawsom fwjis i'w cadw,  
Peli o blu yn dyst  
Eu bod wedi mynnu byw.

Cawsant gawell o genhedlaeth  
I genhedlaeth,  
A chanu'n glir drwy  
Eu pigau main.

A chawsom wy, er na cheisiam ef,  
Oherwydd y naws oedd rhyngddynt eisoes,  
A'r cariad anniddig yn eu calonnau.

Trodd yr wy yn gyw bach glân  
A llanwodd y 'stafell â llonger ei gân  
Ar ben ei swing,  
Trodd ein bwji i barabl  
Estron heb ystyr i'w anterth,  
Gwastraff geiriau heb ddal  
Tro'r trai.

A throdd at iaith ein hoesau,  
Yr iaith nas siaradwn ni.

Ystyriwch: a allwn greu dihareb  
I gyfleu'r gwirioni hyn?  
Balchach yw bwjis balch ein cenedl  
O'r iaith nas haeddwn ni.

*Ysgol Bro Myrddin*

## Hydref ('Gwanwyn', Dic Jones)

Tyrd, awel Erin, at rawd alarus  
I ddofi'r adwyth mewn bro ddifrodus.  
Hen ergyd filain yw'r gawod felys  
Heno'n dylifo ar dir dolefus.  
Mewn cynhaeaf anafus, – dynoliaeth  
Esysd ei hiraeth ar gwysi dyrys.

### *Ysgol y Berwyn*

Pwy, tybed, oedd pencampwyr y Talwrn? Tybed  
a ddatgelwyd hynny i chi gan y cerddi?!

Wel, maen nhw'n agor ac yn cloi'r golofn yma, ie, Ysgol  
y Berwyn, Y Bala. Llongyfarchiadau gwresog iawn i chi,  
feirdd y Berwyn. Fel y gwelwch, mae llun ohonyn nhw yn  
derbyn eu tarian ar y dudalen flaenorol, a Gruffudd Antur,  
enillydd y gadair, sydd yn dal y darian. Ymlaen at 2010!

## Eisteddfod Flynyddol Pandy

### Tudur

Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Pandy Tudur  
ar ddydd Llun y Pasg – eisteddfod a all ymfalchïo  
mewn cystadlu brwd, safonol iawn. Mae hi'n un o'n  
heisteddfodau hynaf ac yn cael ei chynnal ers y 1850au,  
ac yn ogystal â hynny, nodweddi arbennig arall yw'r tîm  
ifanc gweithgar sy'n trefnu'r eisteddfod yn flynyddol.  
Cyfartaledd oedran y Pwyllgor eleni oedd tua 24!  
Pluen yn het ein pobl ifanc ddiwylliedig bid siŵr!

Cefais innau'r fraint o feirniadu llefaru, llên a Cherdd  
Dant, ond, yn anffodus, codwyd cyfartaledd oed y  
beirniaid yn syth!! Roedd y cynnyrch llenyddol yn  
werth ei weld a dyma roi golau dydd i gerdd arbennig  
a ddaeth i'r brig yn yr adran lenyddol dan 25.

Merch ifanc, un ar bymtheg oed, yw Grug Muse. Mae  
hi'n byw yng Ngharmel ac yn ddisgybl Blwyddyn 11  
yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Enillodd Gadair yr Ifanc yn  
Eisteddfod Llanllyfni eleni ac ar ôl gweld y gerdd delynegol  
hyfryd hon, rwy'n ffyddiog y gwelwn ei henw ar y sîn

farddonol yn gyson yn y dyfodol. Diolch am gael  
cynnwys dy gerdd, Grug, a llongyfarchiadau!

## Hedfan

Pe medrwn hedfan  
Trwy ddannedd y storm  
Fe hedwn,  
A'r gwynt yn goflaid oer  
Tros fôr tymhestlog,  
Tros donnau drycinog.  
Teimlo'r heli'n llosgi  
A'r ewyn yn tasgu,  
A blas rhyddid ar yr halen.


Fe hedwn tros fynydd gwyn,  
Tros rew ar lyn,  
Trwy luwch,  
I uchelfannau'r byd, ac uwch  
I fod yn ddall mewn byd o blu  
Ac anadlu rhyddid, i fyny fry.

Fe hedwn drwy'r taranau  
A myned i'r manau  
Lle nad oes hualau,  
Cadwyni, rheolau.

Fe ehedwn i trwy ddannedd y storm  
A dinoethi fy enaid, heb fod ofn.

### *Grug Muse*

Os oes gennych chi gerddi i'r  
golofn, gellir eu hanfon at:

Andrea Parry, Glandŵr, Heol Tegid,  
Y Bala, Gwynedd. LL23 7EN  
neu e-bostio: [andrea@mountaingirl.fsnet.co.uk](mailto:andrea@mountaingirl.fsnet.co.uk) 

# Rhuddin Amser

Donald Evans

## *Y Tyddynnwr*

Teyrnged i John Roderick Rees  
(Rhagfyr 2009)

Un oedd â mawndir Pen-Uwch  
A'i giliau â'r, gaea'i luwch,  
Ac â'i haf yn ogyfuch.

Un oedd â hanfod tyddyn,  
A rhawd tyddynnwr wedyn –  
Ef oedd yr hendrefu hyn.

Ac yn un ag ef hefyd  
Y tyddynnwr, gwŷr gweryd,  
Fel yntau hwythau o hyd.

Oer ofid, bellach, rywfodd,  
Ef a'i lin a ddiplannodd  
O weithio'r maes, gwaetha'r modd.

Er hyn deil holl fryniau da  
Eu cyff yn feini coffa  
I ddoe gwirfodd eu gyrfa.

Pen-Uwch – yr hen gopa noeth –  
Un o'r rhain, yn fain ddi-foeth  
Ond gwiw hefyd o gyfoeth.

Bethania'r gaea' a'r gwynt  
A thario heth ar ei hynt,  
Daear cariad a'r cerrynt.

Cnewyllyn y tai unnos  
Yw'r bywyd ar hyd y rhos –  
Y mae'r meirw am aros.

Y tir goror – tra gerwin –  
Iach ei ffordd, gwytnwch y ffin,  
Mae o graidd magu rhuddin.

Trem y gwir y trum gorest,  
Diwair ei bridd ydyw'r brest –  
Cynnil y caeau onest.

Brwd yw llif y byrdw' llawn,  
Cyfair o gnydio cyfiawn –  
Ym min ei rug mae 'narawn.

A'r gribell o darddellau,  
Esgor o fru'r esgair frau –  
Eneiniad y ffynhonnau.

\*\*\*



Ganwyd y tyddyn o'r tŷ unnos,  
O'r adfeilion oerion i aros  
Y daeth i'r ffridd yn ddi-ddos, – ac wedyn  
O hyd i nythu'n wydn ei ethos.

Llonydd ei ddeunydd y tyddynnwr –  
Y dyn difostian a difwstwr,  
Ond o ddur fel llafurwr – y cyrion  
Gyda'i galon mor dirion â dŵr.

Yn nydd ei obaith cyrchai'n ddibaid  
Ar hyd y gwndwn rawd ei gyndaid,  
O wely'r â'r dal o raid – i ddwyn maeth  
A theisi'i luniaeth â sêl enaid.

Heulwen neu dymestl yn ei dymor  
Yn driw ei gariad ar y goror,  
Yn ôl ei stamp casglai'i stôr – gymedrol  
O gaeau'i waddol ag egwyddor.

Yma y pennwyd stamp ei einioes  
O ddydd i ddydd gan feysydd ei foes;  
Yn ei waed roedd rhythm hen oes – ar drafael  
O hyd yn gafael â dawn gyfoes.

Ac yr oedd yn un â'i gymuned  
Gan mai o'i hil gynnil y'i ganed,  
Etifeddodd o'i nodded – yn y craidd  
Ei addurn gwylaidd a'i rin galed.

Yn ddeddf a chynneddf yn ychwaneg  
Ei grofft a'i leindir oedd grefft landeg,  
A'i wair a'i yd ar eu hadeg – wedyn  
Bob gronyn o lun fel telyneg.

Ond roedd y gweundir o wedd gyndyn  
Ac yn bur eiddil ddygn ei briddyn  
I roi'n gywair ei weiryng – ac ildio  
Ei ydau iddo at ei dyddyn.

Am hynny nid rhwydd ambell flwyddyn  
I gario wastad o'i hen grystyn,  
Drwy ei oes ca'dd fwyd er hyn – ohono  
Hyd nes iddo heneiddio'n wddyn.

Roedd byd y cynnal yn realaeth  
Galed o agos, galwedigaeth,  
Ond yn un gyda'i lluniaeth – yn gyfan  
Yr oedd ei haniau yn farddoniaeth.

\* \* \*

Ei dwr o greaduriaid – a garai'n  
Un gyr o anwyliaid,  
Fel 'taent yn berchen enaid,  
I gyd â'r ysbryd o raid.

Hir gariad at ddiadell – a feddai  
O fodd yn ddigymell  
Â'i dremyn ar y drumell  
Nid ei budd fel cnawd o bell.

Yna carai'r aneirod – yn weddus  
A'r un modd y buchod  
Yn ddiomedd ddiamod,  
Nid am y bunt, am eu bod.

A'i geffylau goleuwedd – yn ddi-hap  
Oedd ei holl orhoffedd,  
Mor gadarn hyd garn eu gwedd –  
Eilunod o ffrwythlonedd.

'Run fath â chŵn, a chathod – hyd yn oed,  
Ei nawdd yn anorfod  
Fel ateb i'r neb di-nod,  
Y neb a oedd i'w 'nabod.

A hwy'r gwylltffilod odiaeth – o agos  
A edmygai'n helaeth,  
A'r adar ffromgar a ffraeth  
Yn byw'n eu hannibyniaeth.

Yr holl griw, o'u rhan ddiwyd – un oeddent  
Â thyddyn ei fywyd;  
Un teulu'n gyfun i gyd,  
A chyfun ei barch hefyd.

\* \* \*

A hwy'r gwragedd rhyfeddol  
Yn heidio gwaith lond y gôl,  
Yn dal eu tir hyd led dydd –  
Dyfalwch dihefelydd.



**John Roderick  
Rees**

Fore a hwyr yn y fro  
Yn ddiwydrwydd o odro,  
A bu gofalu am faeth  
I'w lloi ac i'r ŵyn llywaeth.

Crasu bara'n gyfanwaith  
A'r grefft gyfuriog ar waith,  
A holl elfen pob benyw  
Mewn pobiad ar bobiad byw.

Gyrfa waith gywir a fu  
I'w llethod ym mhob llaethdy –  
Oriau mynych creu 'menyn  
A'r rhengau o gawsiau gwyn.

Un yr osgo ar esgair  
Yr hafau o gaeau gwair –  
Rhacanu, mydylu'r dydd  
A'i gywain yn dragywydd.

A'r un a fu'r llafurio  
Ar hyd yr yd yn ei dro  
Er mwyn ei ddwyn yn ddi-au  
I adlunio'r ydlannau.

Y we ddyfal a ddaliai  
Â grym y gymuned grai

Ynghyd, ei llwyrfyd a'i lles,  
Cynnal y gwytnwch cynnes.

\* \* \*

A hwy'r glawogydd fu ar glogau  
I'w troi ddiwallu fel tarddellau  
Hyd nes i leufer y dyfnderau  
Wanu ohonynt yn ffynhonnau.

Fel o sawl chwistrell eu cymhellion  
Yn loyw o hyd o'r gwaelodion  
I dir a godai a'u hergydion  
Fel pyls disyfyd bywyd o'r bôn.

Fel y gwragedd cyndyn eu hunain  
Yn ir yn yr hesg tirionai'r rhain  
Yn ôl eu harfer y cil hirfain  
Ac yna dal i'w gynnal yn gain.

Taenai egnïon y ffynhonnau  
Ymysg ach y brwynach a'r bryniau  
I'w huno yno â'u llinynnau  
A hybu wedyn eu bywydau.

O'r waun yr hanent, 'run yr anian:  
Yn fawn a gofer, llif yn gyfan  
O'r rhedyn yr oent yn ffrydio'n rhan  
O hoen ac adfyd bywyd y ban.

Tan i fyd o ffrwst ddod i'w clwstwr  
Yng nghors y mawn o gawn digynnwr'  
Â'i newidiadau hyd erwau'r dŵr,  
A hyd hedd einioes y tyddynnwr.

Daeth i'w fro dawel, ac i'r rhelyw  
O'r doniau hygred o unigryw  
I gyd â'i wastraff gyda'i ystryw  
I ddifa ei oes a'i ffordd o fyw.

\* \* \*

Carodd yn ddifeth y pethau – a oedd  
O ruddin a golau –  
Y sylwedd yn y seiliau.

Coledd parch at dywarchen – y braenar,  
Byw ar rin ei elfen –  
Y ddaear oedd ei awen.

Carodd wrych frig gwyrdd erioed – a'i warchod  
Yn orchwyl o'i lasoed –  
O wirfodd fe garodd goed.

Ar hyd gwaun ffrwd o gynnwr' – a garodd,  
Un â'i geirw'n swcwr  
A'r grisial dyfal i'w dŵr.

Ne' oediog uwchben wedyn – â'i herwau'n  
Dymherus o laswyn,  
A'i grym haul yn gâr melyn.

Yna'r glaw ar y gleien – yn heintus  
Gyda'i wynt fel dolen –  
Bendithion irion y nen.

A charodd y trwch eira – a ddeuai  
Dros ddaear Bethania -  
Diolch am flanced aea'.


Roedd gweld pob cae'n deffro'n glaeaf – yn wyrth  
O hoe'r garthen lachar –  
Roedd hoe i fod i'r ddaear.

Ailfwstro o'i phridd yn ddiddan – yn awr  
Ei churiad ei hunan –  
Roedd hynny 'nghraidd ei hanian.

Yn ei urddas roedd cerdded – goleuddydd  
Mynydd ei gymuned  
Yn un â chwrs y blaned. **B**

## Stori Hedd Wyn/The Story of Hedd Wyn

Alan Llwyd



ISBN 978-1-906396-16-9  
£14.00

# Canmoler yn awr ... Detholiad o Gerddi'r Beirdd

Cynhaliwyd noson elusennol-ddiwylliannol arall yn Neuadd Gerdd yr Hipodrom, Caerdydd, ar Chwefror 1 eleni, a'r noson wedi ei threfnu, fel arfer, gan Hywel a Gwyneth Jeffreys.

Y thema y tro hwn oedd:

Cofiw'n ein gwyrda drwy deyrnged a chân  
Wrth dyngu addunedau'r Hen Galan.

Darllenwyd y cerddi a luniwyd yn arbennig ar gyfer y noson gan y Parchedig R. Alun Evans a Rhiannon Evans. Casglwyd yn agos i £2,500 at yr elusen MND, sef Clefyd *Motor Neurone*, trwy gyfrwng yr achlysur.

Dyma ddetholiad o'r cerddi a luniwyd yn arbennig ar gyfer y noson.

## Nifer o Arwyr

### Hywel Teifi Edwards

Hywel, ti oedd ein hawen; – oet w'r dewr;

Oet ar dân; oet dderwen;  
Ein llyw hyd lwybrau ein llên;  
Ein hangor ymhob angen.

## I'm Hathro Hoff

Salm i ddiolch am fywyd T. J. Rhys Jones, a fu farw Mai 24, 1997, yn 80 mlwydd oed. Awdur *Teach Yourself Welsh*; cyfaill a Christian; darlithydd ac athro Ysgol Sul yn Y Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr, Caerdydd.

Ti oet gawr mawr, mwyn,  
Y cadarnaf a'r addfwynaf a fu.  
Ti oedd ein tŵr,  
Ein cefn ymhob cyfyngder,  
Ein cyfaill ymhob cur.

Roedd serenedd a chynghanedd a chân  
Yn llenwi dy fywyd â llawenydd,  
Fel ffynnon yn goferu,  
A ninnau'n cael profi peth o'r blas.  
Ti oedd Platon ein hiaith a'n llên,  
Y dysgedicaf ohonom,  
Yn gwisgo dy ddysg â mawr wyleidd-dra.

Ti oedd ein hathro hoff a'n hysbrydoliaeth,  
Ein pen athronydd a'n diwinydd doeth.

Pan grwydrem ar gyfeiliorn  
Mewn môr o eiriau,  
Ti oedd ein goleudy yn y gwyl  
I'n harwain yn ôl at y Gair.  
Ti oet dad annwyl dy blant;  
Ti oet galon Eilonwy;  
A hebot ti mwyl,  
Gwag yw'r tŷ.

Ciliaist o'n mysg ym mwynder Mai,  
Mor dawel â thes y glennydd.  
Ond pan welaf flodau drain gwynion ar y berth  
Ac arogl persawr y gwyddfïd mewn gardd,  
Gwelaf hefyd dy harddwch di  
Yn ailegino, megis gwanwyn;  
Daw gair a gwên yn ôl i gof,  
A byddi fyw byth ynom ni,  
Yn rhan o hyfrydwch yr haf.

## Er cof am y Parchedig T. J. Davies 1919–2007

Llenor, gweinidog a chyfaill carcharorion a'r rhai caeth i alcohol a chyffuriau eraill.

Hwn oedd ddawnus ddiddanydd – yn rhannu  
Âr enaid aflonydd;  
Ei un ffordd oedd ffordd y ffydd;  
Ei ofal oedd ei grefydd.

## I Rhys Davies

Ar ran disgyblion, staff a rhieni i ddiolch o galon am ei gyfraniad nodedig fel Prifathro Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Sain Ffagan, 1987–Gorffennaf 2008.

Ti, fy Rhys, wyt of yr Iaith, – ar einion  
Yn mireinio'r heniaith;  
A'i hwyliog rannu eilwaith  
I do iau ar ddechrau'r daith.

Rhennaist ein cur â'th dosturi; – dy air  
Oedd yn darian inni;  
A'r wên hoff yn troi i ni  
Yn wanwyn o oleuni.

A nawr, Rhys, mae'n dymor yr Haf, – adeg  
I fedî'r cynhaeaf;  
Ond ar ddôl y llwyth olaf,  
Gwn mai digonedd a gaf.

## Moelwyn Daniel Preece

1920–2001

Ymgyrchydd diflino ar ran y difreintiedig.  
Cofiodd eiriau'r Iesu: 'Deuwch ataf fi bawb sy'n  
flinderog ac yn llwythog ... Cymerwch fy iau  
arnoch ... a chwi a gewch orffwystra i'ch eneidiau.'

Ti oet dderwen ysblennydd – yn gysgod  
I'r di-gwsg mewn stormydd;  
Eu hiau ymhob rhyw dywydd;  
Hafan deg hyd derfyn dydd.

## Niclas Walker 1949–2007

Brodor o Drefansel, Abertawe. Yr oedd yn  
hyddysg mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys  
Almaeneg, Ffinneg, Rwseg, Hwngareg a Thwrceg.  
O 1977 hyd 2007 ef oedd Llyfrgellydd Amgueddfa  
Werin Cymru. Bu farw o'r clefyd *Motor Neuron*.

Ni fu gwell hael lyfrgellydd; – môr o ddysg,  
Môr o ddawn fel ieithydd.  
Ei wên fwyn a'i enw fydd  
Yn annwyl inni beunydd.

*Robin Gwyndaf*

## William Morgan

(1545 – 1604; cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg)

William Morgan,  
Gŵr ydoedd â geiriau  
Ei lond o,  
Rhai a lifai  
O gefnfor mawr o Gymraeg  
I fyny, fel o Gonwy,  
Yn afon i Lanrwst.

A geiriau William Morgan  
A fu, i'w Gymru,  
O'i enau yn llefaru'r Gair,  
Y Gair hwnnw a oedd  
Yn y dechreuad gyda Duw,  
Ac yn yr hwn yr oedd bywyd  
A oedd, hefyd, yn oleuni dynion.

Fel hyn y bu, ac yn awr y mae  
Yn llefaru i ninnau:  
Eithr, erbyn hyn, o dan gloriau  
Tywyll, tywyll ein bywydau.

*Gwyn Thomas*

## Dewi Pws

Sbarc afiaith – troi'n sbri'r cyfan yw dy raid,  
Hogyn drwg y llwyfan;  
Boed jôcs neu giamocs neu gân  
Y diriedi sy'n drydan.

*Rhys Dafis*

## Morien

'Mae Morien Phillips, y diddanwr, yr addysgwr, dyn  
theatr ac aelod o dîm Penrhosgarnedd ar y rhaglen  
Talwrn y Beirdd, wedi marw yn 79 oed.'

*Golwg, 14/08/09*

Cythraul o fis i golli pobl ydi Awst.  
Wrth i genedl y Pethe ddathlu goroesi  
Am flwyddyn arall, mae nene'n digwydd.

'Dyw arwyr llencyndod byth yn mynd yn hen,  
Yn sicr os ydyn nhw'n dod o'r Rhos lle mae'r egni,  
Brwdfrydedd a'r candŵ, yn cynnal  
Hunaniaeth ein cenedl reit ar y ffin.

Felly roedd Morien i mi;  
Hogyn ysgol yn Sir y Fflint oeddwn i  
Ac yntau'n brifathro ysgol gynradd  
Yn ysbrydoli'r plant y ffin gyda gwên ei Gymreictod.

Yng nghanol yr adrodd a'r barddoni, yr eisteddfota  
A'r cystadlu di-ben-draw a oedd yn cynnal ein diwylliant,  
Dôl ambell gyfle i chwarae *chess* –  
Nid gwyddbwyll, dalltwch – gallai'r Gymraeg lyncu  
Geiriau estron heb ddiffyg traul hanner canrif yn ôl.

Y diddanwr, yr actor, yr athro, y dalent siriolaf  
A'r amynedd i eistedd i lawr yng nghefn rhyw lwyfan  
Yng nghanol rihyrsals i chwarae *chess*  
Efo hogyn ysgol o Sir y Fflint.

'Dydi arwyr fel yna byth yn heneiddio;  
Mae'r cyfan wedi ei argraffu ym mhatrwm eu bod.

Ond mae'r gêm yn dod i ben  
Pan fo'r brenin yn syrthio;  
Cythraul o fis i golli pobl ydi Awst

*Euryn Ogwen*

## William Williams, Pantycelyn

Un bore, byth i'w gofio,  
Dan argyhoeddiad llym,  
Â Harris yn cyhoeddi'r  
Efengyl yn ei grym,  
Fe glywaist ti y llais o'r nef  
Yn nharan ei bregethu ef.

Am fod dy Iesu'n ddigon  
A thrysor yn ei wedd –  
Y Rhoddwr, fwy na'i roddion –  
A sŵn ei eiriau'n hedd,  
Aeth iaith y groes yn iaith dy gân,  
A geiriau gras yn dôn ar dân.

Mydryddaist ymadroddion  
Efengyl drwy dy oes  
I roi ar dafod gwerin  
Rinweddau Gŵr y groes,  
Ac o'th seiadau cododd tân  
Drodd dir dy grwydro'n Wlad y Gân.

*Dafydd M. Job*

## I Merêd (a'i ddwy wedd!) ar ei ben-blwydd yn 90

Y mae rhai fel y mae Merêd, o hyd  
yn ei hwyl yn galed,  
yn cario awch llymaf cred;  
dyn na wŷr ddawn dynwarded.

Merêd y creu a'r dadleuon, Merêd  
am ryw hyd yn fodlon;  
ond Merêd y dymer hon

a ddwed ein holl freuddwydion.

Ac yna, Merêd ddaw wedyn i'r bwlch  
pan fo'r byd yn ddychryn  
â'i wên daer, gan gynnal dyn  
yn ei hagrwrch a'i ddeigrin.

Ond mae rhai, a dyna Merêd, â gwên  
lond ei gân uniongred;  
gŵr y croeso agored,  
dyn all weld ein hyd a'n lled.

*Dafydd Pritchard*

## Pwy Yw Hi

*Cofio'r holl fenywod na chofnodwyd  
eu gwaith ar hyd yr oesoedd.*

Gweld, o ran, drwy gil y drws  
a wna'f innau, gweld fenws  
y gegin gefn yn trefnu  
rhyw ran fach o'r hyn a fu'n  
dawl falch.

Mae'n dal i fod  
yno, hi, fel menywod  
pob cegin, â'u cyfrinach  
yn farw fyw, a'r awr fach  
yn mynnu aros dros dro –  
un heddiw na all heneiddio.

Dawn wib pob rhyw adnabod  
yw'r wyrth o arafu'r rhod  
am eiliad; ... ac mi welais  
y llun a chlywed y llais,  
nes dal ana'l yr ennyd  
am oes, dal yr ateb mud  
a hawliodd fy holl holi:  
nid paham, ond pwy yw hi.

*Mererid Hopwood*

## I Osian

*(I Osian Jones adeg ei garchariad yn Altcourse am  
ei ran yn yr ymgyrch dros ddeddf iaith newydd)*

Wel Osh, rwy'ti'n ail Lewsyn yr Haliwr,  
Wrolaf o'r bechgyn,  
Rhoist sioc i'r taeog cytûn,  
Dewraf o fois Penderyn.

Wyt faner goch, wyt feini'r garn, – wyt grôl,  
Wyt dafol mewn tafarn,  
Wyt saeth annibyniaeth barn,  
A huawdl fel llafn haearn.

Osian, ti yw ein lleisiau, – wyt y floedd,  
Wyt fel arf; mae d'eiriau'n



Llosgi wrth i ni fwynhau  
Yn llwfw'r ein bonllafau.

Ti, Osian, ein tywysydd, – wyt flaenaf,  
Wyt fel un ar drywydd,  
Dan glo Lloeger a'i cherydd,  
Heno er hyn yn ddy'n rhydd.

Wyt Osian. Wyt wahanol – i'r eitha  
Drwy'r gwaith chwyldroadol;  
Wyt Osian yn ei chanol  
Â hyder iaith di-droi'n-ôl.

Ar dir mud yr adar mân, – Eryri  
Yr hiraeth sy'n griddfan,  
A dweud, fel lludw am dân:  
'gweld d'eisiau mae'n gwlad, Osian.'

*Hywel Griffiths*

## cân fud\*

(i *Kyffin Williams*, ar ôl gweld 'Nant Ffrancon rhif 1'  
yn yr *Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays*)

Mae mudandod hynod ei gân  
i'w glywed yn glir  
ar gopaon ei gelfyddyd.

Ym mawredd distawrwydd  
ei fynyddoedd, mae llwybrau  
sy'n llefaru'n swil

wrth ein tywys rhwng clogfeini  
dwys gan grygni'r gwynt  
ar fesurau'r glaw didostur.

Bochia'i gymylau'n groch  
dros huodledd ffriddoedd di-lais;  
crisielir odlau mewn ffrydiau cudd –

os clustfeiniwn. Ust! a gwelwch  
rythmau Eryri'n rhudd, clywch glog  
dan drwch o dawedogrwydd

a mudandod hynod ei gân  
yn acenion i gyd  
ar gopaon ei gelfyddyd.

*Christine James*

\*'Cerdd fud yw celfyddyd, a llun sy'n llefaru  
yw cerdd.' – Simonides (556-468 cc)

## Archaeoleg

Mae hi yno dan gramen o dir  
ar y stryd ym Merthyr,  
yn Llanymddyfri:

ond mae angen cloddio,  
ei chodi i'r wyneb,  
nid fel hen grair

ond fel pair y dadeni,  
yn berwi, yn barod  
i fynd i'r frwydyr,

nid yn fud ond yn fudur,  
yn drewi o'r pethe hynny  
a gafodd eu casglu

dros y canrifoedd,  
blerwch a sbwriel y blynyddoedd,  
esgyrn a bwyelli,

byclau a sgidiau a charnau cleddyfau,  
dan gramen o dir, ym mhridd y ddaear:  
yn y baeddu dwylo mae'r fuddugoliaeth.

*Iwan Llwyd*

## Arwr

*Fy nhad, Glöwr a Thyddynnwr; un  
o'r 'gweithwyr cyffredin'*

Ni welodd mono'i hun fel arwr glew.  
Ni dd'wedai air am ambell anhap cas;  
Pesychai ar y slei, ac ni wnaeth shew  
O nodau amgen glöwr – y creithiau glas.  
A gwnaeth yn fach o'r braw pan grynai'r top  
A chlec fel taran yn y dirgel du,  
Gwasgfa y creigiau hen yn hollti'r prop  
A'r angau'n bygwth disgyn oddi fry.  
Hyn am na fynnai ddangos beth oedd pris  
Rhoi toc o fara ar fy mwrdd bob dydd,  
Na'r gost o roi fy nhroed ar gyntaf ris  
Yr ysgol, a chyfle i ddringo'n rhydd.  
A'i raw fel pe bai'n symud dae'r a nef  
I mi gael dianc rhag ei dynged ef.

*Meirion Evans*

# Tyfu'n Gymro: Caerdydd

1913\*

*(Er cof am W. C. Elvet Thomas, athro Cymraeg hynod ddylanwadol a fu'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Cathays rhwng 1929 ac 1969)*

Yn nyddiau eithaf yr ymerodraeth ddifachlud,  
pan reolai Britannia'r tonnau,  
chwaraeai bachgen wythmlwydd  
ger gwerddon Gymraeg ei gartref yn Nhreganna.

Hwylodd menyw ddieithr heibio.  
Oedodd.  
Clustfeiniodd.  
Yna gofynnodd:

'Were you talking Welsh?'

'Yes', atebodd yntau.

'Well, take that!'

Disgynnodd clatsien galed ar draws ei foch.

Aeth hithau'n dalog ar ei thaith  
wedi gwneud ei dyletswydd ymerodrol  
a dysgu gwers i'r anwariad bach  
a feiddiai adael i'w lwgr-iaith lifo  
i strydoedd ei dinas daeog.

'Take that!'  
Llosgai'r geiriau'n hwy o lawer  
nag ôl y bysedd ar ei foch.

'Take that!'  
Dysgai'r geiriau fwy o lawer  
na holl wersi Seisnig Ysgol Kitchener.

'Take that!'  
Atseiniai'r geiriau i lawr y blynyddoedd  
a'i yrru i godi argae o feini bywiol.

A lle bu trai, 'ar Daf yr iaith a dyfodd'.  
Ffynhonnai'n ffel o'i chelfa yn Nhreganna.  
Llifai'n llechwraidd dros y sychdir Saesneg.  
Tonnai'n dafodog o gylch bechgyn Cathays.

Diferai'i ddelfrydau'n ddefodol dros eu talcennau.  
Codai'r hwyliau coch, gwyn, gwyrdd  
a'u gollwng yn llu banerog  
i gychwyn ar eu hymdaith  
ar gefnfor iach y Gymraeg.

*E. Wyn James*

\*Digwyddiad ym mywyd W. C. Elvet Thomas (1905–94), a oedd yn ôl Bobi Jones 'yn un o athrawon Cymraeg mwyaf dylanwadol Cymru'. Ceir yr hanes yn ei hunangofiant, *Tyfu'n Gymro*

(1972), t. 111; gw. hefyd hunangofiant Bobi Jones, *O'r Bedd i'r Crud* (2000), tt. 56–65, a'i gerdd 'Caerdydd'. Ysbrydolodd Elvet Thomas genedlaethau o fechgyn Ysgol Uwchradd Cathays i ddysgu'r iaith ac i garu Cymru a'i diwylliant, ac yn eu plith dri a ddaeth yn ddarlithwyr prifysgol yn y Gymraeg: Bobi Jones, E. G. Millward a Gilbert Ruddock. Âi â'i ddisgyblion ar bererindodau o gwmpas Cymru, gan gludo'r Ddraig Goch i bob un o'r eglwysi cadeiriol yn eu tro yn enw Urdd Gobaith Cymru.

## Menna Gwyn

*(I gofio amdani ym Mhrifysgol Aberystwyth, 1959–1962)*

Heddiw cwyd i wydd y co'  
Âr un natur wen eto  
Yn heulog o ddihelynt  
Ar goedd fel yn Aber gynt.

Adeg y Rhyngolegol,  
Mae hynny'n ennyn yn ôl  
Ei rhwydwaith o frwdrydedd –  
Goleuni gŵyl yn ei gwedd.

Eilwaith yn glir o siriol  
Rwy'n ei gweld yn yr hen Gol  
Ar y pryd, neu ar y prom  
Eto mor agos-atom.

Yn y cwad y co' wedyn  
Sy'n ei gweld a'r ffresni gwyn  
Yn ei llais a'i hosgo llon  
Ag Aled yn ddwy galon.

Erys y wên hamddenol  
Megis hin o rin ar ôl,  
A'i thôn 'run fath â heno  
Fel y cwyd i fawl y co'.

*Donald Evans*

## Mair Davies, Patagonia

(1935–2009)

O'i haelwyd aeth ar alwad – i weini  
Mor annwyl i'w Cheidwad;  
O orwel diddychweliad,  
Rhanna Ei wledd â'r hen wlad.

*John Emyr*

# Eisteddfod Talaith a Chadair Powys *Llanidloes 2010*

## Testunau

### Adran Barddoniaeth

1. Cystadleuaeth y Gadair – Cerdd neu gyfres o gerddi, caeth neu rydd, heb fod dros 150 o linellau: Melinau

Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £150

2. Cywydd: Ffrwd
3. Englyn: Sabrina
4. Englyn digri: Aelod Seneddol
5. Telyneg: Nant
6. Soned: Y Barcud Coch
7. Hir-a-thoddaid: Abaty Cwm-hir
8. Cyfres o dri limrig: Bore, pnawn a hwyr
9. Emyrn y Pasg

### Adran Rhyddiaith

10. Cystadleuaeth Y Goron – Cyfres o lythyron rhwng dau berson o ddau gyfnod gwahanol – 15,000 i 20,000 o eiriau

Gwobr: Coron yr Eisteddfod a £150

11. Stori fer: Y Bwthyn
12. Adolygiad o ffilm: hyd at fil o eiriau
13. Dyddiadur: Wythnos waith gofalwr ysgol
14. Deialog a gymer tua 10 munud i'w berfformio

### Adran Ieuencid

15. Tlws dan 25 oed: Casgliad o waith gwreiddiol mewn unrhyw gyfrwng

Gwobr: Tlws a £50

Rhaglenni'r Eisteddfod ar gael trwy ffonio Margaret Jones – 01686 430474

**Nos Lun , 18 Hydref, am 7.30**

**Neuadd Gymuned Y Fan, ger Llanidloes**

**Darlith: 'Bywyd a Gwaith Gwilym R. Tilsley'**

**gan Alan Llwyd**

## Gwarthnod

*(Yn dilyn llwyddiant Nick Griffin a phlaid y BNP yn etholiadau Ewrop)*

I'w wersyll awn heb arswyd – i edliw  
Pob pleidlais a fwriwyd  
I'n hiselhau, pob croes lwyd  
I'n hesgyrn oll a losgwyd.

*Cynan Jones*

## Twymo'r Tŷ

*(I Hywel ac Alaw, Y Garth, Tal-y-bont)*

Ag arogl glaw drwy'r awyr  
rwy' ar daith ara' i dŷ  
rhai clên, a'm hanorac lwyd  
amdanaf, cans fe'm denwyd  
i'ch aelwyd wych i weld dau'n  
setlo lawr i'r steil orau.

A heno bydd y canu  
a'r holl sbort yn twymo'r tŷ  
a'i droi yn gartref hefyd:  
waliau oer yn fwthyn clyd;  
dadrewi meini pob mur  
a gwresogi aer segur.

Ar y lôn wrth farddoni  
os mynd, rhyw b'nawn, a wnawn ni  
i'r Garth ar ein crwydr, gwn  
draw o'r glaw'n wir fe glyw-wn  
y gwres yn llawn o groeso:  
carthen glyd, cwrw a than glo.

*Iwan Rhys*

Flynyddoedd yn ôl enillodd Mr Tecwyn Ellis, Mynytho gynt, gystadleuaeth yr englyn ar y testun 'Eira' yn Eisteddfod Cwmtirmynach ger Y Bala. Daeth yr englyn yn ôl i'w gof yn ystod y tywydd garw a gafwyd y gaeaf diwethaf.

Roedd ef yn feirniad canu a Llwyd o'r Bryn yn beirniadu'r cystadlaethau adrodd a llên yn yr eisteddfod honno.

## Eira

Cnwd o wynbluf a chnufiau – yn llwythog

Sy'n llethu'r canghennau;  
A ias ei haen yn dwysáu  
Oerni swil hwyrnos olau.

*Tecwyn Ellis*

## Gwaith Dilys

Pwy y gŵr piau geiriad – y llinell?

Fe'i lluniais o'm profiad,  
Do, yn wir, drwy ordinhad  
Yr awen. Nid hen drawiad!

*Wil Lloyd Griffith*

## Y Dywysoges

(ar ymweliad â Sempringham)


Fe rannaf â thi gyfrinach – ein hil,

Nac wyla ddim mwyach:  
Ynom fe fydd dy linach  
Fyw o hyd, Wenllian fach.

*Wil Lloyd Griffith*

# Sut i Greu Englyn

Alan Llwyd



ISBN 978-1-906396-29-9

Pris: £5.95

Mae'r gyfrol hon yn rhoi cychwyn i gyfres newydd sbon, sef y gyfres 'Sut i Greu'. Y bwriad yw gwahodd nifer o arbenigwyr yn eu maes i gynnig arweiniad i eraill yn y maes hwnnw, a chynnig awgrymiadau a chynghorion ynglŷn â sut i fynd ati i greu drwy wahanol gyfryngau, er enghraifft, *Sut i Greu Cywydd*, *Sut i Greu Awdl*, *Sut i Greu Soned*, *Sut i Greu Nofel* a *Sut i Greu Stori Fer*.

Ceir chwe phennod yn *Sut i Greu Englyn*: 'Pwyntiau Dechreuol', 'Hanfodion Englyn Da', 'Gwahanol Fathau o Englynion a Gwahanol Batrymau', 'Adeiladu Fesul Llinell', 'Trwsio a Thwtio', 'Y Broses o Englyna ar Waith'. Bwriad pob un o'r penodau hyn yw cynnig canllawiau ymarferol a defnyddiol i'r englynwr profiadol a llai profiadol fel ei gilydd.

# Llythyr

## Dirgelwch Cadair Gwili

Iorwerth Pritchard,  
17 Heathcote Grove,  
Chingford,  
Llundain.

Cefais fy ngeni ym 1928 yn Garndolbenmaen a'm magu yno, ond rwyf wedi byw yma yn Llundain ers 1952. Bùm yn gweithio yn yr Heddlu yma nes i mi ymddeol ym 1981, ac ers hynny mae'r wraig a minnau yn trwsio cadeiriau. Ond stori arall ydi honno.

Pan oeddwn yn yr Eisteddfod yn Y Bala cefais air â Dafydd Islwyn yn uned Barddas, a gofynnodd imi sgwennu fy stori a'i hanfon atoch. Testun fy sgwrs â Dafydd Islwyn oedd un o gadeiriau Gwili. Yn gysylltiedig â'm gwaith ychydig flynyddoedd yn ôl mi es i warws fawr yn ne Llundain, ryw 25 milltir oddi yma, ac yno ymysg cannoedd o ddarnau eraill yn aros i'w hallforio roedd cadair dderw hardd, wedi ei gwneud gan Owen Tudor, cerfiwr, Dolgellau, ac arni y geiriau, 'EISTEDDFOD GADEIRIOL MEIRION 1907'. Mi gynigiais bris rhesymol amdani ond cafodd ei wrthod. Ymhen rhyw dair wythnos mi gefais alwad ffôn yn dweud y cawn y gadair am fy mhriis i. Roedd mewn cyflwr da iawn, a 'doedd dim angen i mi wneud dim byd mwy na'i golchi hi yn ysgafn.

Ar ôl cludo'r gadair i 'nghartref roedd yn rhaid cael gwybod cadair pwy oedd hi, ac ar ôl rhai blynyddoedd o chwilio a chwilota, ni chefais lawer o drafferth i ddod o hyd i'r ateb.

Mae gen i erbyn hyn restr testunau'r eisteddfod honno, a chopi o'r canlyniadau yn y papur newydd lleol, yn dangos mai Gwili a enillodd y Gadair a £5 am ei bryddest 'Mair Ei Fam Ef'.

Ymhen amser wedyn, blwyddyn neu fwy efallai, rown i yn trwsio cadair i Mrs Llewelyn Jones, a oedd yn byw yma yn Llundain, a phan welodd y gadair edmygodd hi'n fawr, a dweud fod ganddi lyfr ac ynddo hanes Gwili, ond ei fod wedi cael ei bacio yn barod i symud tŷ o Lundain i Aberystwyth, a dywedodd y byddai yn ei yrru ataf ar ôl symud. 'Doeddwn i ddim yn adnabod Mrs LI. Jones cyn hyn a chyd-ddigwyddiad hollol oedd iddi ddod â'r gadair yma i mi ei thrwsio. Cyrhaeddodd y llyfr, a oedd wedi ei ysgrifennu gan E. Cefni Jones, hen ffrind i Gwili. Mae'n ddiddorol iawn ac yn llawn ffeithiau.

Yn yr Hendy mae tŷ â phlac gyda'r geiriau hyn arno:

Yn y tŷ hwn y ganed  
"Gwili"

John Jenkins, M.A., D. Litt.  
Pregethwr, Athro, Llenor,  
Archdderwydd.  
1872-1936.

"Na foed o'n bywyd ddarn ar goll  
ar ran y byd."



Cyd-ddigwyddiad arall yw'r ffaith mai dyna'r tŷ lle bu fy mam-ying-nghyfraith yn byw pan oedd yn blentyn.

Bu Gwili farw ym 1936. Cyd-ddigwyddiad arall rwy'n ei gofio oedd clywed mam, pan oeddwn i'n wyth oed, yn dweud fod yr Archdderwydd wedi marw a chwestiynau lu gen i yn dilyn: "Be' 'di archdderwydd, be' oedd ei enw o?" ac yn y blaen, ac mi lynodd yr enw Gwili yn fy nghof am ryw reswm.

Beth a ddigwyddodd i'r gadair rhwng 1907 a'r adeg yr achubais i hi a sut a daeth hi i Lundain? Ac i ble mae'r cadeiriau eraill a enillodd Gwili wedi mynd? Dyna gwestiynau eraill y mae angen eu hateb.

Gobeithio y bydd hyn o ddiddordeb i chi.

Yn gywir,

*Iorwerth Pritchard*

# Nid yw Andreas yn Athen bellach

Dychmygwn, o bryd i'w gilydd,  
rywun nad oeddwn yn ei 'nabod yn dda  
ond rhywun pwysig ynddo fe'i hunan  
a rhywun pwysig iawn i ti,  
yn dal i eistedd yn bell i ffwrdd,  
mewn fflat bach iawn i ddau, yn smocio,  
smocio, smocio, nes bod awyr y lolfa  
mor dywyll â'i ysgyfaint.  
Rhaid codi'n aml i wneud te – ond pa fath?  
Asam cyffredin neu'r Iarll Llwyd,  
ei foneddiges o gymar,  
y *Lapsang Souchong* myglyd falle,  
neu un gwyrdd yn sawru o Jasmin?

Synfyfyria'n fodlon  
uwchben y tseina gwyn,  
wrth i'r trwyth, yn ara deg, ymledu'n  
gwmwl heulog o'r llwy ridyllog.  
Yn fodlon rwy'n tybio (anodd braidd  
oedd darllen ei wep ddigyffro).  
A pha flas sydd i de trwy fwg  
a nicotin ar daflod?  
Pob un fel *Lapsang Souchong* ynta.

Ers mwy na blwyddyn – dwy mae'n rhaid –  
bûm yn dychmygu, bob hyn a hyn,  
chi'ch dau yng nghlydwch eich cartref,  
yn y naill stafell neu'r llall  
ac yntau'n fflicio yn ôl  
ac ymlaen trwy'r sianeli Pwyleg,  
neu'n sefyll am oes mewn cegin blwch ffôn,  
yn llunio *pirogi* twt,  
yn troi'r porc mewn marinêd,  
yn dilyn risêt am bryd Thai,  
yn paratoi gwledd i ti.  
Ond gwn bellach, ers bron i naw mis,  
(fuon ni erioed yn dda am gysylltu)  
dy fod ti mewn fflat llawer mwy  
a bod Andreas wedi marw.

*Robert Lacey*

## Defnydd callach i gwpan

... nad yw'r drws ar gau yn llwyr,  
bod yno ddrws o gwbl  
a phreswylfa o ehangder dychmyg yr ochr draw  
ond i ddyn ganolbwyntio.

Dyma a drafodwyd dros goffi a the,  
mewn ffreutur coleg yn gleber o gig a gwaed  
yn ymwasgu trwy'i gilydd.  
Clywem eu gwres arddegaid.

Ai fel hyn y mae'r tu draw i'r llen  
ond yn dynnach a'r golau'n isel a dim chwant  
bwyta ar yr ymadawedig  
nac ymbryuro ar ryw berwyl is-fydol?

I'r gwrthwyneb, mynni di fod rhai  
yr un mor frwd i siglo'n byd ni a chael sylw  
â'r myfyrwyr ymwithiol hyn, hyd at ddihuno'r  
diniwed o'u trymgwsg a bygwth trais,  
cyn diflannu i'r wal.

Onid oes gan bawb ryw stori ddifyr  
i beri ... ymagor, ac mae'r amgylchiadau  
o hyd yn rhyfeddol o ffiniol,  
rhwng golau a gwyll, cwsg ac effro  
a phob bwci-bo'n ymrithio'n y gorau.

Ond mae gan rai adroddiadau moel  
sy'n peri syndod a distawrwydd – ymresymwn  
yng nghefn golau goleuni ond mae'r ffeithiau'n  
wrthnysig, yn amlinellu bwlch

– bwlch yn ein gwybod o bosibl, a'n greddf  
creu dilyniant gafaelgar yn ein  
gwithio drwyddo – ta waeth,  
cyn gwagio'r cwpan, ei droi  
drosodd ac estyn bysedd  
er mwyn cylchredeg trydan lleddf y meirw,

syllwn i ddrych arwynebedd yr hylif poeth  
a chanfod rhyw rith o ben llurgunedig  
yn nesáu'n nofio ar wyneb dŵr berw a llaeth.  
Yfwn ef â gofal, yn llymaid twym o fyd materol.

*Robert Lacey*

## Talwch yma

Talwch yma  
am ychydig oriau o'ch bywyd beunyddiol.

Talwch yma  
er mwyn cael parcio ar gyfandir  
newydd-anedig o goncret.  
Heb gysgod i gorff nac enaid,  
cewch eich llabyddio gan yr heulwen  
neu'ch corlannu,  
gyda blychau sglodion, caniau  
diod a gweddill ein sbwriel,  
gan Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw  
(ill dau wedi troi mas i fod yn eitha iobs).

Talwch yma  
er mwyn cael dianc dan do  
i 'Brofiad Siopa sydd Well'

(ond yn Saesneg wrth reswm)  
lle daw'r unig awel o system awyru  
a'r unig gawod o chwistrellydd persawr: 'bydd  
eich gwraig yn dwli ar hwn, syr'  
'WEL ROEDD GWRAGEDD PAWB ARALL WRTH EU BODD!'

Talwch yma am siwgr  
yn bur neu'n gymysg â phethau da eraill,  
o liwiau aml-ddeniadol, yn hylif neu'n crensian  
llenwadau eich dannedd yn rhydd.  
Cofiwch chwilio am y darnau bach sy'n mynd yn sownd:  
mae cael hyd i'r rheini fel cael tamaid i aros pryd!  
(Ceir amrywiaeth o gyffuriau eraill  
ar loriau un, dau a thri y ganolfan.  
Holwch ein staff profiadol).

Talwch yma  
er mwyn cael byseddu llysiau gwywedig  
a chael gadael y tomatos sy'n llwydo  
i rywun llai ffodus.

Talwch yma ag arian parod, carden gredyd,  
gorddrafft, twyll, dyfodol eich plant,  
neu'n well fyth, dyfodol plant rhywrai eraill.

Talwch yma  
a chewch weledigaethau gwresog  
am heidiau o brynwyr newynog,  
heb un ddimai goch yn weddill,  
eu brêns wedi troi'n driog, yn carlamu  
ar draws *plazas* a *phiazzas* anial y byd – yn troi  
ac yn encilio'n un, o flaen pob cysgod a sŵn dierth.  
Beth sy'n llechu ar y cyrion tywyll, clawstrog?  
Ai bleiddiaid, llewpartiaid a llewod am gael dial,  
dial am yr hyn a wnaethpwyd  
er mwyn creu llinach druenus Pero a Smwt?

Talwch yma  
os am deimlo'n unigolyn deallus  
sy'n gweld trwy'r heip a'r oferedd, y  
diffyg chwaeth a'r gwastraff.  
Oes, mae 'na le i chithau hefyd,  
yn y bistro bach drud, ar oriel llawr tri,  
lle mae pob pryd wedi'i ailgylchu.  
Cewch edrych i lawr ar y byd a'i betheuach  
ac i gwsmeriaid dethol, gyda'r garden hon, mae 'na 10% bant.  
Ymunwch â'r cwt i'r chwith ac edrychwn ymlaen  
at eich gweld yn ôl, yn ddi-ffael yr wythnos nesaf.

*Robert Lacey*

## Puprod i aros pryd

Roeddem ein tri'n unfarn  
am flas y puprod coch  
wedi'u rhostio. Gallent yn rhwydd  
fod wedi troi'n symbol  
o rywbeth uwch. Beth, tybed?

Yn lle hynny, myfyriwn ar eu cnawd  
llyfn, digywilydd yn llithro  
dros fy nhaflod fel ail dafod,  
ar ôl dianc gerfydd eu crwyn  
o'r fflamau tanllyd.

Ymdebygent i galonnau  
wedi'u datgymalu'n dwt,  
a'u siambrau fflat, ar wahân,  
braidd yn ddi-ffrwt – nid gwaed  
ond gwin oedd yn y gwydryn.

Pleser, prydferthwch a'r gwirionedd felly  
ar un plât gwyn gyda'r haenen  
leiaf o olew'r olewydd  
yn gwneud iddynt wenu'n braf,  
mewn cytser o berlysiau ffres.

Bwyd oedd hwn; ar un adeg bywyd.  
Ac roedd ein pennau cig ac asgwrn  
yn pyngad o drosiadau a chredoau  
am y calonnau sanctaidd, tragwyddol,  
nes iddynt gael eu claddu.

*Robert Lacey*

## Ffarwelio

Rhwng Menlove Avenue a Penny Lane,  
ar y tir cyfarwydd rhwng deigrin a gwên,  
lle mae'r alaw yn ifanc a'r cefndryd yn hen  
fe ddywedais i ffarwél:

roedd oglau Lerpwl fel gwin ar y gwynt,  
a finnau'n difaru na ffarweliais i'n gynt  
a rhoi fy mendith iddo wrth fynd ar ei hynt  
a'r cymylau du yn hel:

drwy byrth urddasol capel Heathfield Road  
codai rhai o'r emynau hynaf sy'n bod  
yn llawn o barch a hiraeth a chariad a chlod,  
ac wrth agor yr ymbarél

ar groesffordd Menlove Avenue a Penny Lane,  
tu ôl i'r dagrau roedd yna ambell i wên,  
a rhaid oedd cefnu ar y ddinas a'i hacenion clên,  
o leiaf am sbel.

*Iwan Llwyd*

# Congol yr Ysgolion

Myrddin ap Dafydd

## Gwylwyr ar y Tŵr

### Trafodaeth gan

#### Huw Meirion Edwards

Mae'r gwylwyr ar y tŵr, Dai,  
Mi wyddet fod yno rai,  
Maen nhw'n gollwng eu plwm i waelod y pwll  
I fesur, i farcio dyfnder ei dwll  
Heb bwysau, heb lein, heb yr un a fedd  
Ddawn mesur ei ddyfnder mewn geiriau ar fedd.

Mae'r gwylwyr ar y tŵr, Dai,  
Mi wyddet fod yno rai,  
Maen nhw'n cyfri'r tramiau, yn pwysu'r glo,  
Cadw stadegau o gynnyrch y fro,  
Heb ddarllen y garreg na deall ei hiaith  
Heb yr un dull o rifo na chyfri ychwaith.

Mae'r gwylwyr ar y tŵr, Dai,  
Mi wyddet fod yno rai,  
'Does 'na ddim marchnad,' medden nhw wrthon ni,  
'Does 'na ddim glo,' yw eu llais dros y lli,  
Mae'n haws agor chwarel a chael JCB's,  
Cael derw nid dynion i dalu ei bris.

Mae'r gwylwyr ar y tŵr, Dai,  
Mi wyddet fod yno rai,  
Maen nhw'n edrych dros ysgwydd  
sy'n plygu i waith,  
Maen nhw'n galw am law a'r lle eisoes yn llaith,  
Maen nhw'n gadael y llanc yn esgyrn o ŵr  
Am mai dyna yw gwerth gwylwyr y tŵr.

Mae'r gwylwyr ar y tŵr, Dai  
Mi wyddet fod yno rai.

Y peth cyntaf sy'n ein taro ynghylch y gerdd  
hon yw'r byrdwn sy'n cychwyn pob pennill:

Mae'r gwylwyr ar y tŵr, Dai,  
Mi wyddet fod yno rai ...

Maen nhw'n eiriau trawiadol sy'n serio neges  
y bardd ar gof y darlennydd. Gyda'i byrdwn  
bachog a'i llinellau rhythmig sy'n odli fesul  
cwpled, hawdd dychmygu'r gerdd yn cael  
ei chanu yn null baledi Dafydd Iwan a  
chantorion protest eraill y cyfnod diweddar.

Fel arfer gellid disgwyl i ddelwedd y gwylwyr  
ar y tŵr ddwyn arwyddocâd cadarnhaol. Dyma'r  
amddiffynnydd cadarn sy'n gwyllo fel barcud

symudiadau'r gelyn y tu hwnt i'r muriau; dyma geidwad  
hunaniaeth a thraddodiad a gwerthoedd y rheini sydd oddi  
mewn. Ond meddyliwn hefyd am 'ofer esgeulustod y gwylwyr  
ar y tŵr' yn chwedl Cantre'r Gwaelod, pan arweiniodd  
diofalwch Seithennyn feddw at foddî'r deyrnas gyfan. Yn  
sigr yn y gerdd hon, grym sinistr, bygythiol sydd i'r trosiad.  
Yr hyn sydd yma yw tŵr y gaer gyfalafol estron. Brodyr  
Mawrion o wylwyr yw'r rhain, meistri gormesol sy'n mynnu  
rheoli bywydau'r rhai sydd oddi tanynt gan hidio mwy  
am ystadegau ac elw nag am hawliau a theimladau pobl.

Caiff y gwylwyr diwyneb yma eu cyferbynnu ag un dyn  
bach, Dai; un Cymro ond eto bob Cymro y gwasgwyd ei  
ddynoliaeth gan y drefn. Drwy ei gyfarch ar ddechrau pob  
pennill mae'r bardd yn personoli neges y gerdd. Yn dilyn  
pob byrdwn ceir y naill ddisgrifiad ar ôl y llall o anfadwaith  
y 'gwylwyr' ar hyd y cenedlaethau. Sonnir yn y pennill  
cyntaf am gloddio'r pyllau glo yng nghyfnod y Chwyldro  
Diwydiannol. Proses fecanyddol, oer yw hon, heb fawr o  
ystyriaeth i'r peryglon a ddaw yn ei sgil. Mesurir dyfnder  
y pwll heb ddirnad dyfnder y geiriau ar gerrig beddi'r holl  
lowyr hynny a fydd yn colli eu bywydau o dan ddaear.

Yn yr ail bennill mae'r pwyslais ar fesur a phwysu  
drachefn, ar gynhyrchu golud o ddaear Cymru heb  
falio fawr am deimladau nac am iaith ei phobl. Wrth  
ddarllen y trydydd pennill meddyliwn am Streic y  
Glowyr yng nghanol wythdegau'r ganrif ddiwethaf  
pan gaewyd y rhan fwyaf o'r pyllau glo gan adael  
miloedd o Gymry ar y clwt, eu defnyddioldeb yn hen  
hanes mwyach. Caiff anonestrwydd milain Margaret  
Thatcher a'i llywodraeth Doriaidd ei ddinoethi'n  
effeithiol drwy gyfosod dwy linell syml, gyferbyniol:

'Does 'na ddim marchnad,' medden nhw wrthon ni,  
'Does 'na ddim glo,' yw eu llais dros y lli ...

Erbyn y pennill olaf mae'r meistri yn dal i wyllo ac  
yn dal i odro'r gweithiwr bach yn sych: 'Maen nhw'n  
galw am law a'r lle eisoes yn llaith'. Nid yw'r llanc  
oedd â'i ddyfodol o'i flaen yn ddim bellach ond croen  
ac asgwrn, a hyn oll yn enw'r farchnad. Ceir awgrym  
eironig mai 'gwerth' ariannol y farchnad rydd yw'r unig  
beth sydd o bwys i wylwyr y tŵr, a bod y gwerthoedd  
dynol sylfaenol yn cael eu sathru dan draed. A'r gwylwyr  
hollbresennol a gaiff y gair olaf wrth i'r bardd ailadrodd  
ei fyrddwn un waith yn rhagor ar ddiwedd y gerdd. **B**



# Colofn cwj

Gan Ceri Wyn Jones

## Y Pentre Arms

Mae i'r Pentre Arms, Llangrannog, ei hanes a'i chwedloniaeth ei hun. Mae ganddi enw da i gychwyn; enw sy'n awgrymu ei bod hi'n ddrych o'r gymdogaeth a'r ardal: y dafarn yw'r pentre; y pentre yw'r dafarn, fel petai. Yma, slawer dydd, roedd y beirdd yn cwrdd ar nos Sadwrn: Alun Jones y Cilie, T. Llew Jones a Dic Jones, a sawl un arall a gyfrannai i'r hwyl Gymreig a Chymraeg.

Ac mae bwrlwm yn perthyn i Langrannog o hyd: dwy dafarn lewyrchus (y Ship yw'r llall) a llond lle o bobol ifainc leol yn cymysgu drwy'r trwch â'r genhedlaeth hŷn.

Ond yn ystod Pencampwriaeth Rygbi y Chwe Gwlad eleni, roeddwn yn ffael llai na meddwl am Alun Cilie, a Llew, a Dic pan glywais i nifer o Gymry ardal Llangrannog yn cyfaddef nad oedden nhw'n bwriadu, yn groes i'w harfer, fynd i'r Pentre Arms i wylïo gêm Cymru yn erbyn Lloegr. A pham? Wel, oherwydd gwyddent y byddai'r dafarn honno y diwrnod hwnnw'n llawn o gefnogwyr y gwrthwynebwyr.



## Y Dafarn Berffaith

Mae, yn local fy nghalon,  
gwrw rhad a hen ford gron  
lle nid oes ond ni'r llond dwrn  
yn seiadu nos Sadwrn,  
a phob sillaf o'r dafarn  
muriâu-cul yn Gymro i'r carn.

Fan hyn mae'r ffrindie'n deall  
tynnu côs a tanco call  
(mwy neu lai), ac mae 'na le  
i wítho pennill weithie,  
neu gywydd, fel digwyddai'n  
yr hen Pentre Arms, medd rhai.

Lle dôi Dic a Llew ill dau  
a chawr y Cilie i chwarae,  
fe wyliaf yn eu tafarn  
y gêm fwyaf un, gêm y Farn,  
a'r man gwyn, er mwyn y gad,  
yn dew gan *locals* dŵad.

Lle bo'n y lle ubain llon  
*Swing Low*, nid oes englynion,  
wrth i benillion Jonno,  
neu emyn siort Simon Shaw,  
lais ar ôl llais droi'r holl le'n

gymuned Hugo Monye.

Ar lan simsan dan y sêr,  
hwn yw castell Nick Easter,  
ac i fwldog fe ildiwn  
taw ei HQ ydyw hwn;  
yn glwb i'r *ex-pat* a'i glic,  
yn Ibiza Steve Borthwick.

O sŵn eu *Chariots* hynaws  
af yn bell: mae'n well, mae'n haws  
na chael tonc a chlywed 'to  
*Delila*'n troi'n 'Dallaglio'.  
Yn Nhwickers Carreg Bica,  
mae' rhy dwym i'r Cymry da.

Am nad oes gwmni deusain  
heno wrth far yr iaith fain;  
am nad oes, ym mhen y daith,  
frân wen o dafarn uniaith,  
i ble'r af i gael hafan,  
i gnoi cil, i ganu cân?

Ai mynd nôl i'r bar olaf  
a chanu'n uwch, neu a af  
i byb ymhell o bob man  
a pheidio 'achosi ffwdan?  
Neu sgwn-i a wês gwanieth,  
a'i bod hi'n *stop-tap*, ta beth.

# Diwrnod Cenedlaethol i Gofio T. Llew Jones *Hydref 9, 2009*

## Cystadlaethau'r Cyngor Llyfrau

### Y Cerddi Buddugol

Fel rhan o'r gweithgareddau i gofio diwrnod pen-blwydd T. Llew Jones ar Hydref 9 y llynedd, trefnwyd dwy gystadleuaeth farddoniaeth ar gyfer y sector cynradd gan Adran Llyfrau Plant y Cyngor Llyfrau. Yn ôl y beirniad, Myrddin ap Dafydd, cafwyd ymateb da iawn, a dyma'r cerddi a ddyfarnwyd yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd ganddo.

1. *Llunio cerdd yn dechrau gyda'r geiriau 'Ddoi di gen i ...' ('Traeth y Pigyn')*

### Y Gerdd Fuddugol

## Traeth Llansteffan

Ddoi di gen i i draeth Llansteffan  
lle cawn glywed sgrech yr wylan?  
Ddoi di i wyllo'r llongau'n hwylio,  
blasu sglodion, bolaheulo?  
Ddoi di i gerdded llwybrau'r goedwig  
dros y creigiau lliwgar, llithrig?  
Ddoi di i mewn i'r ogof oerllyd,  
cuddio dan ddiferion dwrlllyd?  
Fe gawn yno gasglu cregyn,  
dringo muriau'r castell wedyn –  
sbio'n bell dros Fae Caerfyrddin  
o Fro Gŵyr hyd at Bentywyn.  
O! mae'n braf ar draeth Llansteffan  
lle cawn glywed trên yn hwtian  
ar hyd glannau afon Tywi  
wrth fynd heibio Glan y Fferi.  
Tyrd gen i i draeth Llansteffan,  
dere 'mla'n, cawn amser diddan,  
hufen iâ yng nghwmni'r wylan –  
'does dim brafiach lle yn unman.

*Blwyddyn 3, 4 a 5, Ysgol Llangain, Caerfyrddin*

Ail

## Parc y Scarlets

Ddoi di gen i i Barc y Scarlets,  
Lle'r oedd Grav yn chwarae rygbi?  
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?  
Ddoi di ddim?

Ddoi di i sgorio cais,  
Ac i gicio ar y maes?  
Ddoi di gen i? Ddoi di –  
Ddoi di ddim?

Fe gawn wyllo'r crysiau cochion,  
A chawn ganu am y sosban,  
Ddoi di gen i?  
Ddoi di ddim?

O mae'n braf ar Barc y Scarlets,  
Lle'r oedd Grav yn chwarae rygbi,  
Pan fo'r dorf yn gweiddi'n uchel,  
Pan fo'r chwaraewyr ar eu gorau;  
Tyrd gen i i Barc y Scarlets,  
Fe gawn brofiad hapus wedyn.  
Ddoi di gen i? Ddoi di gei?  
Gwn y doi.

*Aaron Jones, Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin*

### Trydydd

## Ddoi Di gen i i

## Uwchmynydd

Ddoi di gen i i Uwchmynydd  
Lle mae glastir, traeth a ffermydd?  
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?  
Ddoi di ddim?

Ddoi di i grwydro'r creigau  
A pharasiwtio i lawr i'r traethau?  
Ddoi di gen i? Ddoi di –  
Ddoi di ddim?

Fe gawn yno deithio i Enlli  
A thonnau'r môr yn ein golchi –  
Ddoi di gen i?  
Ddoi di ddim?

O mae'n braf gweld y tir mawr eto  
A blasu hufen oer fy nghorneto,  
Pan fo'r haul yn darfod.  
Wrth edrych ar gampwaith y dewin hynod  
Tyrdd gen i i Uwchmynydd:  
Fe gawn hwyl yn chwarae hefo'n gilydd –  
Ddoi di gen i? Ddoi di gen i?  
Gwn y doi!

*Richard Worsley, Ysgol Pentreuchaf, Gwynedd*

2. *Llunio parodi ar y gerdd 'Cwm Alltcaf' gan sôn am ardal arbennig i chi.*

### Y Gerdd Fuddugol

## Ynys Enlli

Fuoch chi yn Ynys Enlli,  
Lle mae heddd yn oedi'n hir?  
Lle mae'r morloi'n gorwedd ddiocaf?  
Naddo? Naddo wir?

Welsoch chi mo ewyn Enlli'n  
Taro'n ffyrnig ar y graig?  
Welsoch chi mo'r coed afalau  
Ar y llethrau'n cynnig saig?

A fûm i'n Iona? Naddo,  
Na, nac ar dir Manaw chwaith,  
Ond mi fûm ar Ynys Enlli,  
Ymhob tymor, lawer gwaith.

Gweled ffermydd mawr y gogledd  
Yn Awstralia? Naddo fi;  
Tra bu rhai yn chwilio 'mhellach  
Mynd i Enlli a wnes i.

Ewch i Fanaw ac i Iona  
Neu Awstralia ar eich tro;  
Ewch o Enlli, ond yno mae'r  
Golygfeydd godidog, sbo.

Ond i mi rhowch Ynys Enlli  
Lle mae heddd yn hawlio'r byd.  
Yno mae'r olygfa orau,  
Sydd yn well na'r lleill i gyd.

Welsoch chi mo Ynys Enlli,  
Lle mae'r Saint a'r ffynnon ddofn?

Ewch da chi i Ynys Enlli,  
Peidiwch oedi'n hwy ... rhag ofn!

*Gwaith grŵp Blynyddoedd 5 a  
6, Ysgol Edern, Gwynedd*

### Ail

## Plas Cilcennin

Fuoch chi ym Mhlas Cilcennin  
Lle 'dyw amser ddim yn bod,  
Lle mae'r olygfa fwyaf prydfferth?  
Naddo? Naddo wir?

Welsoch chi mo nant y ffynnon  
Yn llifo'n araf drwy y fro?  
Welsoch chi mo Mynydd Trichrug  
Fydd yn aros yn y co'?

A fûm i'n Abertawe? Naddo,  
Na, nac yng Nghaerdydd chwaith,  
Ond rwy'n mynd i Blas Cilcennin,  
Drwy'r flwyddyn ers amser maith.

Gweled mwynder mawr yr Wyddfa  
Yng Ngogledd Cymru? Naddo fi.  
Tra bu rhai yn jolihoeitan  
Mynd tua'r mynydd a wnes i.

Ewch i Abertawe a Chaerdydd,  
Neu i'r Gogledd ar eich tro;  
Ewch i Loegr, y mae yno  
Ryw brydfferthwch, sbo.

Ond i mi rhowch Blas Cilcennin,  
Pan fo'r haul yn wên i gyd;  
Yno'n wir mae'r cwmni gorau,  
Ar hyd a lled y byd.

Welsoch chi mo Plas Cilcennin,  
Lle mae defaid, buwch a'i llo;  
Ewch, da chi, i Blas Cilcennin,  
Ewch yn fuan ... jyst ... rhag ofn!

*Rhodri Cole, Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin*

Trydydd

## Ein Hardal Ni

Fuoch chi yn Nhrwyn Penychain  
Lle mae'r haf yn oedi'n hir,  
Lle mae'r mecryll yno'n nofio?  
Naddo? Naddo wir?

Welsoch chi'r Lôn Goed erioed  
Gyda'r dail yn dawnio'n ffri,  
A'r taglys yn eu crogi  
A'r cacamwnci'n cael hwyl a sbri?  
A fuoch chi yn Yr Eidal? Naddo,  
Na ddim yn Ffrainc ychwaith,  
Ond bùm yn gweld Traeth Penychain  
Ym mis Awst lawer gwaith.

A fùm i'n gweld Tŵr Eiffel  
Yn Ffrainc? ... Naddo fi;  
Tra bu fy ffrindia'n crwydro Iwerddon  
Aros adra a wnes i!

Ewch i Ffrainc ac i'r Eidal,  
Ewch i Iwerddon yn eich tro;  
Ewch i'r Alban ac fe welwch  
Olygfeydd godidog, sbo.

Ond i mi rhowch Drwyn Penychain  
Pan fo'r môr yn gynnes braf;  
Yno mae'r olygfa orau  
A chewch gadw'r lleill i gyd!

Welsoch chi mo Drwyn Penychain?  
Welsoch chi mo'r mecryll chwim?  
Dewch da chi i'n hardal ninna',  
Peidiwch oedi mwy ... rhag ofn.

*Mari, Catrin ac Anni, Ysgol Chwilog, Gwynedd*

## Hywel Teifi

Athro hael ei athrylith, – dewisol  
Dywysog y ddarlith;  
Diguro am lunio'i lith  
A'i hadrodd â'i ddawn ledrith.

Yn llawn trydan wrth daranu – o raid  
Am ddifrawder Cymru;  
A nod ei holl genhadu? –  
Adfer hen falchder a fu.

*John Phillips*

## Kenavo

*(i Twm)*

Fi a'r gath a fi a'r gath a fi  
a lliw marwolaeth ar ei phawen hi,  
un mor dyner â maneg melfed,  
y llall yn raselau di-ri:

y fi a'r gath a'r fuwch a'r gath a'r ci,  
rhyw driawd ar y buarth, a'r llwch lli  
yn drwch hyd y siop saer drws nesa',  
a'r arch newydd yn barod 'sti:

felly ar y bryn 'na sy'n llawn hiraeth  
a phob gobaith yn pellhau,  
a'r rhaff uwchben yn dynn a chaeth,  
a'r angylion yn eu gw'läu,

cofia am y nosweithiau hynny  
a'n lleisiau yn baderau brau,  
cofia am y fuwch a'r gath a'r ci,  
yr hen benillion sy'n parhau:

a phaid poeni os yw ein breuddwydion a'u bri  
wedi mynd fel Seithennyn i'r lli,  
mae 'na rai ar ôl sy'n dal yn ffyddlon  
i weddillion ein halawon ni:

ti yw'r ffrind sy'n dal i 'neall i,  
y llyw sy'n groyw ei gri,  
be' 'di gobaith heb anobaith,  
dyna natur ein cyflafan, am wn i:

roedd Pizarro yn ddigon caled ei fri  
i roi y barbariaid yn eu lle fel 'sa ci  
yn eu gyrru i'r gorlan oer, ddigariad:  
nid eu cyfrif fesul un dau a thri:

nid fel y meist'r ers talwm, un â'i ffi  
yn groeshoeliad, a bedd, un o dri,  
un a alwodd ei gydfforddion yn gyfeillion,  
un teyrngar ei gusan – un fel chdi.

*Iwan Llwyd*

# Y Bardd Addawol Ben Bowen

gan D. Ben Rees

Ar hyd fy oes y mae Ben Bowen, y bardd ifanc o Dreorci, wedi bod yn enw cyfarwydd i mi, a hynny yn bennaf am iddo farw mor ifanc, cyn iddo gyrraedd ei bump ar hugain mlwydd oed, ac yntau wedi amlygu addewid fawr fel bardd yn y mesurau caeth a'r mesurau rhydd, Cynrychiolai genhedlaeth o feirdd ifainc a wnaeth gyfraniad helaeth i lenyddiaeth Gymraeg, fel Crwys a Dyfnallt. Yr oedd Dyfnallt yn un o'i ffrindiau pennaf. Treuliodd Ben Bowen gyfnodau yng nghartref Dyfnallt yn ei ofalaeth gyntaf yn Ebeneser, Deiniolen. Adnabyddid ef yr adeg honno fel John Owen, a Dyfnallt oedd ei enw barddol. Daeth yr enw barddol yn enw ar y gweinidog dawnus. Roedd y ddau, Dyfnallt a Ben Bowen, fel Dafydd a Jonathan, ac yn ei waeledd, edrychai Ben Bowen ymlaen at weld ei ffrind yn dod o'r Gogledd pell i'w gartref yn Nhreorci i'w gysuro. Yn wir, yr oedd Dyfnallt yn un o bedwar a draddododd deyrnged yn ei arwyl yng nghapel Jerusalem, Ton Pentre.

Yn yr ysgrif hon hoffwn bwysleisio rhai pethau am y bardd a fu farw ym mlodau ei ddyddiau.

Yn gyntaf, y darlun ohono yn ei nychdod a'i wendid parhaus. Plentyn yr afiechyd blin ydoedd. Yr oedd yn un o naw o blant i Dinah a Thomas Bowen, y ddau, fel cymaint o Gymry a ddaeth i Gwm Rhondda, yn hano o Sir Gaerfyrddin a'r Gorllewin. Deuai'r fam o Fwlchnewydd, ger tref Caerfyrddin, a'i dad o Felin-foel ger Llanelli. Daeth y fam i Gwm Rhondda i weini ac aeth y tad i weithio yn y lofa.

Ganed Ben yn Nhreorci ar Hydref 19, 1878. Profiad dirdynnol iddo oedd colli ei fam ym mis Medi 1884 ac yntau ond yn chwe blwydd oed, a hithau yn bump a deugain oed yn marw. Bu farw'r tad o'r parlys ar Hydref 6, 1898, yn chwech a thrigain mlwydd oed. Nid oedd modd gan y teulu i Ben gael manteision addysg, a dilynodd ei dad i lofa Ty'nybedw yn Nhreorci pan oedd yn ddeuddeng mlwydd oed.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth ar ôl dechrau ennill cyflog oedd prynu copi o lyfr Dafydd Morganwg, *Yr Ysgol Farddol*, er mwyn dysgu rheolau'r cynganeddion. Bu'n rhaid iddo dalu deuswllt am y llyfr, talu dros gyfnod o bythefnos. A thra bu yn gweithio yn y lofa, prynai gyfrol newydd bob hyn a hyn gyda'r llyfrwerthwr Davies Bryncethin yn y dreflan. Erbyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn un ar bymtheg, roedd wedi meistrolï'r pedwar mesur ar hugain ac wedi llunio awdl goffa i'w gefnder William Bowen,

Cefncaeau, Llanelli. Yn y cyfnod hwn, o 1880 ymlaen, bu'n anfon cerddi ac englynion at Brynfab, a ofalai am y Golofn Farddol yn y papur *Tarian y Gweithiwr*, ac at Dafydd Morganwg, a ofalai am gynhyrchion yr awen yn y *South Wales Weekly News*. Yr oedd Brynfab a Dafydd Morganwg yn hael eu canmoliaeth i'w waith, yn wir, dywedodd Dafydd Morganwg fod 'seren newydd' wedi ymddangos yn ffurfafen barddoniaeth Gymraeg. Ychwanegodd: 'Y mae yr englynion hyn yn aeddfetach nag eiddo bachgennyn pymtheg oed'.

Yn ei awydd i fod yn fardd, câi Ben gefnogaeth ddi-ildio gan ei dad. Aeth ei dad ag ef yr holl ffordd i Faesteg ar droed, er mwyn cyflwyno'r llanc i fardd amlwg enwad y Bedyddwyr, y Parchedig John Ceulanydd Williams ('Ceulanydd'; 1847-1899), ar ôl iddo ymgartrefu yn Nyffryn Ogwr. Daeth Ceulanydd i ofalu am Salere a Chaersalem, Maesteg, ym 1882, ac ym 1884 y bu'r cyfarfyddiad rhwng y glöwr pedair ar ddeg oed a'r gweinidog canol oed. Rhoddodd Ceulanydd bob cefnogaeth iddo a bu'r ddau yn trafod y cynganeddion. Cynghorodd Ceulanydd ef i gystadlu yn yr eisteddfodau a gynhelid ymhob pentref a thref yr adeg honno.

Ymrôdd Ben Bowen i'r dasg. Cafodd hwb gyda Gŵyl y Glowyr a elwid Gŵyl Fabon ar ôl y gwleidydd a'r arweinydd diwylliedig a feddai glowyr De Cymru. Nid un i golli cyfle oedd y bardd ifanc. Rhoddai bwys ar gynganeddu wrth ei waith ym mherfeddion y pwll glo. Ar ôl dychwelyd adref ar ddiwedd y dydd mynychai gyfarfodydd Capel y Bedyddwyr, Moriah, Pentre, a darllen ei lyfrau. Astudiodd yn drwyadl weithiau Dr Lewis Edwards Y Bala, a hefyd astudiaeth yr Athro Henry Jones o waith Browning. Byddai wrth ei fodd yn darllen hanes llenyddiaeth Gymraeg a gweithiau beirdd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Islwyn (ef oedd ei arwr), Eben Fardd, Dewi Wyn o Eifion, Cynddelw, a hefyd waith yr Eingl-Gymro, Syr Lewis Morris, a fu'n hynod o garedig wrtho.

Ond dryswyd ei gynlluniau pan fu'n rhaid i'w dad roddi'r gorau i'w waith yn y lofa oherwydd trawiad o'r parlys. Syrthiodd cyfrifoldebau'r tad arno ef a'r bechgyn a'r merched eraill. Ac ni phallodd uchelgais Ben i ennill prif wobrau mewn cystadlaethau barddoniaeth. Yr oedd ef yn hen gyfarwydd ag ennill am adrodd yn y cyfarfodydd llenyddol a'r eisteddfodau, ond bellach teimlai'n hyderus fel bardd ymhlith y Cymry Cymraeg yng Nghwm Rhondda a phle bynnag y ceid cymunedau o Gymry. Y ffigurau

pwysicaf yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw oedd y bardd a'r pregethwr. Hwyl oedd arwyr y gymdeithas gapelyddol ddiwylliadol. Ac os gellid cyfuno'r ddau beth â'i gilydd, gorau oll. Dyma oes y bardd-bregethwr a dyna oedd dyhead pennaf y glöwr ifanc. Dianc o dywyllwch a chyfyngderau a pheryglon y pwll glo i ryddid y pulpud Cymraeg a chael cyfle i gyflwyno cenadwriau grymus i gynulleidfaoedd cryfion fel ag a welid ym Moriah, Pentre.

Daeth y fuddugoliaeth gyntaf iddo yn llanc deunaw oed, pan gafodd eistedd yn heddi y gadair farddol yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhiwceibr yng Nghwm Cynon. Cafodd gyhoedduswydd mawr ym mhapurau'r cymoedd, a'i alw yn 'fardd cadeiriol ieuengaf Cymru'. Y testun oedd 'Arch Duw a Ddaliwyd'. Bu dathlu mawr yn Nhreforci a'r Pentre, a chynhaliwyd 'Cyfarfod Llongyfarchiadol i Ben Bowen, y Cadeirfardd Ieuanc' yng Nghapel y Bedyddwyr, Moriah, Pentre, a'r capel dan ei sang, ar Chwefror 20, 1897, ar ôl iddo ennill ei ail gadair yn Eisteddfod Gadeiriol Aberdâr, ar y testun 'Y Deffroad Cenedlaethol', dan feirniadaeth un o feirdd amlycaf y cyfnod, y Parchedig Ben Davies, Pant-teg, Ystalyfera. Daliwn i ganu ei emynau ond anghofiwyd barddoniaeth Ben Davies, yn arbennig ei bryddestau yn nhraddodiad y Bardd Newydd. Gwyddom i Ben Bowen gystadlu yn ddygn ar ôl Chwefror 1897, ond colli fu ei hanes o eisteddfod i eisteddod. Cafodd feirniadaethau calonnog gan Dyfed, Gurnos a Gwili, ond ddi o'r eisteddfodau yn waglaw yn ddiethriad.

Ddiwedd Ebrill 1897, penderfynodd adael y lofa i fynd i Academi Pontypridd, ar ôl chwe blynedd o weithio fel glöwr. Cynhaliwyd cyngerdd er mwyn codi arian i'w gynnal yn ei astudiaethau. Bu'r cyngerdd yn y Pentre ym mis Mehefin pan ddaeth Seindorf Bres Gweithwyr Cory a llu o gerddorion ynghyd yn ddi-dâl i helpu'r gŵr ifanc addawol. Gwnaed elw sylweddol o £47, swm digonol am amser maith.

Urddwyd Ben Bowen yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd i'r Orsedd gyda'r teitl barddol 'Euros', enw a ddaeth yn gyfarwydd iawn pan alwyd aelod o'r teulu gyda'r enw hwnnw yn ddiweddarach, sef y Parchedig Euros Bowen, un o'r beirdd pwysicaf. Ni ddefnyddiodd y bardd ifanc yr enw Euros yn aml, a phan gyhoeddwyd ei gyfrol o farddoniaeth, *Durtur y Deffro*, ym mis Tachwedd 1897, lluniodd Dafydd Morganwg englyn i erfyn ar ei ddarlennwyr i brynu'r gyfrol a gostiai chwe cheiniog y copi:

Hwn yw Ben a'i wyneb hardd, – Ben Bowen

Y bywiog gadeir-fardd:

Hwn yw Ben Bowen y bardd

Barai ofid i brif-fardd.

Gwerthwyd 1,600 o gopiau o'r gyfrol. Bwriad cyhoeddi'r gyfrol oedd 'helpu'r awdur i gael addysg', ond er i'r adolygwyr fod yn garedig at awdur *Durtur y Deffro*, ni chafodd Ben Bowen lawer o elw o'r fenter.

Y cam nesaf oedd y pulpud. Dywedodd ei frawd David Bowen (Myfyr Hefin) hyn amdano mewn ysgrif: 'Edrychai Cymru yn mlaen am fardd mawr, ond edrych yn mlaen at fod yn bregethwr mawr wnelai Ben Bowen'. Ond ni fu yn ffodus yn ei uchelgais, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, ei iechyd, yn arbennig pan ddaeth y ddarfodedigaeth i'w flino. I fod yn bregethwr grymus, roedd yn rhaid cael corff cryf ac egni anhygoel, a chryn dipyn o ddawn dweud. Meddai'r bardd ar huodledd, ond, ar ôl iddo adael y pwll glo, ni feddai ar iechyd da i'w gynorthwyo i grwydro o gapel i gapel.

Byr fu ei oes fel cennad. Traddododd ei bregeth gyntaf yn festri Moriah ar nos Iau, Ionawr 10, 1898, a thraddododd ei bregeth olaf yng Nghapel Tabernacl, Brymbo, ger Wrecsam, yn niwedd mis Gorffennaf 1899. Felly prin flwyddyn a hanner a gafodd fel pregethwr; a bu hyn yn siom aruthrol iddo. Rhoddodd ei holl fryd ar fod yn fardd-bregethwr, ond methodd.

Ym 1898 bu farw ei dad, a chanodd yn ei ing am ei golled:

'Rwy'n brudd: a pha'm ni allaf ddweyd, –  
Yr unig 'Ba'm' yw fy mhruddhad;  
Y mae fy mhobpeth – dweyd a gwneyd –  
Mewn byd yw hwn fydd mwy heb dad.

Yr ail beth i'w rwystro rhag gwireddu ei uchelgais oedd gwrthwynebiad amlwg rhai o ddiaconiaid Moriah iddo esgyn i'r pulpud, a hynny oherwydd ei syniadau diwinyddol ac eglwysig. Cafodd aml un o'n beirdd a'n pregethwyr eu trin yn biwus gan eu cyfoedion, ac nid oedd gweinidog Moriah yn meddwl llawer ohono ychwaith. Yn niwedd ei oes, bu ymrafael ac ymgecru trist rhwng arweinwyr Moriah a Ben Bowen. Fel y gwyddom, treuliodd y bardd bron i ddwy flynedd yn Kimberley, De Affrica, yn ceisio cael adferiad i'w iechyd mewn gwlad gynhesach na 'chwm culach na cham ceiliog'. Pan ddaeth yn ôl i'r Rhondda dadleuai Ben Bowen o blaid Cymundeb Rhydd ymhlith y Bedyddwyr. Roedd hyn, yr adeg honno, yn heresi. Capeli Cymundeb Caeth oedd y rhan fwyaf o gapeli'r Bedyddwyr Cymraeg. Cododd ffrae ddiflas a chanlyniad hyn oedd esgymuno Ben Bowen o'i gapel. Fe gofiwn i'r milwr ifanc o fardd, Cynan, yng nghanol helbulon Salonica yn y Rhyfel Byd Cyntaf adael y Bedyddwyr ac ymuno â'r Methodistiaid Calffinaidd am yr un rheswm. Cafodd Ben Bowen gartref ysbrydol gyda'r Methodistiaid Calffinaidd yng Nghapel Jerusalem, Ton Pentre (capel y bu fy nghyfaill, y Prifardd L. Haydn Lewis, yn weinidog yno am dros ddeng mlynedd ar hugain). Rhoddodd y Parchedig William Jones, gweinidog mc Ton Pentre, ddeheulaw cymdeithas iddo a bu yn gwbl gysurus yn ei gartref ysbrydol newydd. A phan fu farw ar Awst 16, 1903, bu'r arwyl yng Nghapel Jerusalem a'r gladdedigaeth ym Mynwent Gyhoeddus Treorci.

Y mae'r braslun o'i fywyd a'i waith yn hynod



Ben Bowen yn  
Kimberley, De  
Affrica, 1901

o ddiddorol am lawer o resymau. Mae'n perthyn i'r un dosbarth o feirdd ac artistiaid a fu farw'n ifanc iawn, fel Golyddan a Thelynog, a gollwyd cyn iddynt aeddfedu fel prydyddion. Ni ellir anghofio cyfraniad Ben Bowen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd siom iddo ddod yn ail am y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl ym 1900 am ei bryddest hynod o dderbynol ar Bantycelyn. Y Parchedig J. T. Job a enillodd y Goron, a theimlai Ben Bowen fod ei bryddest ef yn traethu am gyfraniad Pantycelyn i grefydd Cymru yn fwy pwerus. Gellir cytuno ag ef ar hyn. Bu dadlau brwd rhwng y ddau fardd ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Merthyr Tudful (1901), pan ymgeisiodd Ben Bowen am y gadair a J. T. Job yn un o'r beirniaid. Enillwyd y Gadair ym Merthyr Tudful gan Evan Rees (Dyfed). Ymgeisiodd Ben Bowen am y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym 1902, pan ofynnwyd am awdl ar y testun 'Ymadawiad Arthur'. Nid oedd gobaith ganddo i ennill yr adeg honno gan i T. Gwynn Jones greu un o awdlau mwyaf cofiadwy yr ugeinfed ganrif. Lluniodd T. Gwynn Jones gywydd i'w goffâu ar Fedi 18, 1903, yng Nghaernarfon, a dywedodd y gwir yn llawn:

Ond yn ieuencid y dydd,  
Difwynwyd haf awenydd.

Ac eto:

Rhoed Natur ar daen eto  
Ei gwrid dros dy wely gro –  
Lliw rhos dros y bedd lle'r wyd,  
Gwerdd gell y gerdd a gollwyd.

A chollwyd un a fyddai'n sicr wedi cipio'r  
Goron ac efallai'r Gadair pe bai wedi cael byw  
yn hwy. Gwelir yr addewid yn y gyfrol hardd  
*Cofiant a Barddoniaeth Ben Bowen* (Treorci a  
Thonypandy, 1904), yn arbennig yr englynion  
a geir yn 'Ymadawiad Arthur'. Gweler hefyd yr  
addewid o'r bardd telynegol a fyddai wedi bod yn  
gydymaith da i feirdd fel Crwys. Hoffaf yn fawr  
y delyneg hyfryd hon ar y testun 'Cyfrinach':

I

Paid â chwyno  
Ar dy ran:  
Y mae osgo  
Duw 'mhob man.

II

Cod dy lygad  
At y dydd:  
Myn o'r cread  
Orsedd ffydd.

Dybla'th egni,  
Gwna dy ran;  
A chei gwmni  
Duw 'mhob man.

Y mae Ben Bowen yn haeddu ei gyflwyno ar  
ffilm ddogfen fel telyn a dorwyd yn gynnar, ac  
ar wahân i David Bowen, T. Robin Chapman,  
Cennard Davies a D. Densil Morgan, ychydig  
o sylw a gafodd am ei ddygnwch, ei ddawn, ei  
drybini a'i ddiarddeliad. Roedd Ben Bowen yn un  
a wybu ar hyd ei oes am dlodi, gorthrwm, afiechyd  
a loes. Gwir y dywedodd adeg Streic Fawr 1898:

Mae'n galed fod y glowyr du,  
Sy'n methu cael iawnderau,  
Yn gorfod myn'd heb ddim ond cri  
At ddrws tosturi weithiau.

Os bu undyn byw yn wrthrych tosturi  
yng Nghymru, y Bardd Newydd  
Ben Bowen oedd hwnnw. **B**

# Wrth Fynd Heibio

gan Dewi Jones

Lawer blwyddyn yn ôl bellach, pan fyddai'r arholiadau'n nesáu, fe fyddai'r diweddar Meuryn Thomas a minnau'n gosod englyn arbennig ar fur ein hystafell yn y coleg. Mae'n debyg na wnaeth yr englyn fawr o les i'r marciau ond yr oedd yn gysur ar y pryd. Englyn gan Elfyn ydoedd ac fe ddaw â rhyw gymaint o solas hyd yn oed heddiw pan fydd amser, brys a blinder yn mynd yn drech na'r amynedd:

Er y curo a'r corwynt, – er y nos,  
Er y niwl ar f'emrynt,  
Hyderaf y caf, fel cynt,  
Weld yr haul wedi'r helynt.

Enw llawn Elfyn oedd Robert Owen Hughes. Fe'i ganwyd yn Llanrwst ym 1858 a bu farw yn Nhy'n y Maes, Llan Ffestiniog, ym 1919, yn drigain oed. Bu'n gweithio ym manc y Mri. Pugh Jones am saith mlynedd, banc a ddaeth yn National Bank of Wales yn y man. Ni chyflawnodd ei fwriad o fynd i'r weinidogaeth a symudodd i Lundain i weithio i Gwmni Cyhoeddi Kirby ac Endean yn Oxford Street. Hudwyd ef gan y ddiod feddwol a gwanychodd ei iechyd cyn iddo gyrraedd ei hanner cant. Bu Elfyn yn gweithio ar y *North Wales Pioneer* ym Mae Colwyn ac ar y *North Wales Chronicle* yng Nghae Llepa, Bangor.

Yn ôl ei gofiannydd, Llanowain, bu Elfyn yn is-olygydd y cylchgrawn *Gwalia* yng Nghaernarfon ac yn olygydd *Y Rhedegydd* ym Mlaenau Ffestiniog. Enillodd gadair Eisteddfod Môn yn Llannerch-y-medd ym 1911 ac fe enillodd ei fab Charles Elfyn Hughes, Ap Elfyn, y gadair yng Nghemais ym 1907. Daeth Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol i Elfyn ym Mlaenau Ffestiniog ym 1898 am ei awdl i'r 'Awen'.

Mae yna bethau rhyfedd a diddorol yn digwydd weithiau, yn enwedig o gofio fy mod wedi ysgrifennu'r geiriau uchod am Elfyn gryn dair wythnos cyn Eisteddfod Môn, Amlwch, y llynedd.

Mae'n debyg nad yw Eisteddfod Môn ymhell iawn o feddyliau Emyr a Delian Williams ychwaith, pa le bynnag y bônt – Emyr yn Llywydd Anrhydeddus Llys Eisteddfod Môn wedi blynyddoedd o waith yn yr adran dechnegol, a Delian yn gyn-Gofiadur ymroddedig Gorsedd Beirdd Ynys Môn. Ar ymweliad â Phorth Meirion yr oeddynt pan welsant gadair hardd, cadair Eisteddfod Môn 1911, yr union gadair y cyfeiriwyd ati uchod, cadair Eisteddfod Môn Llannerch-y-medd! Pedrog a Gwili oedd yn beirniadu ac fe anfonodd Elfyn ei awdl i'r 'Gaeaf' i'r gystadleuaeth dan y ffugenw *Bardd Arthan*. Yn y feirniadaeth fe geir y cleddyf deufin yma o frawddeg: 'Wedi'r mwynhad o bigo ffaeleddu'r awdl, cawn fwynhad mwy wrth droi at ei rhagoriaethau'. Yr oedd y beirniad yn gwerthfawrogi fod gan Ionawr ei wên hefyd:

Weithiau'r haul yn brydferth rydd  
Ar ael Ionawr lawenydd.

A beth a feddylwch chi o'r gair anghyffredin 'triplol' yn y llinell 'Triplol antur y plentyn', sy'n disgrifio plentyn yn dawnio'n ysgafndroed?

Fe ddaw i gof y ddeuawd boblogaidd honno am y mul bach, a genid gan Mona Jones ac Owen Glyn Parry o Fro Goronwy yn y tridegau a'r pedwardegau:

Trip here, trip there, take care, take care,  
Never slipping, always tripping.

A dyna un neu ddau o'r rhesymau paham y cafodd Elfyn eistedd yng Nghadair Eisteddfod Môn, yn Llannerch-y-medd, ddydd Mawrth y Sulgwyn, 1911. Ac fe orffennaf innau'r pwt yma gydag englyn cyntaf awdl 'Y Gaeaf':

Cenir am haf, 'haf o hyd', – eto mae'r  
Tymhorau yn syflyd  
Wrth ddeddfau'r Hwn biau'r byd,  
Heb aeaf, heb haf hefyd.

\* \* \*

Gwaith peryg yw clirio. Yn fuan iawn fe gaiff dyn ei hun yn cofio, myfyrio a rhyfeddu yng nghanol llu o ddarnau papur. Ceir ambell lythyr diddorol, ambell nodyn anghofiedig ac ambell ddarn o farddoniaeth wedi ei nodi ar ddarn o bapur a'i roi o'r neilltu. Dyma un sy'n cyfeirio at blentyn yn cerdded adref hefo'i dad o Eisteddfod Gadeiriol Marian-glas yn y tridegau yng ngolau'r sêr. Fe'i hysgrifennwyd flynyddoedd yn ôl ar gefn amlen, am rywbeth a ddigwyddodd flynyddoedd cyn hynny. Melys y myfyrdod:

Cerddais  
dan bowlen y sêr  
a'm braich yn ddwfn  
ym mhoced fy nhad  
a'i sicrwydd yn symud  
yn gynnes wrth fy ochr.  
Nid oedd ofn ar gyfyl  
na seren gynffon na chri tylluan.  
Cerddwn y wrol gydag ef  
i fol y fuwch ddu,  
fy ffydd yn ei gadernid solat  
yn cau fy llygaid  
am lathenni melys,  
a thramp ein troedio cyson  
yn ddeuawd eofn  
ym mhlygion y nos.





\* \* \*

Dyma bennill dienw a welais yn nyddiadur  
fy ewythr, yng nghanol cymysgedd  
diddorol o nodiadau amaethyddol,  
rhagolygon y tywydd a hanesion lleol:

Ni welais aeaf oer ond aeth  
I'w feddrod caeth i huno,  
A heddiw gwelaf wanwyn tlws  
Yn curo'r drws am goso.

Fe fyddai'r awdures Siân Lloyd Williams yn  
dweud yn aml: 'Fe fethodd y gaeaf sawl tro ond  
'fethodd y gwanwyn erioed'. A dyma gerdd, o  
frethyn cartref, sy'n mynd i'r un cyfeiriad:

## Gwanwyn

Ni bu'r ddrycin mor ddyfal y llynedd,  
Ni bu eira na rhew dan fy nhroed;  
Unwaith eto fe fethodd y gaeaf  
Â chyrnaedd yn brydlon i'r oed.

Eleni daw eirllys trwy'r barrug,  
Daw'r friallen i fri dan y coed;  
Fe fethodd y gaeaf yn aml,  
Ond 'fethodd y gwanwyn erioed.

\* \* \*

Nid oes a wnelo'r stryтин canlynol ddim oll â  
beirdd na barddoniaeth hyd y gwn i, ond mae'n  
rhaid i mi ei gynnwys rhag ofn bod eglurhad yn  
llechu yn rhywle y tu draw i'w gyhoeddi.

Mae tref Aldeburgh yn swydd Suffolk cyn belled ag y  
medrwch chi fynd i'r dwyrain o Sir Fôn heb wlychu eich  
traed a heb ddechrau anghofo'ch Cymraeg. Dyna'r dref a roes  
gartref i'r cerddor enwog Benjamin Britten ac fel tref glan y  
môr fe ddeil i ddenu'r ymwelwyr. Cerddais ar hyd y Stryd Fawr  
gan edrych ar yr adeiladau o'r ddeutu. Yr oedd un adeilad  
yn debyg i gapel wedi ei droi'n dŷ annedd ac nid oes dim yn  
anghyffredin yn hynny erbyn hyn. Ond uwchben y ffenestr  
uchel yr oedd dau air wedi eu torri mewn llythrennau haearn  
- GYFFESWYR HOUSE. Pam tybed? Fe wn i fod John Wycliffe  
yn un o'r Cyffeswyr cyntaf ond a oedd gan ei sect gapeli? Fe  
gredai Wycliffe mai'r Beibl oedd y prif awdurdod ac nid yr  
eglwys. Ond sut y crwydrodd y Gymraeg mor bell â hyn? Os  
oes gennych eglurhad, peidiwch â bod yn brin o anfon gair.

## Cofio Rhys

### Erw Lon, Ffostrasol

Yffach! Ble'r est ti Bachan  
a'r teulu'n tŷ rownd y tân?  
Dy wyrion, pawb â'i stori,  
yn gweled dy ishe di;  
Cymdogion rhadlon yn rhes -  
dion all weud dy hanes.

Mae'r 'wyth' yn esmwyth yn ôl  
yn y tresi'n Ffostrasol,  
a Lil mewn rhyfel o waith  
yn gwenu'ch stori ganwaith;  
Ei gweud a'i gweud heb weud gair ...  
Oedi wrth weld dy gadair.

Taerach bob dweud yw'r stori,  
ond anodd ei hadrodd hi  
â'r galon wag yn gragen  
o wylo yn gwisgo gwên.  
Ond dyna ei dweud yn ei du;  
anodd ei dweud heb wenu.

Dy wên oedd bywyd yno;  
Eu gwir oedd llestr dy go',  
Eu deddf oedd d'ymadrodd di,  
Eu hystyr, Rhys ble'r est-ti?

*Gwynfor ab Ifor*

# Tlysau Barddas 2010

Dewiswyd yr englynion ar gyfer Tlws Coffa W.D. Williams eleni gan Ceri Wyn Jones yn unig, gan fod ei gyd-enillydd y llynedd, Alan Llwyd, yn dewis y cerddi ar gyfer Tlws Coffa Roy Stephens. Dewiswyd y cerddi ar gyfer Tlws y Gerdd Rydd gan Dafydd Pritchard.

Anfonwch eich pleidlais at Olygydd *Barddas*, trwy'r post neu drwy e-bost (gweler y cyfeiriadau ar dudalen 4), gan nodi eich dewis cyntaf yn gyntaf, wedyn eich ail ddewis, a'ch trydydd dewis yn drydydd. Anfonwch eich dewis at y Golygydd erbyn Mehefin 25, 2010.

## 1. Tlws Coffa W. D.

### Williams

## Dewis Ceri Wyn Jones

### 1. Gwynfor

*(Wrth edrych i lawr ar ddyffryn  
Tywi o'r Garn Goch)*

Gro mân y geiriau meinion a gludir  
O'n gwlad gan yr afon;  
Mae i rai o'r Gymru hon  
Ddaeareg egwyddorion.

*Hywel Griffiths*

### 2. Eira

Ac fe ddeuent bob yn blentyn hwyliog,  
i wyllo aderyn  
y fall yn ei blufio'i hun.  
Ei waed a lifodd wedyn.

*Tony Bianchi*

### 3. Byw yn Fain

A diffyg lle bu digon, – a fory  
Yn fôr o ddyledion,  
Brysio mae'r siwtiau breision  
I dynnu dyn dan y don.

*Huw M. Edwards*

### 4. Graffiti

Mae artist blin y ddinas – uwch waliau  
y chwalu cymdeithas  
ar waith yn rhoi campwaith cas  
ei reg enfawr ar gynfas.

*Artist*

(ail ar gystadleuaeth yr englyn)

### 5. Graffiti

Yng ngwlad y beirdd afradlon, mor gynnil,  
mor gain ydyw ymson  
brwd y glasnw di-sôn:  
y tag sy'n dwedyd digon.

*Tony Bianchi*

### 6. Er Cof am Dic Jones

Drwy'r tir hwn, pan geisiwn gân i'n hudo  
â'r holl fyd yn griddfan,  
draw ymysg yr adar mân  
daw canu Dic ei hunan.

*Tudur Dylan Jones*

### 7. Sul y Blodau, 2009

Pob bedd yn isel felyn – o'u haddurn  
Ond ar glawdd gyferbyn  
Heidient yn dalsyth wedyn –  
Harddach na blodeuach dyn.

*Donald Evans*

### 8. Harry Patch

*(Y milwr Rhyfel Mawr olaf, a fu farw  
yn 111 oed ym mis Gorffennaf 2009)*

Yn iach, â chwiban uchel, – yr est ti  
I'r storm dros y gorwel;  
Dwâd yn ôl yn dawel  
A sôn dim am Basiondél.

*Twm Morys*

### 9. Y Ddwy Ferch o Batagonia

O chwith, fe welwch chwithe – mor unig,  
Mor anodd yw'r siwrne;

Ar y daith o Wladfa'r De  
Mae'r paith ym mro y Pethe.

*Idris Reynolds*

### 10. Er Cof am Dic Jones

Ac yntau'n gorffen llenwi – ei storws  
Wrth i'r storom dorri,  
Yn ddi-os gadawodd hi  
A'i grawn ar agor inni.

*Dai Jones*

### 11. Senedd

Tŷ pren glân mewn top bryn glo, a llechi'n  
Holl achau amdano;  
tŷ wrth angor, at forio,  
pan ddaw dŵr i'w harbwr o.

*Tony Bianchi*

### 12. Ein Hanthem Genedlaethol (dan law'r diweddar Tich Gwilym)

Ar Faes caed môr o fiwsig – ac i lu'n  
bloeddio 'Gwlad!' yn lloerig  
roedd perthyn i Gymru'n gîg,  
Cae Awst yn wefr acwstig.

*Annes Glynn*

## 2. Tlws Coffa Roy Stephens

## Dewis Alan Llwyd

### 1. Aros Mae

Aros mae drwy'r oesau maith, hen genedl  
A hen gân ei gobaith;  
Er concwest, ei gorchestwaith  
Fu cof a thwf cyfoeth iaith.

Aros mae'n ei gwae, a'r gân yn dawel,  
Yn daeog a thruan;

Un tro bu tystio, bu tân,  
Bu draig a Mab Darogan.

Aros mae dan warchae hir, ond cyfyd  
Y Cof mewn diffeithdir  
Am y gân, am rym y gwir,  
A'i halawon a glywir.

Aros mae drwy'r oesau maith, a'i hen gân  
Yn ailgynnau gobaith,  
A'i hen dân, fu'n frwd unwaith,  
Dry'n her i adfer ei hiaith.

*Ieuan Wyn*

### 2. Gwynt

Yma i ruo mae'r rhewynt,  
A minnau'n gweld min y gwynt.  
Drwy Aber daw i reibio  
Slaes wrth slaes â'i rasal o  
Groen y tir, gyr ewyn ton  
Yn ferw gan lafoerion.

Daw'n un anterth o chwerthin  
Hyd y ffyrdd heb 'nabod ffin.  
Daw heb barch at enaid byw  
Drwy'r cread, am nad ydyw'n  
Malio dim am hwyliau dyn  
Na'i reol, mwy na'r ewyn.

*Huw Meirion Edwards*

### 3. Caerdydd

(Mae dros 20% o blant cynradd Caerdydd yn  
derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.)

I'r brifddinas eirias hon,  
i dir glas adar gleision,  
dy iaith sy'n gorymdeithio  
â'i geiriau brith, gan greu bro  
newydd. Mae'r darlun eang  
ar hyd ein sir dan ei sang.

Ar hewlydd Caerdydd mae dôr  
i'r Gymraeg yma ar agor,  
ac nid dôr gilagored:  
yn Nhrefnau mae'r ddôr ar led;  
ydy wir, mae iaith y dydd  
yn Nhreganna ar gynnydd.

Yn Sblot caiff rhesi o blant  
eu diwallu â diwylliant;  
os awn ni i'r Eglwys Newydd  
iaith y plantos yno sydd  
yn canu yn acenion  
Cymru'r ddinas eirias hon.

Pa un a wyt yn poeni  
neu'n llawn gobaith i'n hiaith ni,  
dwed hwre i'w hyder heb  
swnian yr un casineb.  
Nid gwell Cymro'n Eifionydd  
nag ar y daith i Gaerdydd.

*Iwan Rhys*

#### 4. Pistyll Rhaeadr

Yn y gwanwyn, y geni  
yw'r llef ar wefusau'r lli,  
yn rhannu'i gân â'r hen gwm  
o'i orlif wedi hirlwm.  
Daw newydd wisg i ddisgyn  
dros y gwddf yn dresi gwyn,  
i dasgu sêr, diosg siôl  
a gofid byd gaeafol.  
Llanw wyt yn llawenhau  
yn hoen fy ngeni innau.

A phan ddaw'r haf i'r afon,  
ewyn llif sy'n dannau llon,  
ei ffrwd sy'n hwiangerdd ffraeth  
amdanom, ei dewiniaeth  
yn adain i ehedeg  
draw at lwyth y tylwyth teg.\*  
Swyn y nos mewn atsain nant  
a'i nwydus, nwydus nodiant,  
gwna im orwedd mewn gweddi,  
gwisg yr haf amdanaf i.

Hydref a'i gân ddolefus  
ddaw eto i'r fro ar frys  
drwy y glyn, a nodau'r glaw  
i wylo rhwng yr alaw.  
A thrwy goelcerth y perthi  
daw tres lladrones y lli  
i ddwyn haf a'i hedd yn ôl  
i'w heinioes hir linyndol.  
Heddiw'n rhwysg fe ddaw yn rhu  
i hydref fy rhaeadru.

Gefyn yw y gaeafu  
a'i raib i gaethiwo rhu,  
i gloi'r em ym maglau'r îa  
ar orig yn yr aria.  
Ond hudol yw'r meirioli  
o'r llen fe ddaw côr y lli,  
un diferyn, nodyn yw,  
un Eden heno ydyw.  
Daw awen i'r dadeni,  
rhimyn aur o harmoni.

*Penri Roberts*

#### 5. Y Parchedig Aled Ap Gwynedd (1943–2003)

Gyda'r dewraf y safai – geiriau gwir  
y Gair a gyhoeddai;  
dros ein hachos ymladd 'wnâi,  
a byw'r gwaith a bregethai.

Meiddiai, â neb yn meiddio, ddweud a gwneud  
y genhadaeth honno,  
gan roi a rhoi dros ei fro  
a'i addoldai'n ddi-ildio.

Hoffai arf anghydfurfiaeth na fyddai'n  
troi'n gyfaddawd llywaeth:  
am nad cymod cymod caeth  
rhoddai awch ar heddychiaeth.

Taranai'n llawn trueni, a brathu'n  
bur ei iaith mewn gweddi:  
dweud y drefn wrth ddau neu dri  
ond â'i stŵr yn dosturi.

Taerai dros ei Iesu tirion; corddai  
mewn tŷ cwrdd yn gyson;  
tynnai'n groes rhag creu tiwn gron;  
dadrigolai'r dirgelion.

A bu, ar wely creulon, ei farw'n  
bregeth fawr o'r galon;  
yn fraw ac yn falm i'r fron,  
yn chwys oer a chysuron.

*Ceri Wyn Jones*

#### 6. Ionawr 2010

O'r diwedd, natur daear – ar ei thro  
O'i threm amyneddgar;  
Miniog yw ei chymun gwâr  
A'i dawn yn fferdod anwar.

Dim ond amddiffyn ei hunan – a wna  
Ag egnion syfrdan  
Rhag nwyon tynion ein tân  
Yn wenwynig o'n hanian.

Ei gwynt a finia'i gantawd – yn garreg,  
Ac eira'i hanianawd  
Yn fyddin ddigyfaddawd  
O ddi-ffael yn nydd ei ffawd.

Yn y ffrae rhwng dyn a daear – ond un  
Gyll y dydd hunangar;  
Nid y blaned aeddfed, wâr  
Fydd honno, gynfodd anwar.

*Donald Evans*

### 7. I Gyfarch Dr Ian a Helen Roberts, Y Bala ar achlysur eu priodas aur

Y mae Awst yn ymestyn  
i rwymo y dwylo'n dynn,  
a'r cariad heb ei ddatod  
yw'r rheffyn byw praffa'n bod.  
Clo maith yw'r cwllwm o heddi;  
hualau yw'r ymgeledd.

Dyro aur, fodrwy araul,  
dyro wên fel pelydr haul  
i daenu hoen hyd y nen,  
a daw eiliad o heulwen  
i ymuno ym mwyniant  
oriau cain yr hanner cant.

Y mae aur yn ymaros  
â'i loywder yn nyfnder nos,  
a dawnys euraidd yn seren  
ar hynntiau'r lloer hwnt i'r llen,  
hyd nes daw y nos â dydd  
â'i eurddwrn ar y wawrddydd.

Ieuengoed nad â'n angof  
yw hanner cant haenau'r cof,  
a byw yw'r wefr o barhad  
ag aur yn ffrwd o gariad.  
Hanner cant yn ei anterth;  
dafnau oes yn dwf o nerth.

*Gruffudd Antur*

### 8. Cyfarch Alun Wyn Bevan yn 60 oed

Awel na fyn dawelu  
Ddaw o dardh y Mynydd Du;  
'Does gostrel i'r awel hon,  
Nac un hoe i'w hegnion,  
Ond yn ei dawnys, gwadnau dyn  
A welir – a naid Alun!

Canaf i'w rhawd, cawn fawrhau  
Awel wynt y talentau;  
Fel Hobbs ar y werddaf lain  
Gwyrar i'w off-dreif gywrain,  
Ac athro'r ddysg ragorach,  
Dysg ddi-gur yr awyr iach!

Rheolai ef gaeau'r wlad,  
Unbennaidd ei chwibaniad!  
Dyn praff ar Rodni Parêd  
A dofwr rycwyr Dyfed,  
Heb angen sbectol solet  
I weld bai, fe'i nodai'n nêt!

Taer yw'r llais sy'n paentio'r llun  
Yn dalog o faes Dulyn;  
O Doulouse daw ffrwd o liw  
Yn ei adrodd diledryw,  
A grym Cymraeg yr Aman  
Trwy'r awyr yn taenu'r tân.

Trigain pluen eleni  
Yn ei het a blannwn ni,  
A'i ddilyn o'n sedd eilwaith  
Wrth iddo dwymo i'w daith,  
A cheith yr awel chwythu  
Yn ddi-daw o'r Mynydd Du!

*Robat Powel*

## 3. Tlws y Gerdd Rydd

### Dewis Dafydd Pritchard

#### 1. Carreg Holtt (er cof am Carwyn James)

un a oedd yn ddau  
o'r dechrau'n deg  
y Carwyn cudd  
a'r un cyhoeddus  
ei nef iddo'n gynefin  
yn unig yn annwn  
ein hodyn hyder  
yn or-bryderus  
yn un ohonom  
yn wahanol  
athrylith o reolwr  
mor ddidoreth  
enaidd rhwystredig  
ar ben ei ddigon  
y corff holliach  
yn grach ar groen  
yn dwlu ar ganu Gwenallt  
cyn disgyn yn ysbail dost  
i'w dre-din yn Amsterdam  
a'i gario'n glwyf agored  
lan tyle Carreg Holtt

*T. James Jones*

#### 2. Mam

Aeth blwyddyn gron ers imi golli un  
a roddodd anadl bywyd ynof fi,  
blwyddyn heb allu'i chael yn rhan o'r llun  
na dod o hyd i'r gerdd amdani hi.  
A phan fo geiriau'n methu dweud yn iawn,  
a'r holl sillafau'n swm ac eto'n fud,  
mi wyddwn fod 'na rai llinellau'n llawn  
o geisio dweud, ac eto'n wag i gyd.  
Ac er bod rhai o'r geiriau'n dechrau dod  
o hyd i'w gilydd fesul un neu ddau,  
a mynd i'w trefn yn daclus nes eu bod  
yn dweud am hiraeth na all fyth leihau,  
mae'n rhyfedd, rhyfedd meddwl sut mae iaith  
yn dweud y cyfan ... ond heb ddweud digon chwaith.

*Tudur Dylan Jones*

### 3. Gwynfor Evans, Arwr

Capelwr, nid rhyfelwr,  
Evans, Gwynfor: ganwyd  
Yn Y Barri. Y Barri!  
A ddichon ddyfod o le  
Mor dila â Barry Island –  
Yn hytrach na'i ddyfod, dyweder,  
O ganol aruthredd a grymuster Eryri –  
Wr yn arwr i ni?

Fe ddichon, ac fe ddaeth  
Un gŵr anarferol ei arwriaeth,  
Sef arwriaeth y 'dal ati'.  
Ein hen arwriaeth 'Geltaidd' ni  
Oedd clamp o ddechrau ymosodol  
(Ysol-orfoleddus dân siafins)  
Ac os nad oedd hwnnw'n un buddugol,  
Yna adref yn ein hól â ni  
I bwdu a digalonni.

Arwriaeth newydd y gwron hwn o'r Barri  
Yn fy hen Feirionnydd i,  
Er enghraifft, oedd dal ati –  
Hyd yn oed ar ôl  
Aflwydd o aflwyddiant etholiadol.  
Dysgodd hwn inni  
Beth oedd gwrthod ildio,  
Beth oedd peidio ag anobeithio.

Ac, o ddygnu arni, sylweddolasom ni –  
Mewn modd gwahanol –  
Ein bod ni yn genedl, a'n bod ni yn Gymry.

*Gwyn Thomas*

### 4. hud yn Nyfed

*(ger Ffynnon Non, Tyddewi, Ddygwyl Badrig 2008)*

Ar ddydd na wŷr wyrth,  
mae prinder cyrff  
i'w hatgyfodi heddiw  
ar y morfa; ni fyn 'run  
garreg styfnig syflyd iod  
heb sbardun mell  
argoelus; dim sôn am neb  
all gynnig gwellhad  
llwyr i lygaid dall.

Nid erys bellach ond  
rhyw bethau bychain,  
rhad diwetydd: cysonder  
ocheneidiau'r môr dan  
bregeth euraid adar,  
a pharablu dibaid  
dyfroedd cred am hud  
fu gynt yn Nyfed  
dan wylad angylion.

*Christine James*

### 5. Tylwyth

Ysgerbwd  
haearn  
ar gyrion cof,  
  
ac ar ei ôl  
craith esgor  
dros gedor cwm,  
rhych dial  
ein blodeuwedd ddur.

Wrth ddianc  
rhag y ddeufyd,  
rhag adnodau cic a dwrn,  
gosodais rhyngom  
y Gymraeg,

ac ar gyrion cof  
ysgerbwd  
haearn  
yn gofeb gwarth.

*Frank Olding*

### 6. Dinas Dinlle

Fe gefais,  
am ddifwyno'r dryw,  
fy nhras.

Trwy warth  
a lloggach  
cefais dylwyth,  
enw, cymar

yn wymon  
a broc môr.

Di-hud  
fy medydd boen


a'm bod  
mor eiddil  
â'r goleuni glas ei hun.

*Frank Olding*

# Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet

Gwyn Thomas

Bydded, darfydded,  
A bydded eto:  
Dyna ydyw'r cylchdro,  
Dyna ydyw olwyn bodolaeth ...



Yn y casgliad hwn o gerddi gan Gwyn Thomas, ac yntau bellach yn daid, y mae'r bardd yn ymwybodol iawn o 'olwyn bodolaeth'. Thema amlwg iawn yn y gyfrol hon yw treigl amser, a'r ffaith ein bod ni, fel y dywed mewn cerdd arall, 'Wedi ein rhaglennu, ryw ben, / I beidio â bod yma'. Er bod yma filwrio yn erbyn amser, y mae yma hefyd ildio yn raslon i deyrnasiad amser, i symud o'r naill du a rhoi ffordd i genedlaethau newydd, ac yn enwedig i wyrion. Yng nghanol 'murmuron tragwyddoldeb' y mae yna swm a chwerthin plant, ac wrth i olwyn bodolaeth droi, y mae'r bardd yn dod yn gyfarwydd â Sam Tân, pywyr rênjyrs swnllyd, ac ambell ddafad swrrealiaidd sy'n bwyta cig. Ac yng nghanol y dwys, y doniol a'r direidus, fe geir cryn dipyn o ddychan crafog am ein byd cyfoes, ein 'chwningod tjioclet', a'n hen, hen ddrygioni.

ISBN 978-1-906396-27-5  
Pris: £6.95

# Adolygiadau Hwyr (36)

gan Bobi Jones

*Meistri'r Canrifoedd* (1973); *Meistri a'u Crefft* (1981); *Ati Wŷr Ifainc* (1986)

Carwn yn gyntaf ddiolch i Mrs Monica Maciwan am ddod i'r bwlch yn ystod fy nghyfnod o wyliau. Yr wyf yn cytuno â'r hyn a draethodd hi i raddau, er y byddwn wedi'i eirio mewn ffordd wahanol, fwy gwrywaidd efallai.

Yr hyn sy'n bwysig i'w sylweddoli mewn cyfnod pryd y mae cynifer o'n beirniaid llenyddol yn osgoi dull Cymreig a gwreiddiol o ymwneud â theori yw gwreiddioldeb Saunders Lewis ledled adeiladwaith ei feirniadaeth. Sylwasom ar unigrywiaeth y Glasuraeth a'r Rhamantiaeth a ddadlennwyd. Gyda'i ddarganfyddiad cyntaf cafwyd clasuraeth gymdeithasgar Dafydd Nanmor, a'i chanfod hi'n ffenomen ddisglair y gellir ei mwynhau'n esthetig a'i pharchu'n feddyliol. Cyflwynodd naws *Clasuraeth* wâr, ddiddorol, a deallol inni, a hynny o fewn cyddestun nifer anghyffredin o feirdd meddylgar yn amddiffyn hunaniaeth genedlaethol, tan ganu serch a natur, a hynny mewn ffurf anghyffredin. Darluniodd lenyddiaeth ganoloesol orchestol, yn asgwrn cefn i'n traddodiad oll.

Yr oedd yr ail ddarganfyddiad yr un mor wreiddiol yn ei ffordd ei hun, gyda ffigur cawraidd Williams Pantycelyn (a'i Gywion) yn ymestyn dros y cwbl. Dyma *Ramantiaeth* od a feddiannwyd gan Gristnogaeth i raddau cwbl anghyffredin, pryd yr aeth canu seciwlar yn ymylog ac yn bur denau'n ddeallol. Un llenddull annisgwyl, sef yr emyn, a ormesodd ar y llenddulliau oll gan greu diwylliant llenyddol a cherddorol unigryw, Cristnogol, a dwfn nes cyrraedd adfeiliad Oes Fictoria gyda'i rhagrith, ei phragmatiaeth, ei balchder, a'i thaeogrwydd ymosodol; dirywiad a ddarluniwyd gydag arddeliad gan Hywel Teifi Edwards. Pobl fel Dafydd Jones, Morgan Rhys, a Dafydd William a lewyrchai yn sgil Pantycelyn yn y ddeunawfed ganrif. Ac Edward Jones, David Charles (yr hynaf), Robert ap Gwilym Ddu, Pedr Fardd, Ann Griffiths, Ieuan Glan Geirionydd, Eben Fardd, ac Islwyn oedd etifeddion Pantycelyn yn y ganrif wedyn. Gellid cwyno na chawsom gan y rheini fawr o loddest a gwlanenogrwydd athrawiaeth Rhamantiaeth y gwledydd imperialaidd. Ond bu dyfnder ysbrydol a chymhlethrwydd seicolegol y profiad, llymder y synhwyrâu, a threiddgarwch y myfyrdod yn ystod anterth ein Rhamantiaeth yn amheuthun. Dyma ail

ddarganfyddiad Saunders Lewis. Ac yr oedd yr un mor ecsentrig â'i ddarganfyddiad cyntaf.

## Ei Drydydd Darganfyddiad

Ond yr wyf am sôn am ei drydydd darganfyddiad a oedd yr un mor anghyffredin eto â'r ddau gyntaf. Sef ei sylweddoliad personol, mewnddrychol o *Foderniaeth* unigryw Gymreig.

Credaf mai priodol yw bwrw golwg dros ddau bwylsais (a sôn yr wyf am anterth Moderniaeth yng nghyfnod Parry-Williams, Gwenallt, Waldo, ac Euros mewn barddoniaeth). Yn gyntaf, canfu Saunders Lewis, wrth aeddfedu, nad gelynon i'w gilydd oedd Clasuraeth Gymraeg a Rhamantiaeth Gymraeg. Yr oedd yr ail yn gynwysedig yn y llall. Meddai, 'Nid peth gwrthwyneb i ramantiaeth yw clasuraeth, ond peth sy'n ei gynnwys mewn cyfuniad llawnach a dyfnach'. Yr oedd cenedligrwydd ysbrydol a myfyrdod uwchben diwydiannaeth, ac unbenathdod canoledig a chwalfa syniadol yr ugeinfed ganrif yn gallu eu cydlynu'n Foderniaeth gadarnhaol a chyffrous. Yn uniad y ddau fudiad mewn Moderniaeth berthnasol, cafwyd gwreiddioldeb amheuthun eto a'i gosodai ar wahân i'r tueddiadau Ewropeaidd llai cadarnhaol.

Hoffai Saunders Lewis yr ymsafiaid Proffwydol. Gellid gwneud Gwyddoniadur cyflawn o'i broffwydoliaethau di-rif. Ond golygai'r ymagwedd honno iddo ef yn bersonol ei fod yn tueddu i edrych ar Foderniaeth o hyd (a'i chyw dethol Ôl-foderniaeth amhenderfyniadol a relativ a ddôl i'r golwg yn ei gwedd blentynnaidd yn yr *avant-garde*) fel gŵr a syllai drwyddynt at ddyfodol aeddfetach. Hynny yw, hyd yn oed pan sgrifennai am y bymthegfed neu'r ddeunawfed ganrif, meddwl yr oedd am ddiwedd yr ugeinfed ganrif a'r unfed ar hugain, ac am y rheidrwydd i uno a chydlynu celfyddyd a fygythiai fynd ar chwâl.

Rhoddodd ef uchelgais i lenyddiaeth Gymraeg gyfoes. Ond yn gyntaf rhybudd. Os gedwch lonydd i Gymru, fe lithra'n ôl i fod yn genedl glwyfus mewn cornel, tan fodloni ar limrig, tan ddyrchafu caneuon munud, tan fawrygu storïau arwynebol, a chan adael dramâu i'r cŵn. Fe gynhyrcha farddoniaeth berfformiol denau y gellir ymateb iddi â chanfed ran o'r ymennydd. A hyffordda genedl ar ymylon Ewro i ddygymod â diwylliant â nam meddyliol arno. Mae ystyr myfyrdod ac ymgodymu â phrofiadau dwys, megis lenyddiaethau eraill, yn mynd





fwyfwy y tu hwnt i fedr yr iaith. Dyna duedd y Sefydliad diwylliannol Cymreig. Yr hyn a awgrymai Saunders Lewis oedd y gallai llenyddiaeth Gymraeg a'n llenorion ifainc yn anad neb greu Moderniaeth unigryw, wrth ei thrwytho'i hun yn ei Chymreictod unigryw ei hun. Byddai'n wahanol i Foderniaethau gwledydd eraill, ond yn gyd-anrhydeddus.

Pan luniodd Saunders Lewis ei ysgrif bwysig ddychmyglon 'Dafydd Nanmor', gyda chymorth Taliesin, proffwydol oedd y cwbl. Mab darogan oedd. Hynny yw, yr oedd y bardd-feirniad yn creu yn y meddwl ansawdd Moderniaeth ar oleddf. Dieithrwch Saunders Lewis yng Nghymru yng nghanol yr ugeinfed ganrif oedd iddo weld cysylltiad rhwng llenyddiaeth 'a bod trefn yn y greadigaeth, mai cyfundrefn ddisiom oedd Bod, a bod cytgorf i'w glywed oddi tan holl sŵn amherffaith ffeithiau'. Ni allaf orbwysleisio arwyddocâd y datganiad hwnnw. Dyma asgwrn cefn Moderniaeth Gymreig.

Fe ganfu mewn clasuraeth egwyddor a safai goruwch y tri mudiad, ac a'u cymhwysai i'r dyfodol. Cymhwysai ragoriaethau Rhamantiaeth – y pwyslais ar ryddid, goddrychedd, gwylltineb; ynghyd â rhagoriaethau Moderniaeth – cyfoesedd ymrwymiad iaith a thema mewn newydd-deb; ynghyd â beirniadaeth adeiladol ar Ôl-foderniaeth a'i thanseiliad relatif plentynnaidd. Dyma adnodd o egwyddor. Canfu'r hadau mewn Rhamantiaeth a Moderniaeth (unochrog) o duedd a oedd yn groes i fodolaeth iaith a llên. Dyma'r elfen Ôl-fodernaidd, neu'n hytrach Ffug-fodernaidd, a oedd yn groes i hanfod bywyd. Ac fe ddefnyddiodd Saunders Lewis ei welediad i hyrwyddo'r parhaol. Tynnai drefn allan o'r gwareiddiad a garai drwy gydol ei hanes. Er mai delweddu cartrefi a phobl ddiriaethol a wnâi, crynhôl'r rheina mewn troad neu symbol ieithyddol. Wrth greu trosiad estynedig diderfyn o'r fath, yr oedd yn gwneud rhywbeth amgenach na'r llythrennol. Fe godai'r

llythrennol i fyw mewn cyd-destun proffwydol trawsffurfiedig a dyrchafedig. Ysgogai'r syniadaeth i ailfeddwl posibiladau 'cadw' a 'thwf' ac 'amddiffyn' y tu hwnt i ymwneud pitw gwleidyddiaeth. Canu'r drefn ddyfodol oedd bwriad barddol yr ysgrif ar 'Ddafydd Nanmor'. Ar gwrthrychol hwnnw – ar y pryd – oedd ei offeryn i gyflawni'r peth modern yn ymarferol ddelfrydol.

Mawr oedd cyfrifoldeb Saunders Lewis tua 1924 pan sgrifennai *Williams Pantycelyn*. Ef, yng Nghymru (Gymraeg a Saesneg), ar y pryd, oedd yr ysgolhaig, y bardd, a'r dramodydd dyfnaf ei amgyffrediad a'i ddychmyg a'i ddawn a'i ddoethineb i wynebu her Moderniaeth. Dirnadau'r rhagor rhwng y gwir a'r gau, a beth oedd yn digwydd. O'i ddeutu yn y caeau, pynciai o hyd sentimentalwyr llipa eu deallusrwydd gan gw-hwian am adar a blodau mewn odlau. Câi rhai eraill arogli o hyd ddwyter arddull ac arwyddocâd esthetig y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ysictod nihiliaeth a relativrwydd, eithr – fel Cynan – heb fin deallolrwydd na chwaeth. Roedd Parry-Williams yntau yn llawer rhy ofnus. Saunders oedd yr unig Gymro a fedrai ymgodymu'n gelfyddydol ag allanolion mwyaf adoleseent Moderniaeth megis dada a'r *avant-garde*, a'r holl allanolion 'arbrofol' blinedig a gymerai flynyddoedd lawer i gyrraedd Porthmadog. I'r sawl na feddai ar angerdd deall a phrofiad perfeddiol Saunders Lewis, yr oedd deniadau dirprwyon deall a phrofiad yn arwynebolion a gynrychiolai ddyfodol di-glem. Ond oherwydd ei fyfyrddod disgybledig am anian ysbrydol Cymreictod cadarnhaol mewn Clasuraeth, Rhamantiaeth a Moderniaeth, gallodd ysgogi Moderniaeth Gymraeg unigryw, a chreu cyfuniad nad ydym o hyd ond yn dechrau'i amgyffred. Sylwer: nid Moderniaeth y gwledydd unffurf, mawr, a llywodraethol oedd. Ond Moderniaeth gyffrous mewn gwlad ddioddefus. Gwlad eithriadol o oludog yn brofiadol – yn gymdeithasol, yn seicolegol, yn ddiwylliannol. Gwlad glwyfus, ond a allai, ped ewyllysiaid'n wirfoddol unplyg, wynebu'r her gydag adnoddau effro, hydeiml, a ffrwydrol. I Saunders Lewis, gyda'i dri darganfyddiad, cyfannu oedd ystyr ateb her pob cyfoesedd.

Yn ei gyfrolau *Meistri'r Canrifoedd*, *Meistri a'u Crefft*, ac *Ati Wŷr Ifainc*, ceisiodd Saunders Lewis ddysgu i'w gyfoeswyr a'i ddisgyblion sut i feddwl am lenyddiaeth Fodern a fyddai'n Gymreig. Yr oedd yna rwystrau mawr. Nid wyf yn meddwl

am ddiogi nac anallu addysgol yn unig. Gellir trechu'r rheini weithiau mewn cyfnod byr. Y tri phrif rwystr oedd gwaseidd-dra'r meddwl poblogaidd ac eilradd, y math o ramantiaeth faldodus a erys yn ormodol o hyd, a'r diffyg deallol i amgylchu treftadaeth esthetig Gymraeg gan rywrai a erys yn deyrngar i ganologrwydd Lloegr. Yn nannedd hyn, mynnai Saunders Lewis drafod y Cymry fel pobl mewn oed a fedrai fod yn feddyliol rydd. Tybiai y gallai hyd yn oed y Marcysydd mwyaf confensiynol, os oedd yn meddu ar chwaeth, a deall, a dychymyg werthfawrogi Dafydd Nanmor a Williams Pantycelyn. Ceisir weithiau ein perswadio bod Marcsaeth y tu hwnt i hynny. Byth, syniai Saunders, os yw'n meddu ar y tameityn lleiaf o drwyn llenyddol.

Yr oedd Saunders Lewis yn cyfrif rhai pethau'n uwch na'r iaith Gymraeg, ac yn sicr yn uwch na gwleidyddiaeth. Hyd nes y sylwir ar flaenoriaethau strwythur ei feddwl, a'r ffaith seml fod ei obsesiwn chwithig ac 'od' ynghylch Pechod yn ei atal rhag synied am unrhyw Iwtopia, boed yn yr Oesoedd Canol neu arall, ni ddown yn agos at ddeall cymhlethdod ei fyfyrnodau proffwydol am ein llên. Gwyddai beth oedd gwraidd Anhrefn. Mawl yn yr ystyr Gymraeg (mewn meddwl, gair, a gweithred) oedd ei gwrthwynebydd. Ac yn hyn o beth, ni welaf neb yn ei wrthbrofi.

Fel na lwyddwyd i danseilio 'Pa ffurf y moler pob peth', felly nid oes dim yn fwy cyrhaeddbell na'r casgliadau a wneir yn ein canu gwirebol, er enghraifft, peth nas archwiliwyd yn drwyadl erioed. Ond mewn man cyffelyb y ceisiodd Saunders Lewis ei wreiddio'i hun.

Mae perygl o hyd inni orsymleiddio'r Darganfyddiadau hyn, a synied bod y pechadur hwn gan Saunders Lewis – archbechadur cenedlaetholdeb 'Ewrob' – yn tybied bod Iwtopia yn bosibl drwy bleidleisio dros Einion Offeiriad; ac mai unffurf oedd undod 'Golwg ar Deyrnas Crist'. Gwylier ei orohian molus – bu'n elyn llosg i lawer arall yr un pryd. Gwir fod naïfeiddio Saunders wedi mynd yn ddiwydiant twf ymhlith naïfwyr Cymru. Sylwer ar yr hyn a wnaeth rhai 'somialwyr' a seciularwyr o orau myth yr ugeinfed ganrif. Mewn gwirionedd, dosbarth y tlodion yn yr ysbryd oedd ei uchelwyr ef: snobyddiaeth gwerth, trefn, a phwrpas (ar wahân i'r economi) oedd ei ryfel dosbarth (absennol).

A chreodd ef felly feirniadaeth lenyddol fodern yng Nghymru.

Soniai Saunders Lewis am y 'rhaid i ninnau ymdrechu am drefn a chyfanrwydd a synthesis mewn bywyd'; a thybir (ar gam) mai bod yn adweithiol geidwadol oedd hyn yn yr ystyr seml. Ond rhan o reidrwydd cyfundrefnus byw real oedd hyn. Rheidrwydd yr atom a'r gell a'r organau corfforol (gan gynnwys yr ymennydd) a'r iaith oedd y 'Bod' y soniai ef amdano gynnau, yn unol â chfundrefneg bywyd proffwydol. Ac wrth gwrs, y mae hyn yn unol â rheidrwydd llenyddiaeth ystyrion ynghyd â rheidrwydd diwinyddiaeth gyfundrefnol bob amser.

Yr hyn a osododd ddarganfyddiadau Saunders Lewis ar wahân oedd ei ddelwedd gyntaf o drefn hyfrydol gynhenid Mawl yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Clasuroldeb tybiedig glasurrol a ffurfiol Beirdd yr Ychelwyr oedd yr ysgogiad iddo. Canfu ef mewn cyfnod Rhamantaidd cynyddol negyddol, diweddar, a Moderniaeth hithau, gwllwm o werthoedd ac o batrymau syniadol a'i harweiniodd ef i gyd-deimlo â hwy hefyd. Rywsut, adleisient hyfrydwch a brofasai ef mewn dramodwyr a beirdd clasurrol Groeg a Ffrainc. A chanfu mewn cyfnod Modernaidd fod yn y rhain hefyd ateb digonol a threiddgar i 'ryddfrydiaeth' lac a hunan-ganolrwydd emosiynol ffasiynol ar y pryd. Felly hefyd yr agorwyd i Saunders Lewis gorff o fyfyrnod ac o sylwadaeth ddychmygus yn y Gymraeg a fyddai'n ysbrydoliaeth i feirniadaeth y dyfodol. **B**

## Ffarwelio â John

### Meredith

*(Gohebydd a gyfrannodd yn helaeth i raglenni newyddion Radio Cymru ac S4C o'r Canolbarth am flynyddoedd lawer – ac a hysbysodd y genedl fod y bleidlais ddatganoli wedi'i hennill ym 1997)*

Heno, 'does ond cysgodion ar y tir;  
ac ni welir olion  
llyw y wlad; fe gyll y lôn  
redegydd Ceredigion.

Heno, nid ato am eitem – yr awn  
ar ras, mae 'na broblem;  
y lonydd a ddilynem  
yno o hyd – ond heb John Em.

Â John, fe gaem ddigonedd – ei ruddin  
a roddai i bob annedd;  
y noswaith, a'i hynawsedd;  
hon yw'r lôn a rannai'r wledd.

Â gwên, fe gofiwn gennad; – fe'i gwyswyd,  
hwn fu gwas yr henwlad  
yn awr ei nerth – cadarnhad;  
enillwyd y cynulliad.

Un mirain fu'n lladmerydd, – un â naw  
hanesion ei fröydd;  
un â gair disglair i'r dydd;  
un a luniai ar lonydd.

*Ellis Roberts*

## Bwganod

Bu oes o dlodi – pan âi dyn i'w waith  
i'r ydfaes, gyda'i blant, i ddychryn brain,  
ac edrych arno, yng nghanol cwysi maith:  
hen gôt, hen het, rwdan ar ungoes fain;  
croeshoeliad brwnt, a'r breichiau blêr ar led  
i fygwth fflyd o ladron du a llwyd  
i'r maes gael llonydd – ffrwyth sylw a chred  
ar ôl gwasgar had y gwanwyn – a chau'r glwyd.  
Lladdodd technoleg yr hen ddulliau rhad;  
yn lle'r un carpiog rhacs caed bwgan gwn  
bob hyn a hyn yn clecian dros y wlad  
nes chwalu'n drwst sguthanod boldew crwn.  
Ond cynefnodd 'rhain heb gilio draw:  
aros a wna'r giwaid lwyd – heb unrhyw fraw!

*Norman Closs Parry*

## Addewid

Gweld blagur castan march â'r glud yn sglein,  
a chawodydd aur o gynffonnau wÿn  
y gwerni. Eirlysiâu yn concro glain  
yn lendid claer yn nŵch gardd a llwyn.  
Clywed aria fore glas brych y coed,  
a chwian curiad calon c'lomen lwyd,  
a slant y glôb i'r haul yn cadw oed  
y gobaith, gobaith sydd yn deffro nwyd.


Tynerwch hen o'r newydd eto sydd  
draw o'r gorllewin wrthi'n crychu'r llyn;  
claeara'r dydd i'r nos roi gw lith ar wÿdd –  
daw'r fuches flith a'r praidd i ddôl a bryn.

Do, ciliodd hirlwm – mae'r arwyddion plaen  
yn dathlu byw – symudwyd eto'r maen.

*Norman Closs Parry*

## Drymiau Tawelwch

Kristiina Ehin, Cyfieithwyd gan Alan Llwyd



ISBN 978-1-906396-26-8  
£5.95

Mae Kristiina Ehin yn un o feirdd mwyaf poblogaidd a mwyaf cyffrous Estonia, gwlad a chanddi ddi-ddordeb mawr mewn barddoniaeth o hyd. Cafodd ei geni yn Rapla, Estonia, ym 1977, ac mae ei rhieni hefyd yn feirdd ac yn gyfieithwyr adnabyddus yn y wlad. Mae Kristiina wedi cyhoeddi pum cyfrol o farddoniaeth hyd yn hyn. Ffrwyth blwyddyn a dreuliodd fel gwarchodwraig ar warchodfa natur ar ynys anghyfannedd oddi ar arfordir gogleddol Estonia yw un o'r cyfrolau hyn, cyfrol a enillodd iddi un o wobrau llenyddol pwysicaf Estonia. Bu'n gweithio wedyn mewn ysgol i blant gydag anghenion arbennig, gan ddefnyddio straeon tylwyth teg traddodiadol mewn modd iachael a chreadigol gyda'r plant. Mae hi hefyd yn awdures casgliad o straeon byrion barddonol ac un ddrama.

Comisiynwyd Alan Llwyd i gyfieithu barddoniaeth Kristiina Ehin gan yr Eesti Kultuurkapital, a dyma ffrwyth y comisiwn hwnnw.

# Canu Gwlad 3

## gan Twm Morys

### *Y Gog A Gân!*

Un bore o Fai ym 1798, ar ffarm y Ton Coch yng Nghwm Pennar ym Morgannwg, mi glywodd EDWARD IFAN y gog. Roedd o'n 82 oed, a byddai yn ei fedd ymhen rhyw bythefnos. Gŵr oedd hwn a fyddai yn ei ieuenctid ffôl yn canu'r delyn mewn taplas a neithior a noson lawen, ac yn gwneud tribannau. Ond tua'r ugain oed, am fod arno ofn 'ymlithro i gorsydd lleidiog meddwod', mi roes heibio bethau ysgafn felly. Emynu ac englynion wnaeth o wedyn ar hyd ei oes. Ond y bore hwnnw, wrth glywed y gog, mi ganodd ddau bennill eto ar hen fesur ysgafala ei fachgendod. Dyma ichi'r cynta':

Mae llais y gog yn canu  
Trwy'r goedwig fawr o ddeutu  
Yn rhoddi inni bromis braf  
Fod 'nawr yr haf yn nesu.

Roedd y pennill yn gwbwl draddodiadol.  
Deryn gobaith, llatai'r haf, ydi'r gog yn  
amlach na heb yn yr Hen Benillion:

Croeso'r gwanwyn tawel cynnar,  
Croeso'r gog a'i llawen lafar;  
Croeso'r tes i rodio'r gweunydd,  
A gair llon, ac awr llawenydd. (HB: 288)

Felly hefyd yn Saesneg erioed. Mae hen gân  
enwog o ganol y 13 ganrif yn cychwyn fel hyn:

Sumer is icumen in,  
Lhude sing, cuccu!  
Groweþ sed and bloweþ med  
And springþ þe wde nu,  
Sing, cuccu!

*Mae'r haf wedi dod! Cân yn uchel, y gog! Mae'r  
had yn tyfu, mae'r ddôl yn blodeuo, ac mae'r  
coed yn blaguro o'r newydd. Cân, y gog!*

Ond nid felly yn yr hen ganu Cymraeg!  
Ryw naw can mlynedd cyn i Edward Ifan  
gyfarch y gog ym Morgannwg, mi ganodd  
bardd anhysbys am hen ŵr claf yn ei chlywed  
yn Aber Cuog, yn ardal Machynlleth:

Yn Aber Cuawg yd ganant gogau  
Ar gangau blodeuawg;  
Gwae glaf a'u clyw yn fodawg.

*Yn Aber Cuog mae'r cogau'n canu ar gangau*

*blodeuog: gwae'r claf sy'n eu clywed o hyd.*

Yn Aber Cuawg, cogau a ganant,  
Ys adfant gan fy mryd,  
A'i ciglau nas clyw hefyd.

*Yn Aber Cuog, mae'r cogau'n canu.  
Mae'n ofid meddwl i mi na chaiff y  
sawl a'u clywodd eu clywed eto.*

Ac felly bob tro yn yr Hengerdd pan fydd  
y gog yn canu: hiraeth a gofid a galar ar ôl  
rhai sydd wedi marw. Mae cerdd enwog arall  
o'r ddeuddegfed ganrif am 'gyntefin, ceinaf  
amser' neu 'ddechrau'r haf, y tymor harddaf'.  
Yn honno mae'r englyn hwn am y gog:

Ban ganont cogau ar flaen gwŷdd gwiw  
Handid mwy fy llawfrydedd,  
Tost mwg, amlwg anhunedd,  
Can eithynt fy ngheraint yn adwedd...

*Pan gano'r cogau ar flaen coed hardd, dyna fy  
nhristwch i yn fwy; poenus yw'r mwg, amlwg yw  
diffyg cwsg, am fod fy nghyfeillion wedi mynd ...'*

Pam hynny?

'Mae'r ateb yn syml iawn,' meddai Syr Ifor  
Williams, 'ond mae arnaf gywilydd dweud  
iddi gymryd blynyddoedd imi ei ddarganfod.  
Y rheswm ydi bod y gog yn canu mewn Hen  
Gymraeg! Y gair am 'ble?' mewn Hen Gymraeg  
oedd 'cw?' Mae pobol ym mhob man yn clywed  
cân y gog fel 'cw-cw', ac felly'r oedd hi pan  
glywodd Claf Aber Cuog hi, neu awdur y gerdd  
yn Llyfr Du Caerfyrddin. Ond mi roes y dynion  
hyn ystyr iddi. Roedd y cwestiwn undonog  
parhaus 'Cw? Cw?' 'Ble? Ble?' yn atsain yn eu  
clustiau, ac yn tristáu eu calonnau. "Am fod fy  
nghyfeillion wedi mynd", chwedl un.' Tueddu  
i ryw gilwenu mae'r ysgolheigion erbyn hyn  
wrth glywed y ddamcaniaeth ddifyr yma. Ond  
yn 'Rubaiat' Omar Khayyâm, y bardd Persieg,  
'cw-cw' mae'r golomen yn ei ganu hefyd, gan  
godi hiraeth am ogoniant a aeth heibio:

Y palas draw a'i dyrau yn y nen,  
Lle plygai pob un brenin gynt ei ben,  
Fe fûm yn cerdded gynnu wrth ei wal,  
A 'cw-cw, cw-cw' meddai c'lomen wen ...

'Ble' ydi ystyr 'cw' yn yr iaith Bersieg hefyd. Ond



roedd y gair a'i ystyr hiraethus wedi hen ddiflannu o'r Gymraeg erbyn y cyfnod rydym ni'n ei drafod, a 'llawen lafar' gan amla' fydd cân y gog yn yr hen benillion. Ac eto, ni ddiflannodd y nodyn trist yn gyfan gwbl, chwaith. Mae hi fel petai 'cw' gynta' cân y gog yn olau, a'r ail yn dywyll. Dyma ichi'r ail driban a wnaeth Edward Ifan, Ton Coch:

Bydd llawer llencyn smala  
Sy 'nawr yn iach mewn tyrfa  
Yn ei feddrod wrtho'i hun  
Cyn cano'r flwyddyn nesa'.

Mae ymadroddion i'r un perwyl  
ar lafar hyd heddiw.

Ond yn ogystal â dod â gobaith am yr ha', a chodi rhyw hiraeth diamgyffred, roedd y gog hefyd yn peri dryswch ers talwm. 'Doedd neb yn deall i ble goblyn roedd hi'n mynd ar ôl iddi dewi ym Mehefin. A hwyrach bod peth o'r dirgelwch hwnnw yn y busnes 'cw-cw'/'Ble?' 'Ble?' hefyd. Yn wir, mae rhai o'r ysgolheigion cilwenus hynny yn egluro'r cwbl felly.

Gwyn fy myd na fedrwn hedeg  
Bryn a phant a goriwaered;  
Mynnwn wybod er eu gwaethaf  
Lle mae'r gog yn cysgu'r gaeaf. (HB: 296 [i])

Ym mis Hydref y llynedd, roedd ffrind imi o Garndolbenmaen yn taeru ei fod wedi gweld y gog. Mi ofynnais i iddo ddisgrifio'r deryn. Wel, y gog oedd o, meddai. Llwydlas, brest golau â rhyw smotiau brown, a dwy adain big. Mae

hi'n wir i chwech o bobol glywed y gog ym Milffwrdd yn Sir Benfro dridiau cyn y Nadolig ym 1954, ond yn y gerdd honno am hen ŵr claf Aber Cuog mae'r englyn hwn hefyd:

Cethlydd gathlfodawg, hiraethawg – ei llef,  
Taith oddef, *tuth hebawg*,  
Cog freuer yn Aber Cuawg.

*Cantores ddi-baid ei cân, hiraethus ei llef, ar y cymówt,  
yn symud fel hebog, y gog uchel-ei-llais yn Aber Cuog.*

'Symud fel hebog' ... Roedd coel ers talwm – ac nid ers talwm iawn, chwaith: mae Cyril Saethon o Lŷn yn cofio ei daid yn ardal Clynnog Fawr yn Arfon yn dweud yr un peth yn union – bod y gog yn troi yn gudyll glas wedi iddi dewi â chanu. Mae'r ddau aderyn yn debyg iawn o hirbell. Mae rhai arbenigwyr yn credu bod y gog, drwy ryw wyrth esblygiadol, wedi mynd yn debyg i'r cudyll, yn yr un modd ag y mae ei hwyau yn debyg i wyau 'rhieni maeth' ei chywion. Y cudyll a welodd y cyfaill o Garn, yn saff i chi!

Enw arall ar y cudyll ydi 'llamysten', ac mae hen gân ryfedd, braidd, am y llamysten (HB: 380):

'Roeddwn hefo'r hwyr yn rhodio  
Gerddi gwyrddion i'm cymfforddio,  
Uwch fy mhen clywn fwyn lymysten,  
Oer yw'r loes, beraidd foes, yn uchel ochen.

Nesu wnes yn ewyllysgar,  
At fwyn ei llais a main ei llafar,  
A than ufudd ofyn iddi:  
'Er mwyn Duw, y fwyna'n fyw, beth yw dy g'ledi?'

Dyma'i hateb a'i hesgusion,  
'Aml gnoc a dyr y galon,  
Unig wyf ymysg yr adar,  
A'm gado'n gaeth yma wnaeth fy nghymwys gymar.'

Rŵan, mae cân werin fwy adnabyddus o lawer sydd yn amlwg yn perthyn yn agos i hon:

Fel 'roeddwn i ryw fore hawddgar  
Yng nghwr y coed ac wrth fy mhlesar,  
Ac uwch fy mhen mi glywn ryw gloman:  
Yn cwyno'n glaf: 'O, beth a wnaaf am f'annwyl gymar?'

A nesu wnes yn nes i wrando  
Beth oedd y gangen ferch yn gwyno  
A nesu wnes a gofyn iddi  
'Y lana' o liw, a'r fwyna'n fyw, beth yw dy g'ledi?'

Sgwn i pa'r un ddaeth gynta', y llymysten ynteu'r golomen?

Ar yr olwg gynta', mi ddywedwn i mai'r llymysten. Mae rhywbeth chydig yn flêr, on'd oes, ym mhenillion y golomen? Ond tybed nad y gog oedd ym meddwl y sawl a wnaeth y gân gynta' un, cyn iddi fynd ar dreigl o blwy i blwy ac o enau i enau? Y gog yn gaeth mewn corff cudyll. Digon naturiol oedd i ryw was ffarm yn rhywle newid y 'llymysten' ddiarth yn golomen. Meddwl ar fy nghyfer rydw i rŵan, cofiwch ...

Eglurhad arall pam roedd y gog yn tewi a mynd yn fud oedd ei bod yn cysgu mwya' sydyn o dan y coed, yn union fel petasai hi wedi marw:

Yn yr eithin mae hi'n nythu,  
Dan y coed y mae hi'n cysgu  
Yn y llwyn tan ddail y bedw,  
Dyna'r fan y bydd hi farw. (HB: 296 [ii])

A chymharwch ateb y gog yn yr hen gân werin:

Fe glywais ei hadlais yn tiwnio mor fwyn  
Yn ochor bryn uchel ar gangen o lwyn  
Gan ofyn iddi gwestiwn yn ddifri ddi-wâd:  
'B'le buost ti'r gywen mor hir o dy wlad?'

'Mi fuom yn rhywle, nis gwn i amcan ymhle,  
Yn gorwedd yn farwaidd, yn gaeth iawn fy lle,  
Yn llechu ac yn cysgu mewn lloches dros dro,  
Ac yn awr cefais gennad i roi tro yn eich bro ...

Roedd y gog yn un o'r Saith Gysgadur. Mae Elis Owen, Cefn Meusydd, yn sôn am y rhain:

'Sonir am saith gysgadur; ond nis gwn i pa rai ydynt. Enwir y Gog, y Wennol, Tinwen y Cerrig, y Nyddwr, y Neidr, y Falwoden, a'r Genau Goeg ...'

Mae'r gog a'r wennol bob amser ar y rhestr, am eu bod nhw'n mynd o'r golwg yn gyfan gwbl. Ond nid yr un rhai ydi'r pum cysgadur arall gan bawb:

Y gwcw ffôl, a'r wennol ddiffydd,  
Brith-yr-had, a'r slumyn,  
Y neidr frech a'r ffrog ffrw,  
Y seithfed peth – morgrugyn. (ADG 862)

'Sigl-di-gwt', neu 'Cachwr-pen-rhaw', ydi 'Brith yr had'. 'Neidr ddefaid' ydi 'neidr frech'.

Mae un pennill nad ydi o'n perthyn dim i un o'r traddodiadau hyn:

Cwcw, cwcw, meddai'r gog;  
Ynghrog bo pob aderyn!  
Maent yn tiwnio wrth y cant  
Yng nghlogwyn Pant-yr-Odyn. (HB: 295)

Ond dyn â chur mawr yn ei ben ganodd hwn, efallai. A beth yw'r ots gan ddyn â chur mawr yn ei ben am draddodiad?

O fewn golwg i gartre Edward Ifan y tribannwr yn y Ton Coch yng Nghwm Pennar ym Morgannwg, roedd ffarm o'r enw Ffynnon

y Gog. Mae honno yno hyd heddiw. Ond diflannodd y Ton Coch. 'Cw-cw' – 'I ble? I ble?'

Ym 1907, mi aeth criw bychan o olffwyr brwd Cwm Cynon ar sgowt i gael hyd i ddarn o dir i wneud cwrs golff. Mi fuon nhw'n chwilio'r holl ffordd rhwng Hirwaun ac Aberpennar, a dim ond dau le yn eu tyb nhw oedd yn addas; dwy ffarm ddefaid, sef Abercwmboi a'r Ton Coch. Y Ton Coch a aeth â hi, a hynny am y rheswm mai'r *Powell Duffryn Coal Company* oedd piau'r ffarm erbyn hynny, a bod prif beiriannydd y cwmni, Mr. E. M. Hann o Swydd Efrog, yn olffiwr brwd hefyd. Chwalwyd y Ton Coch, ond roedd yr ola' o deulu Edward Ifan, ei wŷr Rhys, wedi ymadael â'r tŷ ryw hanner can mlynedd ynghynt dan dribannu:

Yn iach i ti'r hen fwthyn,  
Hen gartre'r beirdd dros ronyn,  
Lle buont ganwaith wrth y tân  
Yn gwneuthur cân ac englyn.

## Cwmwl

*Ddoe – yng ngwlad fy mebyd*

Roedd cwmwl yn arnofio yn yr wybren,  
megis pluen yn hwylio'n y gwynt,  
a dawnsio'n hamddenol yn yr awyr uwchben.  
Daeth atgofion am y dyddiau gynt.

Mae amryw o gymylau mewn bywyd,  
ar wahân i gyfnod bore oes.  
Ces i blentyndod hapus, mor ddiniwed,  
fel baban diddig mewn crud yn ddedwydd.

Casglodd pob math o gymylau ar fy nhaith,  
gorfodwyd fi i ddilyn traddodiad  
cyfyng heb ddewis.  
Heb ymddiddori yn nhafodieithoedd gwahanol  
y trigolion,  
ni thynnodd diwylliant fy sylw ychwaith.

Roeddwn yn unig a diflas weithiau,  
heb glust i wrando na dweud fy nghwŷn.  
Yn unplyg, maldodus a dibwrpas,  
teimlwn gwmwl gwg yn rhwygo  
fy hwyl blentynnaidd.

Crwydrai fy meddwl o le i le,  
cwmwl agwedd fy nghyndeidiau  
yn adleisio a chyniwaer yn yr awyr o'm cwmpas.

Llithrodd cysgod y cwmwl dros fy ysgwydd,  
simsanais mewn pryder,  
a chloffï rhwng dau feddwl.  
Glaniais i ar ynys hiraeth o'r diwedd,  
clywn sisial y gwynt mor swynol yn fy nghlust,  
a chododd fy nghalon gryn dipyn.

Llwybrais mewn rhyddid prin ymlaen,  
Nid breuddwydio na dychmygu:  
o fy mlaen i – Gwlad y Gân gyfareddol,  
y lle ysbennydd heb ei ail – CYMRU.

#### *Heddiw*

Mae cwmwl gwên yn gwasgaru ym mhob man,  
yn cynganeddu yn yr awyr mor las a hardd.  
Anghofiais bob math o rwystrau a gofid,  
heb boen na loes na dim ymyrraeth.  
Mae llawenydd yn treiddio cwlwm fy nghalon  
a'i rhyddhau,  
a'r cwmwl du yn pylu ymhellach.

Mae chwa o awyr iach yn chwythu fy agweddau  
direol, mabwysiadaf ddiwylliant traddodiadol lleol,  
dysgaf yr iaith frodorol a barddonol,  
a magaf ddigon o hyder gyda hyn.

Hyrddia'r cwmwl fi yn ôl ac  
ymlaen o bryd i'w gilydd,  
ond mae fy Nghymraeg yn llewyrchu o hyd,

yn glasu a chlymu'n fy mhen yn fwyfwy;  
fe alla' i arllwys fy nheimladau  
yn yr heniaith ddi-os.  
Mae'n sialens ddigyfaddawd i feistroli'r iaith.

Mae cwmwl hudol yn cerdded gyda fi ar hyd y lle,  
yn gwmni go iawn ar fy nhramwyfa heriol.  
Mae'r llwybr yn droellog hyd nes cwplaf fy nyhead.  
Ysaf i gyflawni fy uchelgais –  
i lenydd a barddoni – y gamp enfawr i mi.


Mae'r Gymraeg yn goleuo fy mywyd tangnefeddus,  
a Chymru fach yn mwytho ym mêr fy esgyrn.

Mae amryw o gymylau wedi lliwio fy mywyd.  
Mae'r ffurfafen yn gloywi uwch fy mhen.

*Juliet Revell*  
(Dysgwraig)

## Crefft y Gynghanedd

Alan Llwyd



Dyma'r gyfrol gyntaf erioed i drafod crefft y gynghanedd yn unig. Mae'r gyfrol yn ymdrin â nifer o agweddau ar y grefft o gynganeddu ac o lunio barddoniaeth gynganeddol.

Ceir penodau ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â'r gynghanedd, pynciau sy'n hanfodol o safbwynt deall natur y gynghanedd, er enghraifft, 'Natur y Gynghanedd', 'Technegau'r Gynghanedd', 'Undod', 'Lefelau'r Gynghanedd', 'Crefft ac Awen', 'Myfyrdod', a 'Miwsig y Gynghanedd'. Mae'r gyfrol yn gyfrol-ddilyniant i *Anghenion y Gynghanedd*, gyda'r gwahaniaeth sylfaenol mai crefft y gynghanedd ac nid rheolau'r gynghanedd a drafodir ynddi.

ISBN 978-1-906396-25-1  
Pris: £10.95

# Cystadleuaeth yr Englyn Beirniadaeth y Golygydd 'Gwanwyno'

Derbyniwyd 38 o englynion. Mae yma ofod  
i ddyfynnu rhai englynion yn unig.

Mae englyn *Cono* yn anghywir oherwydd iddo  
ddefnyddio'r un odl ddwywaith, 'gwên':

Hen gig oer, merch a'i gwag-wên – o botel:

Botox i greu seren!

Llawn crychion yw'r hen gonen

A swyn gwanwyn yn ei gwên.

Nid yw llinell olaf *Bugail* yn foddhaol:

Rhai eiddil ro arwyddion, cawn gysur

Gweld blagur yn blygion,

A thynnu llaeth wna y llon

Ac unffurf ysgwyd cynffon.

Rhaid ateb 'c' yn 'ac' gydag 'g', nid 'c', a byddai llinell  
fel 'Ac unffurf siglo' i gynffon' wedi achub y cam.

Hefyd, nid yw 'wna y llon' yn y drydedd llinell yn  
dderbyniol iawn. Byddai 'wna oen llon' yn well.

Ceir cyfatebiaeth anfoddhaol yn  
nhrydedd llinell englyn *Pridd* hefyd:

Brigyn a hedyn oedodd i'r eira

A'r oerwynt fynd trosodd;

Yn y clai ei wên ddatglôdd,

Yno'r egin a rwygodd.

Mae'r 'c' yn 'clai' ym cael ei hateb gan 'g' yn 'ddatglôdd',  
ond nid yw'r 't' yn 'ddatglôdd' yn caledu'r 'g' yn y gair. Y  
cyfuniad 'd' + 'c' a geir yma, 'dad' + 'cloi', ac mae'r cyfuniad  
*d/c* yn troi'n *t/g*, cymharer â 'gwaed' + 'coch' = 'gwaetgoch',  
'ad' + 'cof' = 'atgof', ac yn y blaen, a gweler *Anghenion y*

*Gynghanedd*, t. 83. Mae'r llinell olaf yn hen drawiad.

Dyma gynnig *Eithin*:

Daw gwefr o ddiwedd Chwefror, – o'i gyni

Caiff gwanwyn ei esgor.

Hardd yw drws i wyrdd drysur

Y coed: sedd adar y côr.

Credaf fod yr englyn hwn yn agor yn addawol  
ond yn gwanhau braidd wrth fynd rhagddo, a  
gallai'r llinell olaf yn sicr fod yn gryfach.

Hoffaf drydedd llinell *Bob*, ond credaf  
fod y llinell olaf braidd yn wan:

Mewn heddwynhaf orweddian – yn gynnes,

Ond gwn y daw'n fuan

Dwrw mawr yr adar mân

Rua stori eu stwyrian.

Gallai *Juantita Tif* fod wedi  
asio'i ddeunydd yn well:

Is tir, 'does ond mân ystwyrian o hyd  
er cawodydd arian;

a fory'n ddoe rhy fuan,

cyndyn y blaguryn gwan.

Hoffaf llinell olaf *Bwbach*, ond mae 'agor' ac  
'egin' a 'blagur' a 'blyg/blygion' yn hen drawiadau:

Tymor agor o'r egin – a'r blagur

A blyg fy mhenelin

I'r bâl, rwy'n llygadu'r bin

A baw o dan bob ewin.

Ceir hen drawiadau yn englyn *Pridd* (ei ail  
englyn) hefyd, 'blagur'/'blygion', 'egin'/'rhwigo',  
ond mae'r llinell olaf yn wych, er bod 'bridd' a  
'bro' hefyd yn tueddu i fod yn hen drawiad:

Y titw bach sy'n twtio a'r blagur

A'i blygion dan gyffro,

A'r egin ar fin rhwygo

Drwy hen bridd daear ein bro.

A dyma'r pedwar englyn gorau y tro hwn,  
gan ddechrau gydag englyn *Pip-po'r Tymor*:

Â'i ddau wyneb i'n diddanu – y myn

Chwarae mig gan gelu

Wyneb ei wg, a lle bu

Y Gwanwyn sydd yn gwenu.

Ianws o fis yw Ionawr, ond lle bu un o'i wynebau'n  
gwgu, gwenu a wna wyneb y gwanwyn.

Ceir undod delweddol yn englyn *Fflamddwyn*:

Y mae i'w weld yn saffrwm mwyn, ond daw

â'r tan ac mae cynllwyn

i'w wres swil weithio rhyw swyn

i gynnau coelcerth Gwanwyn.

Ac i gloi, y ddau englyn naturiol hyn, a  
dau bur debyg at hynny, gan yr un awdur,  
y cyntaf dan y ffigenw *Gwely Angau*:

Er i'r awel dy rewi – yng ngeaef

angheuol eleni,

fel erioed, o hir oedi,

wele doist o'th wely di.



A'r llall dan y ffugenw *Pedr*:


Er i'r tir oeri'r werin – a'n gadael  
i gyd â chynefin  
i'w droi sy'n anodd ei drin,  
eginodd eto gennin.

Do, fe fu gaeaf eleni yn aeaf 'angheuol' am  
sawl rheswm, ond atgyfododd y gwanwyn  
o wely angau'r gaeaf. Ac mae'r ail englyn yn  
cloi'n dda, a'r ddau englyn yn cynnig gobaith.

Ni fu'n gystadleuaeth ddisglair y tro  
hwn, ond mae *Gwely Angau a Pedr* yn  
rhannu'r wobr o £50 rhyngddyn nhw.

## Y Flodeugerdd Englynion Newydd

Alan Llwyd



ISBN 978-1-906396-24-4  
Pris: £12.95

## Enillydd Barddas 306

Rhannwyd y wobr yng Nghystadleuaeth yr Englyn  
yn rhifyn y Gaeaf o *Barddas* (rhif 306), ar y testun  
'Harry Patch', gan Annes Glynn (*Tomï*) a Philippa  
Gibson (*Ni Ddal*). Llongyfarchiadau i'r ddwy.

Y testun nesaf:

### 'Drych'

Anfonwch eich englynion at y golygydd dan  
ffugenw yn unig erbyn Awst 15, 2010. **B**

## Orca

A dyma nhw wedi'u dofi,  
y rhai a fyddai, yn eu cynefin,  
yn ein hela'n ddirugaredd;

yn aros yn ufudd  
am gegiad o bysgod,  
yn cadw i'w cylchoedd cyfyng,

yn trydar yn y dirgel â'i gilydd,  
a phwy a wŷr ergyd y trydar hwnnw  
ar lwyfannau isel gwaelod y dŵr,

a'r dyrfa yn udo am ragor,  
rhagor o chwipio'u cynffonnau  
fel fflangellau pwerus,

rhagor o lamu'n gyhyrog  
o'r dyfnder bas;  
fe fyddai'r llengoedd Rhufeinig

wrth eu bodd yn rhannu'r olygfa:  
fe wyliaf innau'r chwarae llachar  
gan wybod, 'tae'r llifddorau'n ddarnau,

y byddai mwy na physgod  
yn dameidiau amrwd  
rhwng eu dannedd tirion.

*Iwan Llwyd*

Biot, Ffrainc, Gorffennaf 2008

# Y Gyfrol Olaf

Adolygiad gan Donald Evans

*Yr Amhortreadwy a Phortreadau Eraill*, Bobi Jones, Cyhoeddiadau Barddas, 2009, tt. 119; pris: £6.00

Yn ôl y broliant dyma'r 'gyfrol olaf gan y bardd o'i gerddi a gyhoeddir yn ystod ei oes'. Gan hynny y mae'n achlysur sy'n gofyn am arolwg bras o'i waith, sef yr unig beth y gellir ei wneud mewn adolygiad fel hwn wrth reswm. Mae'n rhaid i arolwg o'r fath fod yn un dadansoddiadol ac asesiol hefyd, yng nghysgod y gyfrol arbennig ddiwethaf yma fel petai, o natur a mater ei gyfraniad trwchus ef o'r cychwyn i farddoniaeth Gymraeg.

Ran fynychaf, o ddigon, mae bardd sy'n datblygu'n awenydd o bwys, yng nghwrs ei gyhoeddiadau yn ystod y blynyddoedd, yn dueddol o ddadlennu tipyn ar dymer ac ansawdd ei botensial yn gymharol eglur yn nhrosglwyddiad a deunydd ei lyfr cyntaf un. Ac yr oedd hynny'n ddigamsyniol o wir yn achos Bobi Jones yn ei gyfrol agoriadol dros hanner canrif yn ôl bellach, *Y Gân Gyntaf* (1957, Gwasg Aberystwyth). Yn honno, fe ymdeimlwyd yn syth ag arddull newydd afeithus, a honno'n cyfleu darlun cwbl gadarnhaol o lawenydd mewn byd a bywyd, fel ei gilydd, a dwy nodwedd hefyd a greiddiol lynnodd o hynny ymlaen yng nghyfansoddiad y bardd drwy gydol ei yrfa awenyddol, ac fel llenor ac ysgolhaig yn ogystal. Wrth gwrs, mae'n hollol wybyddus bellach mai argyhoeddiadau ieithyddol a Christnogol a ddeilliiodd o brofiadau cynnar yn hanes y bardd yw'r ddeurym arbennig yma, ond fe dâl inni aildanlinellu dieithrwch eu hystyrlonedd fan hyn, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn yn hanes yr iaith, pryd yr hydreiddir ei byw a'i bod gan gymaint o negyddiaeth ac ysgyfander ystrydebol. Yr elfen ryfedd o frwdfrydig hon yn ei farddoniaeth, mwy na thebyg, sydd i gyfrif fod gwelediad o ddimensiwn ychwanegol yn perthyn iddi ar dro, pryd y gellir cymharu ei darllen i ddarganfod llun a dawns sylweddau cuddiedig bywyd yn sydyn drwy feicrosgôp nerthol o dan len yr arwyneb.

Ond er y gydnabyddiaeth ddyledus hon, mae'n ofynnol nodi fod i arddull fabolgampus o'r fath, sy'n gleidio, fel petai, ar hyd min rasel o rediad, ei pherygl parod yn ogystal, yn yr ystyr fod iddi'r duedd o syrthio weithiau'n go bendramwnwgl, yn fwy felly o bosibl nag arddulliau eraill mwy cyfarwydd, ar y naill ochr neu'r llall o feinder eithriadol ei thrac, ar dro fel pe'n fyr rywsut o'i tharged, ac wedyn i

rysedd gormodedd dros yr ymyl gyferbyn. Eithr pan fo'i throsglwyddiad yn gwibio'n unionsyth i'w derfyn yn llwyr, heb ymyrraeth o ry nac eisiau ar ei gyfyl o gwbl, y mae'r cyflead a'r cynnwys, fel ei gilydd, yn asiad trawiadol iawn.

Yn anochel, ac, yn wir, yn angenrheidiol petai'n dod i hynny, y mae i bob bardd o arwyddocâd ei glwstwr o gerddi eilradd, a hynny am amryw byd o wahanol resymau, a'r peth doethaf, a'r mwyaf diddan hefyd, i'r beirniad llenyddol yw gadael iddynt fod yn nhawelwch eu ffaeleddau i'r hanesydd llên roi sylw iddynt, o bosibl, a chanolbwyntio ar ragoriaethau mewnol y cerddi cwbl lwyddiannus hynny sy'n gyfrifol am safle a statws uchel unrhyw fardd o bwys. Ac fe ddoir o hyd i hen ddigon o'r cerddi arhosol yma o fewn swmp casgliadau Bobi Jones. Gellir enghreifftio'r hyn a olygir gyda dau ddyfyniad crynhous o'i gyfrol gyntaf ac o'i gyfrol olaf sy'n dangos cychwyniad afeithus sylweddol ei gynnyrch ynghyd ag aeddfedrwydd myfyrgar lawn ei ddiwedd ar ei fwyaf effeithiol:

Euthum i mewn iddo cyn ei ddeall,  
Ei wybod cyn gwybod amdano. Fel mwg  
O'm cwmpas roedd y golau'n cynnull  
Drwy'r dail a'r adar a'r borfa'n bendramwnwg  
Fel oen diwair  
Yn y rhyddid cyntaf y tarddasom ohono ...

('Gwanwyn Nant Dywelan')

Ac felly, er estyn ei afal anghred drwy bertrwydd y drefn  
Yn erbyn pob synnwyr bywyd, eto am dro drwy'r sen,  
O'r newydd, yn erbyn

holl uffernau arferoldeb,

Un tro'n ddigon eto taenwyd drosom fwy na phren.

('Pren Afalau'n Rhygnu Arni')

Yn y gyfrol ddiweddaraf hon, mae rhywun fel pe'n ymdeimlo, yn ei cherddi blaenaf yn llwyr, â nwyf y selogrwydd cynt yn cynnil esgyn i eithaf ei ffrwythlondeb yn deg, fel yr estynna i gwmpasu a phortreadu ffynhonnell ddirgel weladwy y Benarglwyddiaeth rasol fawr honno y bu'r bardd mor ymwybodol ohoni drwy'r blynyddoedd yn treiddio i holl sfferau gwahanol ond unedig bywyd. Mae yna naws o ymostwng disgybledig yn perthyn i ddelweddau llawenydd y cerddi arbennig yma:

Dwi'n deall popeth bron y mae angen 'ddeall:  
Brenin sy'n rhoi a rhoi i'r sawl sy'n brin,  
Y tlawd sy'n pwnio a'r Brawd sy'n agor iddo  
I'r anchwiliadwy ryfedd ddüwch gwyn.

('Gorhoffedd y Prydydd Dryglawn')

## Bobi Jones



### Yr Amhortreadwy a Phortreadau Eraill

Eto yng nghyfres 'Yr Amhortreadwy':

Efô oedd y gogor y treiddiwn drwyddo draw.  
Nid gofod oedd, nid persbectif tan frws nac wybren  
las. Ond person dibortread am ben pob rhai  
mewn cariad diarth, ar lun a delw chwyth, a'n holrheinai  
oll. Ysbryd oedd Ei le. Rhidyllai fesur gofod  
ei strwythur amserol. Ond Nef o Fod oedd hwn.

Ceir yr un ysbryd ymestynnol o atalgar gyfrin  
yn hydeiddio'r gân 'Ar Noson Fwyndes', o bosibl  
cerdd fwyaf apelgar y casgliad yn ei grynsyth, gyda'i  
hodlau a'i phroestio heintus yn hyrwyddo'i hapêl:

Yr hwyrnos a ni,  
tri myfyrdod sy am gael cwrdd  
heb siarad, ond dirnad ein gilydd yn iawn,  
hithau yn troi ei chefn, ninnau'n dau'n llawn  
chwilfrydedd, ond yn fodlon arni'n hardd.

Ac mae'r gerdd olaf un, 'Y Cwbl', cân i farwolaeth ffrind ysgol  
y bardd, y Parch. Derek Swann, nid yn unig yn binacl rhyfedd  
o ymostyngol fawr i'r amgylchiad hwnnw, ond i'r gyfrol  
yn ei chyfanrwydd, ac yn wir i aruthredd holl gyfraniad  
yr awdur i lenyddiaeth Gymraeg ar hyd y blynyddoedd:

Ar cwbl y mae'n ei ofyn –  
yr un dim arall –

yn y funud ffaidd hon –  
yw pwyso – iti roi dy dipyn pwysau  
arno Ef –  
wedi'r holl gamgymeriadau –  
y bustachan weithio –  
y methu maith difesur, yr addysg a'r talentau,  
yr eistedd i gysuro cleifion –  
... pwyso  
bob owns  
fel diferyn o law syml  
ar flew amrannau – fel baban ym mreichiau  
mam – fel gwên ar rudd cariadferch ... **B**

## Llythyr

Annwyl Olygydd,

Echdoe, wedi fy sbarduno gan eich nodyn ar  
'Gwael wy'n awr' yn *Y Flodeugerdd Englynion  
Newydd*, fe ddarllenais eto'r toriad o lythyr  
J. T. Jones a oedd yn digwydd bod gennyf yn  
fy nghopi o *Flodeugerdd* W. J. G. Syndod felly  
heddiw, wrth chwilio am rywbeth cwbl wahanol,  
oedd dod ar draws yr englyn canlynol:

Ieungtyd, ein golud gwelwch, – yw llwch,  
Yn llechu mewn t'wllwch;  
Trostrom y cauodd tristwch,  
Y ddu oer drom ddaear drwch.

Y ffynhonnell oedd llythyr, yn Saesneg, yn y  
*North Wales Chronicle*, Ebrill 24 1828 (arlein),  
gan Humphrey Thomas, brawd Dafydd  
Ddu, dyddiedig Ionawr 1801, yn disgrifio  
mynwent Trefdraeth. Nid yw'n glir a yw'r  
geiriau wedi eu torri ar garreg fedd y bardd  
Hugh Williams (b. f. Rhagfyr 5 1785), na  
ph'run o'r galarwyr a nodir yw'r awdur.  
Yn gywir,

*Glyn Tegai Hughes*

# Donald yn Dyrnu, Donald yn Dathlu

## Adolygiad gan Gwyn Thomas

*Cartre'n y Cread*, Donald Evans,  
Gwasg Gomer, tt. 80; pris: £7.99

Wrth drafod y llyfr hwn gydag un o ohebyddion *Golwg* (Mawrth 25, 2010) dywedodd y bardd fod y cynhesu byd-eang sydd gymaint yn y newyddion yn bwnc 'cymharol ddieithr yng ngwaith beirdd Cymraeg' ac awgrymodd nad oedd yn 'bwnc Cymraeg'. Y mae'n gymharol ddieithr – ond nid yn gyfan gwbl ddieithr – yng ngwaith ein beirdd, efallai, eithr y mae'n bwnc anodd ei osgoi fel rhan o newyddion ein dyddiau, yn y Gymraeg fel yn y Saesneg. Ond y mae trin y pwnc, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, mewn cyfrol gyfan o gerddi (er bod rhai ohonynt, yn briodol felly, yn gerddi natur, cynefin) yn sicr yn beth anarferol.

Ar un olwg, nid yw'n syndod mai Donald Evans a aeth ati i gyfansoddi llyfr fel hwn achos y mae yna, mewn amryw o'i gerddi mewn cyfrolau eraill, ryw ymdeimlad elfennaidd, hen tuag at y ddaear a'i rhyfeddod. Heddiw, y mae yna, chwedl yntau, 'ffrae rhwng dyn a daear', ond nid dyn a wnaiff ennill y dydd:

Yn y ffræ rhwng dyn a daear – ond un  
Gyll y dydd hunangar;  
Nid y blaned aeddfed, wâr  
Fydd honno, gynfodd anwar.

Y mae hyn fel fformiwla drwy'r gyfrol. Fe geir amryw argraffiadau o ddyd yn difetha ei gartref – gyda chynghor iddo gallio:

Heb ollwng ers sbel bellach  
Mae'n blys distrywus mewn strach;  
Dydd o wae, mae'n hen bryd i ddyd  
O'i awchu ryw ailgychwyn  
Yn wylaidd, i ddychwelyd  
O'i goll ynfytaf i gyd:  
Ysu'i gartre'n y cread,  
Yr hwn a gafodd yn rhad.

Yn fwy penodol, dangosir inni ystâd y dŵr, er enghraifft, dan bont y pentref:

rhyw haid o duniau rhemp  
ynghyd â llanast' o boteli plastig  
a jync o botiau a jars.

Yn y gerdd 'Yr Arctig' y mae'r bardd yn nodi ei fod o, fel yr arth wen, yn hiraethu am hen aeafau 'meinwyn':

min yr hiraeth sy'n f'ymuniaethu  
â dryswch yr eirth dros erwau meiriol  
eu hirlwm diforloi.

Fe'n sicrheir fod dyn yn gwneud llanast o bethau. Mewn cerdd am Icarws (fel y'i darlunir gan Pieter Bruegel), yr Icarws a luniodd iddo'i hun adenydd o gŵyr a hedfan yn drychinebus o agos i'r haul, dyma eiriau'r bardd:

y gwron â'r dechnoleg aruthr  
a ymyrrodd â fflam y wawr  
yn stremp ei ffws o dranc.


Ond yn y llun, meddir, y mae pobol yn bwrw ymlaen gyda'u gorchwylion heb sylwi ar y cwmp. Yr awgrym ydi fod bywyd y mynd yn ei flaen er gwaethaf technoleg 'aruthr' dyn, ac yn hyn y mae rhywfaint o obaith. Yr hyn a awgrymir ydi y dylai dyn roi'r gorau i'w hwrbris technolegol – yn hyn o beth y mae ei farn yn wahanol i un y cyfarwyddwr ffilmiau, Stanley Kubrick: awgrym hwnnw oedd y dylai dyn fynd ati i wneud gwell adenydd iddo'i hun; hynny ydi, dal ati gyda'i dechnoleg, a'i pherffeithio.

Y mae un mater, efallai, nad ystyriwyd yn fanwl iawn yn y gyfrol, sef cynddaredd y byd naturiol – heb unrhyw ymyrraeth ddydol, a chyn bod dynion. Beth am tswnamiau dinistriol, daeargrynfâu diffeithiol, ffrwydriadau llosgfynyddoedd andwyol, sêr gwib mor ffrwydol â bomiau heidrojen? Ond y mae'n ffaith fod gwyddonwyr (neu'r mwyafrif ohonynt, ond nid pawb) yn beio crafangu materol y blynyddoedd diwethaf fel prif reswm yr argyfwng diweddaraf.

O'r hyn a ddywedwyd am agwedd y bardd, nid yw'n syn gweld mai ei fawl i fyd natur yw nodwedd gryfaf ac amlycaf y gyfrol hon. Pan fo'n cael ei lethu gan weithgareddau ffôl dynion y mae, meddai, yn troi am orig i 'big Cei-bach' ar noson arw, a bydd ei dymer yn newid:

Y mae mŵd y môr wastad,  
ei lais a'i ystum,  
yn agoryd golwg arall  
ar bethau'r byd.

A chawn y dathlu mawr mewn cerddi fel 'Blodau Ceirios', 'Y Llwyn Llawryf', ac yn odidog i mi, sy'n hoff o



geffylau, yn y gerdd, 'Ceffylau: Stori Noswyllo':

Â'u pennau fry i'r buarth  
Y dônt â haenen o darth  
Yn ewynnu ohonynt  
Fel gwawn i afael y gwynt  
Heb baid, a llygaid pob pen  
Yn olog yn y niwlen.

Yn y dyfyniad diwethaf fe geir esiampl o gamp gynganeddu arferol Donald Evans, ond yma ac acw y mae ambell bwt sy'n taro fy nghlust i'n chwithig. Dyna ddechrau'r gerdd 'Etifeddion y Ddaear', er enghraifft:

Yma, bawb, er mai bod  
yn alltudion ohoni  
ar yr wyneb oll yw ein rhan bellach  
mewn byd artiffisial 'i wala,  
yn y bôn ei hetifeddion fyrdd  
o hyd ydym ...

Yma, y mae'n swnio braidd fel Euros Bowen ar ei wannaf. 'Dydi llinell fel 'Siwrnai goes i Sarn Gaseg', wedyn, ddim yn wefreiddiol ac, o ran ystyr, 'Heb ddim' yn hytrach na 'Na' a ddisgwylid yn llinell olaf yr englyn hwn:

Onid rhyw gwrs undonog  
Yw ei chlais rhwng cwm a chlog

Na dim yno ond mawnog?

(O'r gerdd i 'Sarn Gaseg')

Ond anraslon fyddai dod i ben ar nodyn ansoniarus fel yma. Dyfynnwyd digon i ddangos dawn Donald Evans a'i argyhoeddiad, ac fe gloaf hyn o lith gan adael cwpled o gywydd i seinio'n orfoleddus yn y glust:

Clywaf o'r ffrwst difwstwr  
Seiniau eangderau dŵr. **B**

## Salem: DFD

### Cynnig Arbennig

*Salem: y Llan a'r Llan* yw'r llyfr uchaf ei werthiant i Gyhoeddiadau Barddas ei gyhoeddi erioed. Gwerthodd dros 5,000 o gopiau. Bellach mae cydawduron y llyfr, Tal ac Iris Williams, wedi cynhyrchu DFD (Disg Fideo Digidol) o'u darlith 'Salem', sy'n seiliedig ar y llyfr.

Caiff aelodau Barddas brynu'r DFD *Salem* am £7.50 + cludiant post. Cysylltwch ag Elwyn Edwards, Bod Aeron, Heol Pen-sarn, Y Bala, Gwynedd LL23 7SR (ffôn: 01678 520378; ffacs: 01678 521051; e-bost: [bodaeron@btinternet.com](mailto:bodaeron@btinternet.com)) i archebu eich copi.

# Bod a Darfod a Hud Arfaeth

## Adolygiad gan Norman Closs Parry

*Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet*, Gwyn Thomas, Cyhoeddiadau Barddas, tt. 107; pris: £6.95

Treuliais bum niwrnod yn y Dingle – yng ngorllewin gwyllt Iwerddon. Rwyf wedi bod yma sawl gwaith, gan fanteisio ar bresenoldeb neu agosrwydd yr Wyl Ban Geltaidd. Dyma ardal yr An Ghaeltacht, lle mae trwch y boblogaeth yn siarad Gwyddeleg. Ni allaf ddod yma heb fynd am ran o ddiwrnod i Dunquin, y Ganolfan Gelfyddydol Hanesyddol i hen drigolion yr ynys sydd ar y gorwel, Ynys y Blasket. Mae'r ynys, sy'n anghyfannedd ers y 1950au, yn enwog nid yn unig am ffordd o fyw'r ynyswyr ar un adeg ond hefyd oherwydd bod y gymuned fechan o ryw 150 o bobol a geid yno unwaith wedi cynhyrchu llenyddiaeth arbennig sy'n sail i lawer o waith ymchwil ysgolheigaidd. Rwy'n crybwyll hyn oherwydd fy mod newydd ddarllen *Twenty Years A-Growing* gan un o'r ynyswyr, Maurice O'Sullivan (Muiris Ó Súilleabháin), sef y cyfieithiad Saesneg o *Fiche Bliain ag Fás*, am yr ail neu'r trydydd tro. Ynndo mae'n cyfeirio at hen gred a oedd ganddynt ynglŷn â hyd bywyd, a'r gwahanol gyfnodau neu amseroedd ym mywyd dyn (rhywbeth tebyg i 'Saith Oes Dyn' William Shakespeare). A dyma fydryddu cred yr ynyswyr:

O'r An Ghaeltacht clywais rigwm  
Fod i einioes dyn ei batrwm:  
Ugain mlynedd yn egino,  
Ugain mlynedd yn blodeuo;  
Ugain arall i wargamu –  
Yr ugain olaf – datgymalu.

Pan ddeuthum adref o'm gwyliau, roedd llyfr newydd Gwyn Thomas, *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet*, yn fy nisgwyl. Trwy gyd-ddigwyddiad llwyr, roedd y broliant ar y clawr cefn yn crynhoi'r hyn a gredai ynyswyr gwerinol y Blasket am drefn dyn ar y ddaear. Wrth sôn am y clawr, dyfynnaf ran o adolygiad ar lyfr Andrew Greig, *At the Loch of the Green Corrie*, yn y *Times* gan Alexander MacColl Smith: 'Nid yw gweld y teitl, neu weld llun y clawr, yn ddigon; mae'r rhan fwyaf o lyfrau yn cael eu prynu ar ffansi'r foment, a'r penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl cael gafael yn y llyfr a dechrau ei fodio ... mae'r llyfr hwn wedi ei ddylunio'n dda, mae'n hyfryd i edrych arno'. Credaf yn hyn. Gallaf ddweud heb

flewyn ar fy nhafod fod y gyfrol newydd hon yn cyflawni'r pwrpas. Mae Dafydd Llwyd i'w longyfarch am ei waith dylunio. Pe bawn i'n Gwyn Thomas, byddwn yn falch iawn o'r ffordd y mae'r clawr yn edrych. Mae'n briodas felys.

Mae Gwyn Thomas a minnau yn perthyn i'r un genhedlaeth, mae'r ddau ohonom yn dod o'r un cefndir chwarelyddol-ddiwylliannol, ac mae'r ddau ohonom hefyd yn daid! Byddwn yn dweud yn ogystal fod y ddau ohonom wedi cael ein trwytho yn llenyddiaeth y Beibl a'r llyfr emynau – credaf fod hyn yn help i ddeall ambell gerdd, ambell ymadrodd ac ambell linell hyd yn oed.

Y mae Gwyn Thomas yn dod yn ôl at 'olwyn bodolaeth' mewn cerdd ar ôl cerdd. Cylch yw'r cyfan. Pwy a all anghofio ei gerddi cynnar am ei blant ei hun. Mae'n dwyn y cyfnod hwnnw i gof yn y gerdd 'Unwaith Eto – Gydag Wyrion' yn y gyfrol newydd hon:

Lle bu fy meibion unwaith  
Yn gwirioni ar fecanyddwaith  
O bob rhyw,  
Yn awr y mae fy wyrion  
Yr un fath yn union.


A dyma finnau, mi wn,  
Yn dargafnod, am yr eildro,  
Amryfal enfawreddau  
Sy'n rhan bwysig o'u bywydau.

Mae sawl cerdd 'oherwydd y plant' yma. Fel taid ac fel hen athro ysgol, rwy'n gwirioni ar 'Darllen – A Deall?', a chwarae clyfar yn y teitl. Onid dyna deitl gwerslyfr yn yr ysgol ers talwm?

Hyd yn oed yn y cerddi am ei wyrion y mae yn cyfleu ei weledigaeth ddiymwad:

Yr ydym ni i gyd  
Wedi ein rhoi yn y byd  
I geisio dyfalu pam  
Yr ydym ni yma,  
Ac i ddyfalu a oes yna  
Ystyr i Fywyd,  
Ac ystyr, hefyd,  
I'n bywydau ninnau.

Fel ag sy'n arferol yng ngwaith y bardd, mae'r cerddi bach a mawr – yn gwpledi, rhigymau, telynegion a cherddi *vers libre* – yn dangos ei afael feistrolgar ar elfennau fel hyd llinell, rhythm, odlau, odlau dwbwl, odl gyrch a chyffyrddiad



gynganedd. Ac wrth gwrs, mae'n eu defnyddio yn briodol ac er mwyn eglurdeb ychwanegol i'r darlennydd. Rwy'n gwybod fod ei gynulleidfa a'i gymdeithas yn dra gwahanol i'r bardd mawr o Ryd-ddu, ond mae tebygrwydd rhwng y ddau yn y modd y maen nhw yn defnyddio iaith i gyfleu eu gweledigaeth ynghylch bywyd. Onid oedd T. H. Parry-Williams ei hun yn pendroni am olwyn bodolaeth – 'Ond llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl'?

Rhyw ddeg a phedwar ugain, mwy neu lai, o gerddi sy'n y gyfrol. Mae nifer helaeth o'r cerddi yn rhai amrywiol a chyffredinol, yna ceir dwy adran gyda llai o gerddi, 'Cerddi Cyhoeddus' a 'Trugareddau'. Mae darllenwyr *Barddas* a chylchgronau Cymraeg eraill wedi gweld rhai o'r cerddi hyn yn sicr, yn enwedig y rhai cyhoeddus (sef cerddi a luniwyd gan Gwyn Thomas yn rhinwedd ei swydd fel Bardd Cenedlaethol Cymru 2006-2008, ac fe geir elfen bersonol ac agwedd bersonol ynddynt). Ni allwn anghofio ei farwnad i Kyffin (Syr Kyffin Williams), yr arlunydd a fu farw yn ystod cyfnod Gwyn Thomas fel Bardd Cenedlaethol. A beth am y gerdd grafog onest (a phellgyrhaeddol hyd yn oed) am ein cyn-Brif-Gopyn (Gorsedd y Beirdd), 'Diolch Byth am Richard Brunstrom'? Ceir cerddi ysbrydoledig eraill yma, i Kate Roberts, Ray Gravell, William Samuel Jones (Wil Sam!), lle teimlaf fod y bardd wedi cyrraedd y garreg yn y ffrwyth a'r hadau yn yr afal!

Mae'r gerdd hir i ddau lais, 'Cysylltiadau Cyhoeddus: Methodoleg, Rhai Esiamplau' (a luniwyd ar gyfer Gŵyl y Gelli) yn gafael, oherwydd y

gwirioneddau a draethir ynddi, megis:

Irác, Irác,  
Anfonwyd fy mab,  
Fy mab nad oedd o ond ugain,  
I Irác ar wasanaeth milwrol.  
'Ddaeth o ddim yn ôl;  
A ddaw o ddim, byth mwy, yn ôl.  
Rydw i am wybod pam.

Eto mae'r un person, y tad, yn  
dweud yn nes ymlaen:

Pe gallwn i, ryw sut, gael morgais  
Fe fyddai rhyw rai yn dal i dalu,  
A hynny am ddegawdau,  
Ar ôl i mi fynd 'lawr i'r bedd  
I huno at fy nhadau.

Ond daw'r gwleidydd yn ôl yn llithrig ei dafod:

Mae pethau yn gwella  
Yn gwella o hyd  
Ac i mi y mae'r diolch am hynny.

Ond o bob cerdd yn yr adran hon, y gerdd fawr i mi yw 'Robert Williams Parry', a luniwyd ar achlysur hanner canmlwyddiant ei farw, ac ar gyfer rhaglen Dei Tomos.

Gwyddom fel y gweithiodd Gwyn Thomas ar gyfrol yr annwyl Bedwyr wedi ei farw sydyn. Mae Gwyn Thomas yn arbenigwr ar Fardd yr Haf, ac mae wedi defnyddio chwe phennill ar ddull canu'r Hen Ficer yn ei gerdd iddo, ac mae'r mesur yn gweddu i'r dim:

Hwn oedd yn enaid ar wahân,  
Yn un â'i gân yn iasol,  
Cans gwyddai o am dro y rhod  
A dry pob bod yn farwol.

Er bod deniadau natur werdd  
Mewn llawer cerdd ysgytwol,  
Yr oedd diddymdra yr holl sioe  
Ar hwn yn wae parhaol.

Ac mae'n cloi fel hyn:

Ond mae ei gân o hyd yn fyw:  
O clyw, mor fyw o'r beddrod!  
Ar y geiriau 'bu'n eu gweu  
Ni bydd dileu na darfod.

Gan fy mod wedi cyfeirio at ganu'r Hen Ficer ar fesurau 'salm', credaf mai teg yw awgrymu y gall darllenwyr Gwyn Thomas ymateb yn llawnach os ydynt yn gyfarwydd â'r Beibl a'r Llyfr Emynuau (*Caneuon Ffydd*). Yn sicr, mae sawl man mewn sawl cerdd lle mae'r gyfeiriadaeth yn gryf.

Mae swp o'r cerddi yn ymwneud â phobol, y rhai y mae'r bardd yn eu hadnabod yn iawn. Cyfeiriais at Grav eisoes. Ceir yma gerddi i bobol 'Stiniog hefyd, fel y gerdd wych i'r gwladwr diwylliedig a'r pysgotwr Emrys Evans ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed ... ond bellach yn taflu ei blu ar afonydd dieithr.

Mae'r gerdd i Meredydd a Phyllis (i ddathlu cyhoeddi cyfrol i anrhydeddu cyfraniad Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney i gerddoriaeth Cymru) yn wefr drwyddi draw. Wedyn mae ganddo gerdd arbennig iawn i Dewi Z. Phillips – athronydd, beirniad llenyddol, diwinydd a gwyddonydd. Coffa da gan eisteddfodwyr am Dewi Z. yn cerdded y maes gyda Cynwil Williams, ac yn barod i sbarcio mewn sgwrs bob amser. Yn y gerdd hon, fel mewn llawer un arall, mae Gwyn Thomas yn ailadrodd yn bwrpasol y llinellau 'Gyda Dewi/Felly'r oedd hi' i ddod â'r darlennydd yn ôl at y gwir wrthrych.

Y mae'r cerddi yn orlawn o ddeunydd seiad – yn foesebol, yn farddonol ac yn ysbrydol. Mae'r broliant cywasgedig, cyflawn ar gefn y gyfrol yn cyfeirio at yr holl agweddau hyn ar y gwaith. Mae yma gerddi direidus, rhai dwys a doniol, ac, wrth gwrs, mae yma goegni crafog hefyd, a gwirioneddau syml mawr. Ystyriwch y gerdd fechan hon, 'Mamau', er enghraifft:

Eu mamau, nid eu tadau,  
Sydd ar blant bach eu heisiau  
Yn nosau duon eu bywydau.

Byddwn yn dweud hefyd fod yma dipyn go lew o dosturi am gyflwr dyn (gan gynnwys y ferch, wrth gwrs, fel y mae'r bardd yn pwysleisio), ond y mae, ac yntau dros oed yr addewid ei hun, yn gallu chwerthin am ei ben ei hun. Fel minnau, mae'n mwynhau pleserau syml fel criced (nid y gêm fodern 20/ugain liwus ond y gêm gyda fflanel gwyn a hithau'n haf), fel y dengys ei gerdd 'Gêm Braf yr Haf':

Rhithiau gwyn y maes, a ninnau hefyd  
Sydd ar odre'r hud, nyni i gyd  
Â'n sylw arni hi, un belen fechan,  
Fechan, goch – ac annarogan.  
Hi yn wyllt, fe all felltenu'n odiaeth,  
Teithio'n burion, union syth fel saeth,  
Neu'n gyfrwys, gyfrwys a chyffrous iawn droelli,  
Chwalu'n ffyrnig goed wicedi.

Hi yn orfoleddus gaiff ei chlatjio ...

O! am gael yr hafau hynny'n ôl a  
ninnau erbyn hyn yn hen.

Dof yn awr at y gerdd sy'n rhoi i'r gyfrol ei theitl, a cherdd hefyd sy'n ymgorffori llawer o'r hyn y soniais amdano, a gadawaf hi i'ch annog i brynu'r gyfrol rad hon o gerddi sy'n rhoi pleser ac ysgogiad i rywun:

A! Bellach

A! Bellach, y mae credoau dwfn-ddefodol,  
O bellterau ein gorffennol,  
A ddeuai, yn eu tro, 'n flynyddol  
I'n helpu i fyfyrion ar furmuron tragwyddoldeb,  
Bodolaeth, a marwolaeth –  
Y rhai hynny a ddeuai â'u delweddau  
O Seren Ddisglair,  
Preseb Tlawd, a Gwely Gwair;  
Neu Groesbren Gwag, a Maen Treigledig,  
Ac Un Rhyfeddol-Atgyfodedig –  
Wedi ildio'u ffordd i Gracyrs,  
Tinsel, ambell i Het  
Liwgar; a Chwningod Tjioclet.

Dyma finnau yn awr yn ceisio cywasgu'r  
cyfan i ddeg sill ar hugain:

Bod a darfod a hud arfaeth – y byd  
a'i bwys, a mabolaeth;  
hen olwyn fawr bodolaeth  
dro ar ôl tro'n croesi'r traeth. **B**

## Kenny MacAskil

(*Gweinidog dros Gyfiawnder Yr Alban*  
– ar ôl iddo ryddhau Megrabi)

Diolch i chi am fod yn ddewr.  
Diolch i chi am egwyddor.  
Diolch am ddangos i'r byd  
beth yw bod yn wâr!

Mary Scammell